# RHYBUDD O GYFARFOD


***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***

***Jonathan Cawley***
***Prif Weithredwr***
***Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri***
***Penrhyndeudraeth***
***Gwynedd LL48 6LF***
***Ffôn: (01766) 770274***
***E.bost: parc@eryri.llyw.cymru***


| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 11 Tachwedd 2026 |
| **Amser:** | 10:00 y.b. |
| **Man Cyfarfod:** | Swyddfa'r Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth a thrwy Zoom |

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser cychwyn dynodedig***

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd***
*Y Cynghorwyr: Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy***
*Y Cynghorwyr: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;*

***Aelodau wedi'u penodi gan Lywodraeth Cymru***
*Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Naomi Luhde-Thompson, Delyth Lloyd, Wyn Thomas.*

# R H A G L E N

| | | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**<br>Derbyn ymddiheuriadau gan Aelod neu Swyddog | |
| 2. | **Datgan Diddordeb**<br>Derbyn datganiad o ddiddordeb yn unrhyw eitem gan aelod neu swyddog. | |
| 3. | **Cofnodion**<br>Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 15 Gorffennaf 2026 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir. (Copi yma). | 4 - 10 |
| 4. | **Taflen Weithredu**<br>Cyflwyno'r Daflen Weithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) | 11 - 13 |
| 5. | **Adroddiad Diweddaru ar Grantiau Arian Allanol**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr (Copi yma) | 14 - 22 |
| 6. | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma) | 23 - 70 |
| 7. | **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy (Copi yma) | 71 - 78 |
| 8. | **Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch 2025-26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Iechyd a Diogelwch. (Copi yma) | 79 - 94 |
| 9. | **Datganiad Polisi Cyflog 2026/27 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Cyflog ar gyfer 2025/26**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol (Copi yma) | 95 - 100 |
| 10. | **Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaeth Adnoddau Dynol (Copi yma) | 101 - 115 |
| 11. | **Adroddiad Cynnydd (Mehefin 2026), Cynllun Yr Wyddfa**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Prosiect Partneriaethau (Copi yma) | 116 - 140 |
| 12. | **Polisi a Strategaeth Caffael 2026-29**<br>Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (Copi yma) | 141 - 161 |

13. **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** 162 - 195

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r Pennaeth Adnoddau Dynol (Copi yma)

**COFNODION**
**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU**
DYDD MERCHER 15 GORFFENNAF 2026
Swyddfa'r Parc Cenedlaethol

***YN BRESENNOL:***

**Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd**
Cynghorwyr Elfed Powell Roberts (Cadeirydd), Elwyn Edwards, Delyth Lloyd Griffiths, John Pughe Roberts, Annwen Hughes, Louise Hughes, Edgar Wyn Owen, Meryl Roberts, Einir Wyn Williams;

**Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**
Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Nia Owen;

**Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru**
Rhys Evans, Salamatu Fada, Tim Jones, Delyth Lloyd, Wyn Thomas;

**Swyddogion**
Bethan Hughes, Keira Sweenie, Naomi Jones, Dewi Aeron Morgan, Sian Owen, Etta Trumper, Angela Jones, Eifion Jones.

**Hefyd yn Bresennol**
Luned Fôn Jones (Archwilio Mewnol)

1. **Cadeirydd**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Cadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei bod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig dau enw, sef Tim Jones ac Elfed Powell Roberts.

*Gwahoddwyd* y ddau i gyfarch y cyfarfod a chafwyd cyflwyniad yr un ganddynt.

Cynhaliwyd pleidlais ac *etholwyd* **Elfed Powell Roberts** yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

2. **Is-gadeirydd**

Amlinellodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y weithdrefn ar gyfer ethol Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau. Cynghorodd ei fod, yn unol â Rheolau Sefydlog 5.2 a 5.3, wedi derbyn enwebiadau yn cynnig un enw'n unig, sef Tim Jones.

*Etholwyd* **Tim Jones** yn Is-gadeirydd ar y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau.

Diolchodd yr Is-gadeirydd i'r Aelodau am eu cefnogaeth.

Cynghorodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio i gynorthwyo gwirio'r cofnodion ac y byddai'r recordiad ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

3. **Ymddiheuriadau am absenoldeb a Datganiadau'r Cadeirydd**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Einir Wyn Williams, Naomi Luhde-Thompson a Jon Cawley.

Croesawodd y Cadeirydd Bethan Hughes i'w chyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau yn ei rôl newydd fel Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Llongyfarchodd y Cynghorydd Meryl Roberts ar gael ei hethol i bwyllgor Grŵp Budd-ddeiliaid Safle Trawsfynydd.

Diolchodd i'r rhai oedd wedi bod yn paratoi at ddathliadau'r Parc yn 75 mlwydd oed.

Anogodd yr Aelodau i gefnogi'r ymgyrch, "O'r Mart i'r Maes", sef criw o amaethwyr oedd yn cerdded o Gaerwen i faes y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd i godi arian tuag at Ymchwil Canser Cymru.

4. **Datgan Diddordeb**

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

5. **Cofnodion**

*Mabwysiadwyd* cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2026, a llofnododd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

6. **Taflen Weithredu**

*Cyflwynwyd* y Daflen Weithredu gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Argymhellwyd*: –

- bod *Eitem 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25* (PacA 09.07.25) yn parhau ar y Daflen am y tro; roedd y Pennaeth Eiddo'n bwriadu cyflwyno adroddiad ar y mater o sbwriel cyffredinol dyddiol yn y Parc ym mis Medi.

*Penderfynwyd:* — **derbyn** yr Argymhelliad.

7. **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad yn cynnwys crynodeb o waith a gyflawnwyd gan Archwilio Mewnol yn ystod 2025/26 ynghyd â chynllun Archwiliad Mewnol ar gyfer 2026/27;
- mai casgliad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol oedd bod gan yr Awdurdod fframwaith cadarn o reolaeth fewnol;
- bod 2 ddarn o waith yng nghynllun Archwilio Mewnol 25/26, sef Plas Tan y Bwlch a Rheoli Prosiectau:
    1. rhoddwyd lefel sicrwydd "Uchel" i'r adroddiad ar Blas Tan y Bwlch, a
    2. rhoddwyd lefel sicrwydd "Digonol" i'r adroddiad ar Reoli Prosiectau
- bod yr adroddiad ar Reoli Prosiectau'n argymell y dylai cymhwyster rheoli prosiectau strwythuredig, fel PRINCE2 (*Projects in Controlled Environments*), fod yn ofynnol i reolwyr prosiect;
- bod y cynllun archwilio drafft ar gyfer 26/27 wedi ei baratoi a'i fod yn cynnwys dau adroddiad craidd, sef Yr Ysgwrn, a Chanolfannau Gwybodaeth yr Awdurdod.

*Nodwyd*:

- mewn ymateb i'r sylw bod pwynt 5.4 yn yr adroddiad ar Blas Tan y Bwlch yn nodi "incwm rhagweledig o bron i £125k, ond n[a] welwyd papurau gwaith i gefnogi'r ffigyrau yma", fod y papurau gwaith ar gael gan swyddogion yr Awdurdod a gellid dangos y ffigyrau pe dymunid eu gweld;
- bod pwynt 6 o'r adroddiad ar Blas Tan y Bwlch yn argymell "sefydlu grŵp o swyddogion er mwyn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu cynnydd a risgiau", ond dylid ystyried rhoi rôl i'r Aelodau a Bwrdd Rheoli'r Plas yn yr adolygiad yma hefyd, a gellid ei ystyried yn y drafodaeth oedd i ddigwydd yng nghyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi ar gylch gorchwyl y Bwrdd;
- cefnogaeth i'r syniad o'i wneud yn ofynnol i reolwyr prosiect gael cymhwyster yn PRINCE2;
- bod y Prif Weithredwr yn adolygu'r "Pecyn Cymorth Rheoli Prosiect" a gymeradwywyd yn 2019 a'i bod yn dasg oedd ar Daflen Weithredu'r Awdurdod.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn:

1. derbyn yr adroddiad fel "Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol" yn unol â gofyn y Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang.
2. ystyried y Cynllun Archwilio Gweithredol ar gyfer cyfnod cyfrifo 2026/27, ac un ai'n darparu argymhellion penodol perthnasol a/neu'n derbyn y cynllun.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

8. **Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2026**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles.

*Adroddwyd*:

- mai hwn oedd yr adroddiad blynyddol cyflawn olaf o gyflawni o dan y Strategaeth ar gyfer Datblygu Gwirfoddolwyr (2021-2026);
- bod Caru Eryri a'r wardeniaid gwirfoddol wedi parhau i wneud cyfraniad sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i ofalu am y Parc;
- bod adborth gan y gwirfoddolwyr yn dangos manteision o ran iechyd a lles, datblygu sgiliau ac adeiladu hyder;
- bod llesiant wedi parhau i ddatblygu yn ogystal, a bod adborth o'r teithiau cerdded ayyb wedi dangos fod y gweithgareddau'n helpu pobl i deimlo'n fwy hamddenol ac yn fwy hyderus yn defnyddio'r Parc;
- bod hybu partneriaethau'n hollbwysig;
- byddai'r adroddiad presennol yn cael ei ddefnyddio i lywio'r gwaith o greu strategaeth gwirfoddoli a llesiant newydd;
- byddai'r gwaith yn dechrau ar ôl adolygu Cynllun Eryri er mwyn sicrhau fod y strategaethau'n cyd-fynd â blaenoriaethau'r Awdurdod;
- diolchgarwch y Swyddog i'r holl wirfoddolwyr, partneriaid a staff oedd wedi cyfrannu at y gwaith dros y blynyddoedd.

*Nodwyd*:

- bod y Parc yn gynyddol boblogaidd gydag ymwelwyr o gefndir a thras de Asiaidd a dylid edrych i gael pobl felly'n wardeniaid gwirfoddol;
- dylid cynnwys yn yr adroddiad pa bethau a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn (pa bethau aeth yn dda, pa bethau na aeth gystal), a chymharu ffigyrau â blynyddoedd cynt;

- bod bwriad ceisio hybu'r nifer o wirfoddolwyr ym Mhlas Tan y Bwlch i gynorthwyo cynnal a chadw'r gerddi a'r llwybrau ayyb;
- bod gan yr Awdurdod a Chyngor Gwynedd lwybrau patrôl casglu sbwriel gwahanol i'w gilydd ac er bod cysylltu rhwng y timau tacluso mewn llefydd fel Llyn Tegid neu bentrefi, bod timau casglu'r Awdurdod yn canolbwyntio ar ardaloedd mwy anghysbell a phellennig.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad blynyddol.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

9. **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2025-26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad yn adrodd ar y cynnydd a wnaed yn y chwarter olaf a gydol 2025-26 i gyflawni'r gwahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod;
- bod cynnydd ar rai amcanion wedi llithro a thynnwyd sylw'r Aelodau atynt.

*Nodwyd*:

- bod staff yr Awdurdod wedi cael hyfforddiant ar gynhwysiant yn ddiweddar a bod pobl sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig a nodir yn y Ddeddf Cydraddoldeb yn cael ystyriaeth ddyledus yn strategaethau'r Awdurdod;
- bod rhaid bod yn fwriadol i gyrraedd grwpiau lleiafrifol gan sicrhau fod yr ymgysylltu'n gywir;
- byddai mwy o gydweithio rhwng yr Awdurdod a chymdeithasau tai'n gallu bod yn fuddiol er mwyn cynyddu'r nifer o dai fforddiadwy yn y Parc;
- dylid ychwanegu eitem ar hyfforddiant Aelodau, yn debyg i eitem CW1.1 (Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad) ar staff;
- bod monitro presenoldeb Aelodau yn y cyfarfodydd yn dda o ran llywodraethiant ond nad oedd presenoldeb ynddo'i hunan yn ddigonol, a dylid cael rhyw fodd o fesur cyfraniad Aelodau o fewn y cyfarfodydd;
- bod sesiwn anwytho yn cael ei rhoi i bob Aelod newydd a bod cynlluniau cychwynnol ar droed i gynnal sesiynau anwytho ar y cyd ar draws tri Pharc Cenedlaethol Cymru.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn trafod a nodi'r cynnydd ar y Rhaglen Waith Gorfforaethol.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

10. **Cofrestr Risg yr Awdurdod**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod 18 o risgiau wedi'u nodi ar y Gofrestr:
  - 1 wedi'i dosbarthu fel risg Uchel,
  - 14 fel risgiau Canolig a
  - 3 fel risg Isel
- bod sgôr risg effaith gynhenid risg 5, sef Targed Cynhyrchu Incwm ar gyfer Canolfannau Gwybodaeth, wedi'i ostwng o 4 i 3, i adlewyrchu realiti'r sefyllfa'n well; bod hyn wedi ei wneud i wahaniaethu rhwng risgiau 5 a 4 (Targed Cynhyrchu Incwm

(Meysydd Parcio)) ac i adlewyrchu'r gwahaniaeth sylweddol rhwng targed incwm y meysydd parcio (oedd â risg effaith gynhenid o 4) a tharged incwm y Canolfannau Gwybodaeth.

*Nodwyd*:

- nad oedd rhifau'r risgiau fel y'u hadroddwyd yn y blaenadroddiad yn cyd-fynd â'r rhifau fel y'u nodwyd yn y Gofrestr Risg ei hun;
- wedi trafod y cynnig, y dylai'r risg, "Sefydlu Pedwerydd Parc Cenedlaethol yng Nghymru" (risg 19) barhau ar y gofrestr hyd nes y byddai'r penderfyniad wedi'i wneud;
- dylid ychwanegu'r gallu i reoli prosiectau gan ddefnyddio PRINCE2 yn rhan o Risg 9 (Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod);
- dylai'r Tîm Arweinyddiaeth ystyried y dirwedd wleidyddol yn gyson a nodi unrhyw risgiau gallai godi ohoni.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad ac

1. ychwanegu'r angen i reolwyr prosiect allu defnyddio PRINCE2 fel rhan o Risg 9,
2. cadw Risg 19 (pedwerydd Parc Cenedlaethol) ar y Gofrestr Risg am y tro.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

11. **Adroddiad Monitro Cwynion**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

*Adroddwyd*:

- bod yr Awdurdod wedi derbyn 13 o gŵynion ffurfiol yn ymwneud yn uniongyrchol â'r Awdurdod yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26.

*Nodwyd*:

- byddai'n ddefnyddiol petai'r adroddiad yn cynnwys cymariaethau gyda blynyddoedd blaenorol.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

12. **Adroddiad Blynyddol ar y Gwir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2025/26**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid.

*Adroddwyd*:

- bod yr adroddiad yn statudol ofynnol a'i fod yn adrodd yn ôl ar weithredu Strategaeth yr Awdurdod ar gyfer Rheolaeth Trysorlys 2025/26 (a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yng nghyfarfod 5 Chwefror 2025);
- bod yr Awdurdod wedi cydymffurfio'n llwyr â'r hyn a gytunwyd arni yn 2025;
- nad oedd yn rhaid benthyca yn ystod y flwyddyn, a bu i'r Awdurdod orffen y flwyddyn fel dechreuodd, sef yn Awdurdod diddyled;
- i'r Awdurdod leihau'r risg drwy rannu'r buddsoddi rhwng 6 banc gwahanol;
- y derbyniwyd cyfanswm o £327K o log, a oedd yn llai na'r flwyddyn flaenorol, ond yn fwy na'r disgwyl.

*Nodwyd*:

- y byddai'n ddefnyddiol gweld ffigyrau o'r blynyddoedd diwethaf i'w cymharu.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad.

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

13. **Adroddiad Blynyddol Enwau Tirweddol Eryri**

*Cyflwynwyd* adroddiad gan y Cyfarwyddwr Rheoli Tir.

*Adroddwyd*:

- cefndir y prosiect a'r modd ei fod wedi tyfu a'i droi'n fwy strategol;
- bod dau brosiect gwahanol, sef
    - safoni'r enwau oedd eisoes ar fapiau Arolwg Ordnans (AO);
    - prosiect cymunedol yn cofnodi enwau tirweddol lleol;
- ei fod yn fwriad dod â'r ddau brosiect fwyfwy at ei gilydd dros y flwyddyn i ddod fel byddai mwy o'r enwau lleol yn cael eu cofnodi ar fapiau AO;
- bod dros 900 o enwau wedi'u safoni bellach, ac er bod agwedd yr AO wedi bod yn gefnogol ar y cyfan, byddai'n rhaid gweld faint o'r argymhellion a gâi eu mabwysiadu'n llawn;
- bod meithrin partneriaethau gyda sefydliadau fel Cyngor Mynydda Prydain (*British Mountaineering Council*) a Phlas y Brenin yn hollbwysig er mwyn ceisio sicrhau bod pobl nad oedd yn deall y Gymraeg yn dod i ddeall pwysigrwydd yr enwau;
- bod bwriad trefnu darn o waith penodol ar safoni enwau yn ardal Ogwen eleni:
    - byddai'r gwaith hwnnw'n codi nifer o gwestiynau anodd a oedd yn rhaid eu hwynebu gan gynnwys, er enghraifft, nifer o fathiadau Saesneg diweddar ar ddringfeydd penodol;
    - nad mater o gofnodi enwau Cymraeg neu enwau Saesneg unig ydoedd, ond ymgais i gael cywirdeb ieithyddol a hanesyddol yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- ar gymuned Llanuwchllyn a oedd wedi casglu dros fil o enwau mewn un sesiwn, a bod cymaint o frwdfrydedd o fewn y gymuned am y gwaith nes i'r Awdurdod benderfynu cydweithio â'r gymuned yn benodol i ddatblygu gwaith dehongli ac ymgysylltu; a bod map cymunedol wedi'i gynhyrchu yn cynnwys enwau lleol erbyn hyn.

*Nodwyd*:

- pe byddai'r AO yn dal yn ôl, mai pwysau gwleidyddol yn y pen draw fyddai'n newid y sefyllfa;
- bod yr Awdurdod mewn cysylltiad â Llywodraeth Cymru, ac yn cyfarfod â Llŷr ap Dafydd o'r Tîm Cymraeg yn fisol; bod bil treftadaeth ar y gweill a bod posibilrwydd y byddai enwau lleoedd yn rhan o hwnnw;
- gellid lobïo Aelodau San Steffan ond gwell fyddai aros i weld ymateb yr AO i'r 900 o enwau'n gyntaf;
- bod yr Awdurdod wedi ysgrifennu at holl Aelodau'r Senedd wedi etholiadau mis Mai i'w gwahodd i ddod i'r Parc i drafod unrhyw bynciau yr hoffent, a gellid codi'r mater enwau lleoedd mewn cyfarfod o'r fath.

*Argymhellwyd*: – bod y Pwyllgor yn:

1. derbyn yr adroddiad er gwybodaeth
2. cyfrannu unrhyw syniadau ar gyfer datblygu maes gwaith enwau lleoedd

*Penderfynwyd*: — **derbyn** yr Argymhelliad.

**Daeth y cyfarfod i ben am 11:55**

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 09.07.2025

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| 12. Adroddiad Alldro Refeniw a Chyfalaf 2024/25 | Gor-wario sylweddol oherwydd sbwriel wedi ei adael gan ymwelwyr.<br>PENDERFYNWYD gwahodd cyflwyno adroddiad i weld a ellid gwneud rhywbeth tebyg a wnaed ar Yr Wyddfa yn fwy cyffredinol. | Paratoi adroddiad i'r Pwyllgor | PW | Mae swyddgion wedi arbrofi drwy dynnu biniau o safloedd a chodi arwyddion yn annog pobl i fynd â'u sbwriel adref. Yn sgil ymateb anfoddhaol rhoddwyd peiriannau cywasgu sbwriel ar safleoedd, hyn eto yn anfoddhaol. Roedd y peiriannau'n torri lawr oherwydd gor-ddefnydd.<br>Bellach mae biniau mawr wedi cael eu gosod ar safloedd.<br>Mae angen ystyried fod yr Awdurdod wedi codi ffioedd meysydd parcio ac y bydd disgwyliad gan y cyhoedd i gael cyfleusterau biniau ar safloedd.<br>**Adroddiad ar y mater wedi ei gyflwyno i Weithgor mis Medi 2026** | **Ie** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

## PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 15.07.2026

| EITEM: RHIF A THEITL | PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU | GWEITHREDIADAU | SWYDDOG CYFRIFOL | DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU | DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU |
|---|---|---|---|---|---|
| **7. Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol** | Roedd pwynt 6 o'r adroddiad ar Blas Tan y Bwlch yn argymell "sefydlu grŵp o swyddogion er mwyn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i adolygu cynnydd a risgiau".<br>AWGRYMWYD ystyried roi rôl i'r Aelodau a Bwrdd Rheoli'r Plas yn ogystal. | Ystyried rôl yr Aelodau a dod ag argymhellion i gyfarfod yr Awdurdod ym mis Medi ar gylch gorchwyl Bwrdd Plas Tan y Bwlch | Bethan Hughes a Naomi Jones | Medi 26<br>**Adroddiad gan y PW wedi ei gyflwyno i Weithgor Aelodau Hydref yn cynnig sefydlu grwpiau i dderbyn mewnbwn Aelodau – hyn yn cynnwys sefydlu Is-Grwp Plas Tan y Bwlch** | **Ie** |
| **8. Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2026** | Dylid cynnwys yn yr adroddiad pa bethau a ddysgwyd yn ystod y flwyddyn (pa bethau aeth yn dda, pa bethau na aeth gystal), a chymharu ffigyrau â blynyddoedd cynt | Ychwanegu'r wybodaeth at yr adroddiad | Keira Sweenie ac Angela Jones | Gorff 27<br>**Wedi'i nodi. Bydd y wybodaeth yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad blynyddol nesaf ac o hyn ymlaen.** | |
| **9. Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27** | Dylid ychwanegu eitem ar hyfforddiant Aelodau, yn debyg i eitem CW1.1 (Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad) ar staff | Ychwanegu'r wybodaeth at yr adroddiad | BH | **CW 4.3 wedi ei gynnwys yn y rhaglen waith corfforaethol:**<br>"Mae'r Aelodau wedi cael Cyfarfod Adolygu Datblygiad Personol ar eu hanghenion datblygu a chymorth.<br>Yn flynyddol / pob 12 mis" | **Ie** |

# TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **10. Cofrestr Risg yr Awdurdod** | Dylid ychwanegu'r gallu i reoli prosiectau gan ddefnyddio PRINCE2 yn rhan o Risg 9 (Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod) | Ychwanegu'r risg at yr adroddiad | BH | **Hyn wedi ei gynnwys ar y Gofrestr Risg** | **Ie** |
| **11. Adroddiad Monitro Cwynion** | Byddai'n ddefnyddiol petai'r adroddiad yn cynnwys cymariaethau gyda blynyddoedd blaenorol | Ychwanegu'r wybodaeth at yr adroddiad | BH | **Wedi'i nodi. Bydd yn cael ei gynnwys yn adroddiad blynyddol ar gyfer Pwyllgor PacA Gorffennaf 2027** | |
| **12. Adroddiad Blynyddol ar y Gwir Weithgarwch Rheolaeth Trysorlys yn 2025/26** | Byddai'n ddefnyddiol gweld ffigyrau o'r blynyddoedd diwethaf i'w cymharu | Ychwanegu'r wybodaeth at yr adroddiad | Sian Owen | **Wedi'i nodi. Bydd y wybodaeth yn cael ei ymgorffori yn yr adroddiad blynyddol o hyn ymlaen.** | |

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 11 Tachwedd 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Diweddaru ar Grantiau Arian Allanol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Prif Weithredwr |
| **PWRPAS** | Darparu diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Archwilio Cymru eisoes wedi amlygu'r pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad ac mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd, yn bennaf:

Mabwysiadu pecyn cymorth prosiect ar gyfer defnydd swyddogion.

Cytunodd Aelodau i adolygu blaenoriaethau ceisiadau grant yr Awdurdod yn flynyddol (**Atodiad 1**).

Mabwysiadodd yr Aelodau raglen gymeradwyo prosiectau (**Atodiad 2).**

1.2 Diwygiwyd y pecyn cymorth prosiect ddiwethaf yn 2022 i gynnwys Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau, Ystyrir ei bod hi bellach yn amserol adolygu, diweddaru a symleiddio'r pecyn cymorth. Mae'r gwaith wedi dechrau a bydd yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn fuan.

## 2. DIWEDDARIADAU AR BROSIECTAU:

Mae Aelodau wedi gofyn am ddiweddariad chwe misol ar y prosiectau gweithredol sy'n cael eu datblygu gan swyddogion:

2.1 **Prosiect LIFE Coed Glaw Celtaidd:**

Mae'r prosiect yn mynd rhagddo ar amser i'w gwblhau yn 2027. Cynhaliwyd Cynhadledd Diwedd y Prosiect, sef prif gynnyrch y prosiect, ym Mhrifysgol Bangor ar 14 a 15 Ebrill 2026. Roedd y digwyddiad deuddydd yn llwyddiant ac yn dathlu cyflawniadau prosiect Coed Glaw Celtaidd, gan roi cyfleoedd i gynrychiolwyr a rhanddeiliaid gyfrannu eu barn ar fentrau i'r dyfodol trwy weithdai rhyngweithiol.

Mae'r prosiect yn parhau ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a'r allbynnau a osodwyd.

2.2 **Plas Tan y Bwlch:**

Cais Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (CDLG):

Mae Aelodau wedi derbyn y wybodaeth ddiweddaraf ar wahân ar gynydd y gwaith a gomisiynwyd ar gyfer paratoi cynlluniau a dogfennau i gefnogi cais yr Awdurdod ar gyfer "cyfnod datblygu" cais y Loteri. Cyflwynwyd y cais i'r Loteri ddiwedd Gorffennaf ac mae swyddogion yn aros am y canlyniad terfynol mis Rhagfyr.

2.3 **Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol (PPC) a Sefydliad y Parc Cenedlaethol (SPC):**

Mae cyfleoedd ariannu pellach ar raddfa lai yn cael eu darparu trwy ymdrechion naill ai Partneriaeth y Parc Cenedlaethol neu Sefydliad y Parc Cenedlaethol:

**PCC: Vodafone:** £40K unwaith ar gyfer rhaglen adfer terfynau traddodiadol, (gwrychoedd yn bennaf), wedi'i hymrwymo a'i chontractio'n llawn.

**PCC: AMEX:** Cytundeb dwy flynedd i uwchsgilio ein hyfforddeion coetir a chynorthwyo i ddarparu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli o fewn y feithrinfa goed (£5.6K y flwyddyn).

2.4 **Ffermio Bro:**

Mae Ffermio Bro yn rhaglen grantiau cyfalaf tair blynedd ar gyfer Tirweddau Dynodedig Cymru sy'n rhedeg tan 2028. Mae'n rhaglen drawsnewid i haen gydweithredol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd. Mae gan y cynllun gyllideb o £1.8M ym mlwyddyn un, a chyllideb wedi'i hamserlennu o £3.2M y flwyddyn ym mlynyddoedd dau a thri. Mae cylch gorchwyl cenedlaethol ar gyfer y paneli cymeradwyo wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru.

Mae gan Eryri gyfrifoldeb cyflawni yn AHNE Llŷn a Môn.

Mae swyddogion Llywdoraeth Cymru wedi cynnal gwerthusiad blwyddyn gyntaf o'r cynllun yn seiliedig ar adborth gan ffermwyr, staff tirwedd a rhanddeiliaid allanol gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a ddarparodd wybobdaeth werthfawr i ddatblygu rheolau, polisiau a chanllawiau'r cynllun ar gyfer 2026-28. Mae'r ail flwyddyn wedi cael mwy o geisiadau nag sydd ar gael yn y tair ardal. Mae'r holl gontractau wedi'u cyhoeddi ac mae'r gwaith yn symud ymlaen.

2.5 **Rhaglen Gweithredu Cenedlaethol Mawndiroedd. Eryri+ 2025-2028**

Gan adeiladu ar ein llwyddiant blaenorol yn y maes hwn, cyfanswm o £1,200,000 o gyllid grant dros dair blynedd o £400k y flwyddyn. Bydd y gwaith yn cynnwys arolwg a rhaglen adfer o fewn Eryri a thu allan, gan gwmpasu hyd at 15km y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol, yn ogystal ag ar ACA Berwyn, Hiraethog a Phen Llŷn. Mae themâu'r rhaglen yn cynnwys prosiectau i reoli erydiad, draenio, rheolaeth gynaliadwy o fawndiroedd blanced a thir isel, adfer mawndiroedd wedi'u coedwigo a rhai wedi'i haddasu'n eithafol.

Dechreuodd y prosiect ar 01.04.2025 ac mae swyddogion wrthi'n arolygu safleoedd, yn paratoi caniatâd a thrwyddedau, yn ysgrifennu cynlluniau adfer, ac yn dylunio dogfennau tendro. Mae gwaith wedi'i gynllunio ar 14 safle, sy'n cwmpasu 136ha, yn y flwyddyn ariannol hon, ond gallai hyn newid. Mae'r arwynebedd dan sylw yn llai eleni oherwydd natur y safleoedd, y gwaith a'r costau.

2.6 **Prosiectau'r Grid Cenedlaethol:**

**Waliau Eryri:** Rhaglen werth £300k i adfer a chodi waliau cerrig sych a ffensys neidio newydd. Mae cytundebau gwaith yn cael eu gosod gyda'r tirfeddianwr yn gyfrifol am gyflawni'r gwaith.

**Gwylio'r bwlch~Mind the gap**: Prosiect gwerth £200k sy'n gweithredu yn Nhalsarnau a Thremadog gyda gwaith ar ystâd y Wern ar ffin y Parc Cenedlaethol, cymysgedd o reoli ffiniau a choetiroedd traddodiadol.

**Gwaith wrthbwyso uwchraddio Pentir i Lanberis:** Prosiect gwerth £85k.

£25k ar gyfer atgyweiriadau ffiniau traddodiadol o fewn 1.5Km o seilwaith y Grid yn ardal Pentir, a chyllid ar gyfer hyfforddai coetir a meithrinfa goed am 2 flynedd.

2.7 **Mannau Lleol ar gyfer Natur:** Cadarnhawyd cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ar yr un sail â 2025-26. Mae'r cyllid yn darparu adnoddau ar gyfer dau swyddog bioamrywiaeth a chyllid cyfalaf ar gyfer prosiectau cymunedol. Mae'r Awdurdod yn derbyn hanner cyllid cyfalaf Awdurdod Lleol sydd ar hyn o bryd yn £148k.

2.8 **Eryri Dywyll (NOS):** Mae'r ardal waith wedi'i lleihau nawr i Eryri a Môn oherwydd diffyg cyllid ar Llyn a Bryniau Clwyd yn optio allan oherwydd pwysau ariannol sydd â goblygiadau cyllido uniongrychol ar yr Awdurdod ac ar yr ôl- gyllido. Bydd y swyddog yn cyflawni prosiectau a ariennir gan arian Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy a grant NNF5 o £5k y flwyddyn. Ariennir cyllid grant NNF5 am 2 flynedd a bydd yn cyfrannu at amser y swyddog i ganolbwyntio ar waith Rhwydweithiau Ecolegol Tywyll. Dyfarnwyd y cyllid i gais cydweithredol dan arweiniad Bryniau Clwyd.

2.9 **Cynllun Adnoddau Naturiol Intergredig (INRS):**

i. **Y Coeden lawn yn y lle lawn**: (£999k): Yng nghyfarfod yr Awdurdod mis Chwefror, cymeradwyoedd yr Aelodau i Bennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth dderbyn y cyllid grant a symud y prosiect ymlaen. Byddwn yn diweddaru Aelodau fel mae'r prosiect yn datblyg.

ii. **Ffermio Adfywiol** (£780k): Yng nghyfarfod yr Awdurdod mis Chwefror, cymeradwyoedd yr Aelodau i Bennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth dderbyn y cyllid grant a symud y prosiect ymlaen. Byddwn yn diweddaru Aelodau fel mae'r prosiect yn datblyg.

Mae gwaith recriwtio wedi'i gynnal ar gyfer y ddau brosiect INRS ac mae'r staff bellach yn eu swyddi; fodd bynnag, mae'r ddau brosiect chwe mis ar ei hôl hi o'u cymharu â'r amserlen arfaethedig, yn bennaf oherwydd oedi gan Lywodraeth Cymru. Mae trafodaethau â Llywodraeth Cymru yn parhau ynglŷn ag ail-amserlennu cyllid cyfalaf a refeniw oherwydd yr oedi hwn. Mae risg barhaus na fydd yn bosibl ail-amserlennu'r gyllideb; o ganlyniad, mae perygl na fydd cyfran sylweddol o'r gwariant cyfalaf yn y flwyddyn ariannol bresennol ar gael, oni bai y gellir ei symud i'r flwyddyn ariannol nesaf.

2.10 **Cyllideb cronfa y Pethau Pwysig 2025-26/27**:

Derbyniwyd £300k ar gyfer gwaith gwella o fewn y portffolio eiddo.

**Canolfan Groeso'r Hen Stablau**: Derbyniwyd £300k tuag at waith tirlunio a dehongli yn y cwrt y tu allan i Ganolfan Groeso Betws y Coed, rhan o'r gwaith ailddatblygu ar y safle. Bydd y gwaith yn bwrw ymlaen i wella'r cwrt drwy blannu, creu mannau eistedd a gosod arwyddion; bydd hefyd gwelliannau i'r goleuadau yn y prif faes parcio, a chynlluniau i ehangu'r uned wag a'i huno â'r cyn swyddfa.

## 3. TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEFYDD CYNALIADWY (TCLLC). CYLLID CYFALAF DWY FLYNEDD LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER TIRWEDDAU CYMRU, 2025-27

3.1 Yn adeiladu ar raglen 3 blynedd flaenorol y Cynllun TCLIC, cymeradwyoedd Llywodraeth Cymru raglen fuddsoddi cyfalaf 2 flynedd bellach ar draws yr wyth Tirwedd Dynodedig yng Nghymru i sicrhau y gallent gyfrannu at amcanion allweddol Llywodraeth Cymru. Mae cyllid hyd at £1m yr un wedi'i gymeradwyo dros y ddwy flynedd. Yn ogsytal â'r rhaglen dargedig hon, mae dyraniad o £330k y flwyddyn o gyllid cyfalaf cyffredinol pellach wedi'i ddyfarnu.

3.2 Mae gan y Gronfa Natur a Charbon 2025-27 gysylltiad polisi cryf â blaenoriaethau LIC a dibenion statudol a chyfrifoldebau allweddol Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a bydd yn darparu dull wedi'i dargedu i fynd i'r afael â nhw.

Mae gan y Gronfa ddau brif gainc:

- **Hyrwyddo Bioamrywiaeth ac Adfer Natur** – yn cynnwys prosiectau sy'n gwella cysylltedd a gwydnwch ecosystemau mewn ardaloedd dynodedig, a/neu'n defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i liniaru effeithiau newid hinsawdd.
- **Cyflymu Datgarboneiddio** – trwy ddatgarboneiddio gweithgaredd ac asedau'r Awdurdod tuag at sero net, cynlluniau i alluogi datgarboneiddio mewn cymunedau gan gynnwys ynni adnewyddadwy priodol, a chynlluniau atafaelu carbon yn y dirwedd.

Yn dilyn cyflwyno amrywiaeth o brosiectau, mae prosiectau 2 flynedd Eryri bellach wedi'u cadarnhau gan Lywodraeth Cymru:

3.2.1 **Prosiect Nos Eryri: £270k** (+£100k gwelwch isod). Mae'r prosiect yn deillio o waith prosiect NOS ac yn ymchwilio ymhellach i agweddau bioamrywiaeth tywyllwch a'r rhywogaethau sy'n ddibynnol ar amodau tywyll i ffynnu. Bydd y gwaith yn diogelu ac yn gwella amodau cynefinoedd rhywogaethau wedi'u blaenoriaethu gan greu amodau gwell i ffynnu a bridio'n fwy effeithiol. Mae'r prosiect yn ffocysu'n benodol ar glwydfannau ystlumod. Mae'r gwaith yn cynnwys adfer dau adeilad traddodiadol (un ohonynt wedi'i restru), y ddau yn nythfeydd ystlumod cofrestredig.

Hefyd, mae ôl-osod ysgafn yn cael ei wneud lle mae effaith ar wreiddiau ystlumod, safleoedd nythu tylluanod neu fudo pysgod mewn sawl safle SoDdGA ac ACA yn ardal Coedydd Derw Meirionnydd, cyllid cyfalaf 2 flynedd ar gyfer Tirweddau Cymru, 2025-27.

3.2.2 **Dŵr Gwyllt Eryri: £200k.** Bydd y prosiect dyfrol hwn yn edrych ar gyflawni'r prosiectau adfer afonydd gan arwain at naturioli sianeli a llifau, cael gwared ar rwystrau mudo pysgod gan agor mwy o gynefinoedd a gwell cysylltedd ar hyd ardaloedd glannau afonydd. Bydd hyn yn gwella amodau ar gyfer rhywogaethau allweddol fel eog yr Iwerydd, lamprai, brithyll a dyfrgwn i enwi ond ychydig. Mae'r rhain yn rhywogaethau allweddol mewn sawl Ardal Cadwraeth Arbennig yn Eryri.

Yn anffodus, yn bennaf oherwydd materion yn ymwneud ag amser a heriau rheoli prosiectau, ni symudodd y prosiect ymlaen i ail flwyddyn o gyllid gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cafodd y cyllid a ddyrannwyd ar gyfer y prosiect yn 2026-27 (£100,000) ei ail-ddyrannu'n gyfan gwbl i brosiect 'Nos Eryri'. Bydd hyn yn galluogi'r prosiect hwnnw i gyflawni ei botensial llawn, gan sicrhau'r buddion mwyaf posibl i natur a threftadaeth ddiwylliannol, a lleihau unrhyw risg o ddiffyg cyllid.

Mae staff yn bwrw ymlaen â gwaith paratoi (cais cynllunio), er mwyn i brosiect sy'n ymwneud â dyfroedd gwyllt yn Eryri allu symud ymlaen yn gyflym os bydd cyllid ar gael yn y dyfodol.

3.2.3 **Coed a Choetiroedd Hynafol: £170k.** Cefnogaeth barhaus i'r Arolwg o Goetiroedd Hynafol a'r rhaglen waith, gan adeiladu ar weithredu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Coed a Choetiroedd. Mae hyn yn galluogi casglu gwybodaeth barhaus a chyflawni gweithiau cyfalaf sy'n gwella gwydnwch safleoedd a'u cysylltedd.

Gwnaed cynnydd da yn ystod y flwyddyn gyntaf, gyda chwblhau arolygon ar 13 safle (yn cwmpasu 78.61 hectar) a gweithiau cyfalaf ar safleoedd yn cwmpasu 93.04 hectar.

3.2.4 **Cynhyrchu Trydan Adnewyddadwy ar safloedd: £160k.** Gwaith gosod to ffotofoltaig solar a gwella inswleiddio to yng Nghanolfan Wybodaeth Aberdyfi. Gosod to ffotofoltaig solar ar Fwngalo Yr Ysgwrn, tŷ cychod, swyddfa, toiledau a chawodydd cyhoeddus blaendraeth Llyn Tegid.

3.2.5 **Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol: £200k.** Bydd y prosiect yn datblygu cyfleoedd i adfer natur o fewn Ardal Gadwraeth Dolgellau trwy osod blychau bioamrywiaeth (ystlumod, gwenoliaid at ati) ar adeiladau traddodiadol. Bydd y prosiect hefyd yn gweithredu ar gyfleoedd i wella cyflwr awyr dywyll yr ardal gan wella cynefinoedd ac amodau ar gyfer bioamrywiaeth.

Nodwyd 8 adeilad fel rhai â blaenoriaeth uchel a dyfarnwyd £16.5k i bob un; nodwyd 7 adeilad fel rhai â blaenoriaeth ganolig a dyfarnwyd £8.25k i bob un. Roedd y grantiau a gynigiwyd yn seiliedig ar 50% o'r costau.

Dyfarnwyd 5 bwrsari sgiliau traddodiadol i fyfyrwyr sydd â photensial uchel mewn meysydd fel adeiladu, plastro, a gwaith coed cadwraeth, sy'n dilyn cyrsiau Addysg Bellach yng ngholegau Grŵp Llandrillo Menai. Mae 2 brentisiaeth, a hwyluswyd gan Grŵp Llandrillo Menai, wedi dechrau, ac mae nifer o gyrsiau hyfforddi sgiliau traddodiadol wedi'u cynnal ar gyfer perchnogion adeiladau traddodiadol a chontractwyr.

3.2.6 **Cronfa Gyfalaf Cyffredinol:** £330k y flwyddyn yn 2025-26-27**.**

Mae'r arian yn 2026-27 wedi ei ddyrannu fel a ganlyn:

- Parhau â'r gwaith o ddiweddaru'r holl gerrig ffin Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r logo newydd.
- Cyllid ar gyfer 11 prosiect datgarboneiddio o fewn Cronfa Cymunedau Eryri, ar gyfer gwaith cyfalaf amrywiol i wella effeithlonrwydd ynni.
- Mae gwaith wedi symud ymlaen ers y flwyddyn gyntaf ar y platfform twristiaeth gynaliadwy – RHOI – sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu a'i brofi gan ddefnyddwyr cyn iddo gael ei lansio adeg y Pasg yn 2027.
- Gwnaed cyfraniad o £100,000 i ariannu gwaith peirianneg hanfodol ar gyfer diogelwch ac atal llifogydd yn Llyn Mair, er mwyn gosod system seiffon argyfwng newydd. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau dros fisoedd yr haf**.**

## 4. CYLLID CYFALAF YCHWANEGOL LLYWODRAETH CYMRU, 2025-26:

4.1 Yn gynnar yn 2026, gwahoddodd LLC y Tirweddau Dynodedig i gyflwyno cynigion ar gyfer prosiectau tymor byr i:

- leihau ôl-groniadau cynnal a chadw
- lleihau costau gweithredu ac allyriadau y dyfodol a
- galluogi cyrff i fod mewn gwell sefyllfa i gyfrannu at flaenoriaethau'r Awdurdod gan gynnwys adfer natur, datgarboneiddio a thwritiaeth gynaliadwy.

Cyflwynwyd rhestr gynhwysfawr i LC o brosiectau yn amrwyio o uwchraddio systemau TC, offer cynnal a chadwl llwybrau, cyllid ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfredol, llwyfannau data digidol, prosiectau dehongli a phrosiectau adfer natur i enwi ond ychydig. Cefnogwyd yr holl brosiectau a dyfarnwyd £1,003,300 o gyllid cyfalaf ychwanegol i APC Eryri.

## 5. PROSIECTAU NEWYDD A PHROSIECTAU POSIBL:

5.1 Mae swyddogion yn parhau i asesu'r potensial ar gyfer cyfleoedd prosiect newydd sy'n cyd-fynd â'n hamcanion. Byddwn yn ymdrechu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau wrth i'r rhain ddatblygu.

5.2 **Tyfu Twristiaeth Beicio yng Nghymru**: Diwedd Hydref, llwyddodd adran Partneriaethau, APCE i sicrhau cyllid grant Croseo Cymru, cronfa "Tyfu Twristiaeth Beicio yng Nghymru". Sefydlwyd y gronfa yn sgil cynnal cam o'r Tour de France – digwyddiad sy'n enwog ledled y byd – yng Nghymru. Nod y gronfa yw sefydlu Cymru fel cenedl feicio flaenllaw, a buddsoddi mewn seilwaith a chyfleusterau i wneud Cymru'n fwy croesawgar i feicwyr. Bydd hyn yn helpu i dyfu twristiaeth, cefnogi economïau lleol, a gwneud y mwyaf o fanteision hirdymor y digwyddiad eiconig hwn.

Cyflwynwyd 3 chais gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a llwyddodd pob un ohonynt, gan sicrhau cyfanswm o £122,500 mewn cyllid grant:

- **Llwybr y Mawddach** (£25,032): i wella'r profiad beicio. Mewn partneriaeth â 'History Points' a'r gymuned leol, bydd arwyddion ar Lwybr y Mawddach yn cael eu diweddaru a'u gwella.
- **Gwella seilwaith beicio yn Eryri** (£48,758): mewn partneriaeth â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, bydd raciau beiciau yn cael eu gosod ym mhob maes parcio sy'n eiddo i'r Awdurdod. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gosod raciau ar eu safleoedd yn Eryri. Bydd stondinau cynnal a chadw a blychau offer yn cael eu gosod ar rai safleoedd.
- **Beiciau trydan (e-beiciau) ym Metws-y-coed** (£48,792): dan arweiniad Pellenig Cyf (sefydliad nid-er-elw), hwylusodd swyddogion yr Awdurdod cais i gynyddu'r nifer o e-beiciau sydd ar gael ym Metws-y-coed, gan wneud beicio'n fwy hygyrch i drigolion lleol ac ymwelwyr.

## 6. PROSIECTAU'R DYFODOL:

6.1 Dros y blynyddoedd diweddar, mae Aelodau wedi darparu cyfeiriad strategol i swyddogion o ran blaenoriaethau'r Awdurdod wrth wneud cais am arian grant. Mae Aelodau'n ymwybodol o'r amserlenni sy'n gysylltiedig â rhai ceisiadau am grant a dyma pam mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau'n flynyddol – Wedi'u rhestru fel penawdau thematig yn **Atodiad 1**.

6.2 Mae **Atodiad 2** yn amlinellu'r siart llif sy'n dangos sut mae'r Awdurdod yn ystyried/cymeradwyo cynigion grant. Yn dilyn cyngor Archwilio Cymru, mae Aelodau wedi cadarnhau bod angen cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer cynigion grant yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.
- Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cytûn.
- Unrhyw gynnig a gyfeirir at aelodau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr
- Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw terfyn ariannol y cytunwyd arno (£150,000).

Cynigion y dylid eu nodi yw:

- Rhandaliadau blynyddol mewn rhaglen aml-flwyddyn gymeradwy.
- Unrhyw brosiect yn ystod y flwyddyn islaw trothwy y cytunwyd arno.

## 7. ARGYMHELLION:

7.1 Nodi'r diweddariad ar y prosiectau arian cyfalaf.

7.2 Adolygu a chytuno blaenoriaethau ar gyfer cynigion grant (Atodiad 1)

7.3 Nodi'r Siart Llif Datblygu a Chymeradwyo Prosiectau (Atodiad 2).

**ATODIAD 1**

## BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNIGION CYFALAF A REFENIW:


Mae'r Aelodau'n ystyried blaenoriaethau ceisiadau grant yr Awdurdod yn flynyddol. Mewn blynyddoedd blaenorol, nodwyd y rhain fel prosiectau penodol. Yn unol â chais yr aelodau, mae'r rhain bellach o dan benawdau thematig strategol y gellir eu cysylltu â'n dogfennau strategol a statudol.

1. Adferiad Natur,
2. Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd,
3. Rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau pwysau pobl ar ein hamgylchedd a'n cymunedau,
5. Datblygu cyfleoedd hamdden newydd/gwell (cerdded/beicio/marchogaeth),
6. Datblygu cyfleoedd lles,
7. Cynigion datgarboneiddio – mewnol ac allanol i'r Awdurdod,
8. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'n defnyddwyr/cwsmeriaid,
9. Datblygu economi twristiaeth gynaliadwy,
10. Cefnogi pobl ifanc,
11. Rheolaeth a dealltwriaeth o'n Rhinweddau Arbennig.
12. Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau agored i niwed neu dan anfantais elwa o'r dirwedd.
13. Sicrhau bod Cymunedau'r Parciau Cenedlaethol yn ymwybodol o brosiectau'r Awdurdod ac yn elwa ohonynt.

Cytunwyd Mawrth 2026

**ATODIAD 2.**

## CYLLID ALLANOL : DATBLYGU A CHYMERADWYO RHAGLENNI / PROSIECTAU



**ATODIAD 3**

**CRYNODEB O'R PRIF BROSIECTAU A ARIENNIR GYDAG ARIAN GRANT ALLANOL, 2025-26-27**

| Prosiectau cyfredol di hariannu gydag Arian Grant | CORFF ARIANNU | GWERTH £ |
|---|---|---|
| **Carneddau** (Prosiect wedi'i gwblhau Rhagfyr 2025) | Cronfa Loteri Treftadaeth Cenedlaethol | **£4.1m** |
| **Coed Glaw Celtaidd** | LIFE Cyllid Ewrop | **£7.6m** |
| **Ffermio Bro** | Llywodraeth Cymru Blwyddyn 1<br>Blwyddyn 2<br>Blwyddyn 3 | **£1.9m**<br>**£3.2m**<br>**£3.2m** |
| **Rhaglen Gweithredu Cenedlaethol Mawndiroedd.** | LIC | **£1.2m** |
| **Grid Cenedlaethol** | GC | **£585k** |
| **Mannau Lleol ar gyfer Natur** | NHLF | **£148k** |
| **Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS)**<br>**Y Goeden lawn yn y lle iawn**<br>**Ffermio Adfywiol** | LIC | <br>**£999k**<br>**£780k** |
| **Y Pethau Pwysig** | Croeso Cymru | **£600k** |
| **Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy** | LIC | **£1.6m** |
| **Arian Cyfalaf Ychwanegol** | LLC | **£1m** |
| **Cronfa Tyfu Twristiaeth Beicio yng Nghymru** | Croeso Cymru | **£122k** |

| | |
|---|---|
| **CYFANSWM** | **£26,934,000** |

**Eitem Rhif 6**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 11 Tachwedd 2026 |
| **TEITL** | **Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | Adroddiad cynnydd Chwarter Cyntaf a'r Ail (Ebrill – Medi) 2026 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Ynghlwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y Chwarter Cyntaf a'r Ail o 2026 (Ebrill - Medi) i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Gwelliant yr Awdurdod.

1.2 Nodir y cynnydd drwy wyrdd, ambr a coch  Mae un symbol pellach sef coch a saeth  ar gyfer gwaith sydd wedi llithro o 2025 ac wedi ei gynnwys i'w gwblhau yn 2026.

1.3 Mae symbol hecsagon glas  yn nodi bod y gwaith/prosiect wedi ei groes gyfeirio ac yn berthnasol i dargedau wedi eu gosod ar gyfer APCEryri yn Llythyr Grant Strategol blynyddol Llywodraeth Cymru.

1.4 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynghlwm.

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Rhaglen Waith Gorfforaethol 2026-27: Adroddiad Cynnydd ar y Chwarter Cyntaf a'r Ail yn 2026.

# AMCANION LLESIANT 2026-27 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL

**Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant**

**Diweddariad Chwarter 1 a 2 : Ebrill – Medi 2026**

Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi ⬢

## 1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH

| | | |
|---|---|---|
| **Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:** | **AC 1** | **GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGYDDOL HAMDDEN** |

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.1** | ● | **Gweithredu Ymgyrch Cyfathrebu Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2026** | Parhaus | Pennaeth Cyfathrebu |
| | **Ch. 1+ 2** | **Rydym wedi comisiynu ymgyrch fechan er mwyn hyrwyddo cyfleoedd beicio ffordd, beicio antur a beicio hamddenol yng Ngwynedd ac Eryri.**<br>**Mae gwaith cyson wedi digwydd dros gyfnod brig y tymor ymwelwyr er mwyn atgyfnerchu negeseuon ein gilydd gyda chyfarfodydd rheolaidd rhwng adrannau APC Eryri ac adrannau cyfathrebu Cynghorau Gwynedd a Chonwy.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

● Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

● Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

● Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

⬢ Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.2** | **Ch. 1+ 2** | **Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol. Cynhyrchu adroddiad yn seiliedig ar ddata 2025.**<br>**Adroddiad wedi ei chynhyrchu a'i chyhoeddi ar Wefan yr Awdurdod.**<br>**Wedi ei gyflawni** | Parhaus. Adroddiad nesaf erbyn Mehefin/Gorff. 2026 | Pennaeth Partneriaethau |
| **AC 1.3** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl**<br>➢ **Cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y flwyddyn**<br>**Trefnir cyfarfodydd rheolaidd i flaenoriaethau gwaith a phrosiectau mynediad canolig a mawr ar draws y Parc Cenedlaethol rhwng Pennaeth y Gwasanaeth Wardeinio, Rheolwr Mynediad a Llesiant yr Uwch Wardeiniaid a Swyddog Prosiecau Mynediad. Bydd prosiectau gwaith llai yn cael eu harwain yn lleol gan y Wardeiniaid Ardal sydd wedi'u cynnwys yn eu Cynlluniau Hardal.** | Parhaus. Awdurdod Rhag. 2026 | Pennaeth Wardeinio a Mynediad (WaM) |
| **AC 1.4** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynhyrchu Strategaeth Llwybrau ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri**<br>**Adrodd i Weithgor Awdurdod i Fabwysiadu**<br>**Mae cryn dipyn o waith eisoes wedi'i wneud, ond mae angen gwaith pellach ar gyfer cynhyrchu Strategaeth terfynol drafft. Disgwylir i ddrafft o'r Strategaeth Llwybrau gael ei gyflwyno i'r Tim Arweinyddiaeth yn yr Hydref ac i Weithgor Aelodau ym mis Rhagfyr. Cynhelir cyfnod ymgynghori cyn cyflwyno'r ddogfen derfynol i'r Aelodau ei mabwysiadu ym mis Ebrill, 2027.** | Mai/Mehefin Rhag. 2026 | Pennaeth WaM |

Gwaith wedi'i drefnu ar gyfer 2025-26 ond wedi'i drosglwyddo ymlaen i 2026-27

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.5** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri**<br><br>**Mae'r gwaith yn cyd fynd ac am ei gynnwys yn rhan o'r Strategaeth yn 1.4 uchod** | Rhag. 2026 | Pennaeth WaM |
| **AC 1.6**<br>Adroddiad blynyddol | | **Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen a darparu adroddiad blynyddol i'r Tim Arweinyddiaeth** | Blynyddol | Pennaeth WaM |
| **AC 1.7** | **Ch. 1 – 4** | **Wardeiniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleoedd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol**<br><br>**Mae'r gwaith hyn yn barhaus ac yn cael ei flaenoriaethu yn rhaglenni gwaith y Wardeiniaid Ardal** | Parhaus | Pennaeth WaM |

Gwaith wedi'i drefnu ar gyfer 2025-26 ond wedi'i drosglwyddo ymlaen i 2026-27

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 1.8** | **Ch. 1 – 4** | **Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Wardeiniaid**<br><br>**Mae gan bob warden gynllun ardal sy'n cael ei archwilio'n rheolaidd gan yr Uwch Wardeiniaid. Anogir y wardeiniaid i gydweithio ag adrannau eraill ar brosiectau. Enghraifft o gydweithio yw'r gwaith ar brosiect natur "Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy" – sy'n cael ei ariannu gan grant Llywodraeth Cymru – gwaith ar y cyd â'r adran Gadwraeth, Coed ac Amaeth. Mae'r prosiect hyn yn parhau hyd at Mawrth 2027.** | Rhag. 2026 | Pennaeth WaM |
| **AC 1.9** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Adolygu, mabwysiadu a gweithredu Strategaeth Gyfathrebu'r Awdurdod fydd yn weithredol ar gyfer 2026-2030**<br><br>**Mae'r gwaith yma wedi llithro oherwydd yr adnoddau amser roedd ei angen ar gyfer trefniadau Miri Medi a Dathliad 75 yr Awdurdod. Bydd y gwaith yn cael ei gyflawni yn y chwarter nesaf.** | Mehefin 2026 | Pennaeth Cyfathrebu |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 2 | YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.1**<br>Adroddiad Blynyddol | | **Sicrhau bod newid yn yr hinsawdd yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri.**<br><br>**Roedd lliniaru newid yn yr hinsawdd wedi bod yn ystriaeth wrth baratoi llawer o'r CDLl cyfredol, gan gynnwys strategaethau aneddiadau, lliniaru llifogydd, a chynhyrchu ynni drwy adnewyddadwy. Mae'r polisi wedi esblygu'n sylweddol dros y blynyddoed diwethaf a bydd hyn yn codi nifer o faterion pwysig yn adolygiad presennol y Cynllun.** | Adroddiad blynyddol | Pen. Polisi Cynllunio (Pen. PC) |
| **AC 2.2** | **Ch. 1 + 2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Creu Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ar y cyd gyda Partneriaid a Chymunedau Eryri**<br><br>**Cynhaliwyd gweithdy ym mis Tachwedd 2025 gydag arbenigwyr, partneriaid a chymunedau ar draws y rhanbarth i fwydo fewn i Asesiad Risg newydd ar gyfer Rhinweddau Arbennig Eryri. Cafodd y gwaith ei harwain a hwyluso ar y cyd gyda Prifysgol Bangor. Roedd y gwaith yma yn torri coes newydd i'r Awdurdod ac wedi arwain i sawl Partner dilyn yr un strwythur. Mae'r Swyddog Carbon wedi rhannu'r arfer da gydag Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae canlyniadau'r Asesiad Risg yma i weld yn y drafft o Gynllun Eryri newydd a fydd yn bwydo fewn i Gynllun Addasu ar gyfer Eryri yn ei dro.**<br><br>**Yn ogystal â hyn mae Prosiect Gwyddoniaeth Dinasyddion wedi'i chwblhau ym mis Gorffennaf i gofnodi atgofion a phrofiadau o dywydd eithafol ar diroedd Eryri. Yn gweithio ar y cyd gyda Ymgynghoriaeth Lafan cafodd sawl tirfeddiannwr a ffarmwr ar draws Eryri platfform i gofnodi sut yn eu profiad nhw, mae tywydd wedi newid. Mae'r dystiolaeth yma yn sail gref ar gyfer y Cynllun Addasu a Chynllun Eryri.** | Mawrth 2027 | Swyddog Carbon |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.3**  |  **Ch. 1 + 2** Ch. 3 Ch. 4 | **Datblygu Cynllun Addasu Newid yn yr Hinsawdd ar gyfer Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ar y cyd ag adolygu Cynllun Eryri** **Mae'r sylfaen o'r gwaith yma wedi cael ei ddatblygu wrth ddrafftio'r Cynllun Eryri newydd. Bydd y gwaith yn dechrau ar ôl mabwysiadu Cynllun Rheoli newydd yn ffurfiol. Yn y cyf amser mae Cynllun Gweithredu ar gyfer Newid yn yr Hinsawdd wedi ei gwblhau fel rhan o'r gwaith ar y cyd gyda Pharciau Cenedlaethol y DU.** | Mawrth 2027 | Swyddog Carbon |
| **AC 2.4**  |  **Ch. 1 + 2** | **Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd ymochrol gyda Ffyniant i Bawb Cymru – Targedau Ystâd Gyhoeddus Carbon Isel**<br>➢ Cynnal adolygiad o'r Portffolio Asedau gyda'r Is-Grŵp Asedau gydag argymhellion i'w hystyried gan yr Awdurdod llawn ac unrhyw asedau dros ben i'w hystyried ar gyfer eu gwaredu/trosglwyddo perchnogaeth<br>**Cynhaliwyd adolygiad o'r Portffolio Asedau a cyflwynwyd Polisi, Strategaeth a Chynllun Rheoli Asedau i gyfarfod mis Mehefin o'r Awdurdod. Bydd yr Is-grŵp Asedau yn adolygu'r Cynllun Rheoli Asedau yn flynyddol, gydag adolygiad canol tymor llawn yn 2028 ac adolygiad cynhwysfawr i lywio'r cynllun olynydd yn 2030. Bydd cyfleoedd gwaredu, prydlesu neu ail-bwrpasu yn cael eu dilyn fel mae cyfleoedd yn codi fel amlinellwyd yn y Polisi Gwaredu/Prynu Eiddo APCE – a fabwysiadwyd fel rhan o'r Strategaeth.**<br>**Wedi ei gyflawni. Bydd y gwaith yn cael ei adolygu'n barhaus gydol y Cynllun** | Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau newydd o Medi 2026+ ymlaen | Pen. Eiddo |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.5**  |  **Ch. 1 + 2** Ch. 3 Ch. 4 | **Adolygu'r Strategaeth Garbon ac ail gyflwyno i'r Aelodau yn diweddaru ar unrhyw gynnydd/newid.** **Mae Strategaeth Garbon yr Awdurdod wedi cael ei chynhyrchu ac mae Is-Grŵp swyddogion wedi'i sefydlu ac wedi cwrdd am y tro cyntaf mis Mawrth er mwyn rhoi arweiniad i raglen gwaith y swyddog carbon. Mae rhestr o gamau gweithredu mewn lle yn cynnwys olrhain y defnydd o fflyd lwyd a threialu ffurflenni callyriadau cadwyn gyflewni Llywodraeth Cymru.** | Medi 2026 | Swyddog Carbon (Yn adrodd i Cyf. GC |
| **AC 2.6**  |  **Ch. 1 + 2** Ch. 3 Ch. 4 | **Datblygu Cynllun Gweithredu Carbon Isel i Eryri fod yn garbon niwtral erbyn 2030 yn seiledig ar argymhellion adroddiad yr Astudiaeth Garbon, gan sicrhau bod hwn yn cynnwys ymrwymiad i:**<br>➢ Amcanion carbon isel yn y CDLl a Chynllun Eryri<br>➢ Gweithredu'r Strategaeth Coed a Choetiroedd<br>➢ Diweddaru Strategaeth Mawndiroedd<br>**Mae'r gwaith hyn yn cael ei ddatblygu fel rhan o adolygiad Cynllun Eryri ac yn waith parhaus y swyddog. Drwy chyd weithio â myfyriwr PhD Prifysgol Bangor, mae ymchwil academaidd wedi ei gynnwys yn yr Asesiad Risg. Bydd y swyddog yn parhau i roi mewnbwn a hwyluso sgyrsiau ar y cyd gyda adrannau newid hinsawdd y CDLl a Chynllun Eryri.** | Parhaus | Swyddog Carbon Cyf. Cynllunio a Phartneriaethau (CaP). Pen.Cadwraeth, Coed ac Amaeth (Pen. CCA) |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 2.7**<br>Adroddiad Blynyddol | | **Sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion y "Ras i Sero", drwy fabwysiadu rôl arweinyddiaeth ac eiriolaeth gref yn y frwydr yn erbyn newid hinsawdd – gan gynnwys ymrwymo i'r 5 prif addewid sydd yn y "Ras i Sero". Gweithio gyda PcyDU/PyPC ar negeseuon strategol newid hinsawdd.**<br>**Gwaith parhaus – mae'r Swyddog Carbon yn fwydo fewn i bob cyfarfod ar y cyd gyda Pharciau Cenedlaethol y DU a Thirweddau Cymru. Mae'r swyddog yn paratoi a darparu data yn gyson ar gyfer yr egwyddorion o Ras i Sero ac wedi'i chynnwys yn y drafft o'r Cynllun Rheoli (Cynllun Eryri) newydd 2026/7-31/2.** | Parhaus<br>Adrodd i Weithgor yn y ystod 2026 | Swyddog Carbon |
| **AC 2.8** | **Ch. 1 - 4** | **Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirwedau Dynodedig Cymru.**<br>**Mae'r swydd bellach yn cael ei rheoli gan ac wedi ei lleoli ym MhC Arfordir Penfro ac yn gweithredu ar draws yr 8 tirwedd.** | Parhaus | Prif Weithredwr (PW) |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 3 | GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| AC 3.1 ⬢ | Ch. 1 + 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE**<br>**Bydd y gwaith yn parhau gydol adolygiad Cynllun Eryri.**<br>**Cyflwynwyd Strategaeth drafft i'r Tim Arweinyddiaeth Medi 2026 a bydd yn cael ei gyflwyno i Weithgor Aelodau maes o law.** | Mawrth 2027 | Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol (TDd) |
| AC 3.2 ⬢ | Ch. 1 + 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru**<br>**Mae swyddogion yn mynychu ac yn cyfrannu at strwythur reoli Llechi Cymru drwy gydweithio gyda phartneriaid i ddiweddaru cynlluniau rheoli safleoedd.** | Parhaus | Cyf. Rheoli Tir |
| AC 3.3 ⬢ | Ch. 1+ 2 | **Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (HEG) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, llesiant a Threftadaeth Leol**<br>**Mae swyddogion perthnasol yn cyfrannu'n rheolaidd ac mae'r gwaith hwn yn parhau'n llwyddiannus.** | Parhaus | Pennaeth TDd |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

⬢ Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 3.4**<br>Adroddiad blynyddol | | **Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol a cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Aelodau** | Rhag. 2026 | Pennaeth TDd |
| **AC 3.5** | **Ch. 1 +2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Yn dilyn cwblhau Gwerthusiadau Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli cyflwyno rhaglen barhaus o hyfforddiant sgiliau traddodiadol a fydd hefyd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd**<br><br>**Cwblhawyd gwerthusiad o'r gwaith sgiliau traddodiadol ac mae rhaglen wedi ei chadarnhau ar gyfer 2026 gan weithio gyda chontractwyr lleol ac yn benodol mewn gwaith calch a ffensio pileri llechi. Mae'r galw yn parhau'n uchel. Gan weithio mewn cydweithrediad â Grŵp Llandrillo Menai, mae dau prentis wedi dechrau cyrsiau sgiliau traddodiadol.** | Parhaus | Pennaeth TDd |
| **AC 3.6** | **Ch. 1 +2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cwblhau prosiect Dadgarboneiddio Dolgellau Hanesyddol, i wella effeithiolrwydd adeiladau rhestredig masnachol yn Ardal Gadwraeth Dolgellau.**<br><br>**Mae adeiladau a grantiau wed'i cadarnhau a'r prosiectau yn symud ymlaen. Mae caniatad Adeilad Rhestredig wedi'i dderbyn ar gyfer y prosiectau ac mae contractrwyr wedi'u penodi i gwblhau'r gwaith. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar 15 eiddo yn Ardal Gadwraeth Dolgellau ac ar hyn o bryd, mae popeth yn rhedeg yn brydlon ar gyfer cwblhau erbyn Mawrth 2027.** | Mawrth 2027 | Pennaeth TDd |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 4 | MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD RHEOLI TIR YN SGIL HER HINSODDOL A CHOLLEDION NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 4.1** | | **Cynorthwyo datblygu a chynhyrchu egwyddorion rheoli tir er budd natur, ar y cyd â phartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a Tirweddau Cymru, a bod rhain yn cael eu hadlewyrchu yng Nghynllun Eryri.** | Adroddiad blynyddol i'r Awdurdod Mawrth 2027 | Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA) |
| Adroddiad blynyddol | | | | |
| **AC 4.2** | | **Yn dilyn ymgynghoriad LIC, cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus effaith cynigion Cynllun Ffermio Cynaliadwy Cymru ar rinweddau arbennig Eryri**<br>➢ **Cyflwyno adroddiad blynyddol ar NRAP Eryri i'r Awdurdod** | Adroddiad Blynyddol Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |
| Adroddiad blynyddol | | | | |
| **AC 4.3** | | **Darparu Adroddiad Blynyddol ar waith amaeth-amgylcheddol i gynnwys Ffermio Bro a'r Cynllun Adnoddau Naturiol Integredig (INRS) Ffermio Adfywiol.** | Adroddiad Blynyddol Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |
| Adroddiad blynyddol | | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | AC 5 | MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **AC 5.1**<br>**Diweddariad Ch. 1 + 2**<br>Adroddiad blynyddol | | **Cyflawni cynllun gweithredu Cynllun Adfer Natur**<br>➢ **Cynhyrchu Adroddiad Blynyddol**<br>**Cyflwynwyd a mabwysiadwyd drafft terfynol Cynllun Gweithredu Adfer Natur Eryri (NRAP) ar gyfer 2026-2031 gan yr Aelodau ym mis Ebrill. Mae'r NRAP yn cynnwys trosolwg o fioamrywiaeth a chynefinoedd Eryri, pwysau allweddol sy'n effeithio ar y bioamrywiaeth a chynllun gweithredu cyffredinol gan gynnwys ffyrdd y gall grwpiau, sefydliadau, cymunedau ac unigolion helpu i adfer natur. Bwriedir yr NRAP fod yn ddogfen deinamig er sicrhau y gellir gweithredu newidiadau yn ôl yr angen.** | Adroddiad blynyddol Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |
| **AC 5.2**<br>Adroddiad blynyddol | | **Sicrhau gwelliannau i bioamrywiaeth Eryri trwy'r broses Rheoli Datblygu**<br>**Parhau i aros ym ganllaiwau gan LIC. Er hynny mae swyddogion yn sicrhau hynny trwy ofyn am ddatganiadau seilwaith gwyrdd gyda phob cais ac yn gosod amodau cynllunio lle'n briodol i sicrhau gwelliannau i fioamrywiaeth.** | Adroddiad Blynyddol Mawrth 2027 | Pennaeth RhDaCh |
| **AC 5.3**<br>**Ch.1 + 2**<br>Ch. 3 | | **Unwaith bydd canllawiau LIC wedi'u cyhoeddi, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu**<br>**Parhau i ddisgwyl am ganllawiau pellach gan Llywodraeth Cymru.** | Mawrth 2027 | Pennaeth Polisi Cynllunio |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ch. 4 | | | |
| **Rhif** | **Statws a Cynnydd Chwarter** | **Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)** | **Amserlen** | **Swyddog(ion) cyfrifol** |
| **AC 5.4** | **Ch. 1 +2**<br>Ch. 3.<br>Ch. 4. | **Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau a datblygu rhaglenni pellach**<br>**Cyflwynwyd adroddiad diweddaru i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau mis Mawrth yn nodi'r holl brosiectau ymlaen gan yr Awdurdod, yr holl geisiadau am arian grant sy'n aros am ganlyniadau a phrosiectau newydd sydd ar fin dechrau. Bydd adroddiad pellach yn mynd gerbron y Pwyllgor ym mis Tachwedd, 2026.** | Adroddiad diweddaru dwywaith y flwyddyn | Cyf. Rheoli Tir Rheolwyr Prosiectau |
| **AC 5.5** | | **Parhau â arolygon ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS)** | Mawrth 2027 | Pennaeth CCA |
| Adroddiad blynyddol | | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

## CANLYNIADAU:

**AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**AC1:** Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1)***

**AC1:** Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2)***

**AC1, 2:** Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4)***

**AC1:** Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5)***

**AC1:** Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3)***

**AC2, 4:** Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1)***

**AC2, 4:** Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2)***

**AC3, 4, 5:** Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1)***

**AC5:** Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2)***

**AC2, 4, 5:** Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol **(yn unol â Chynllun Eryri A4.2)**

**AC3:** Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. **(yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3).**

# 2. CYMUNEDAU CYDNERTH

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 1 | CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 1.1 | | **Datblygu adnodd digidol sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol** | Parhaus | Pennaeth Cyfathrebu i arwain |
| | **Ch. 1 +2**<br><br>Ch 3<br>Ch. 4 | **Mae'r gwaith yn parhau gyda ffocws ar wefan yr Awdurdod a'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo llwybrau hygyrch.** | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.2**  |  | **Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid:**<br>➢ parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol<br>➢ Datblygu'r Strategaeth Gwirfoddol i gynnwys strategaeth Llesiant ar gyfer trigolion ac ymwelwyr i Eryri | Parhaus<br><br>Mawrth 2027 | Swyddog Gwirfoddoli a Lles i arwain Pennaeth Partneriaethau |
| | **Ch. 1 +2** | **Yn ystod cyfnod Ebrill i Medi mae cyfanswm o 6052 oriau gwirfoddoli wedi'i gyfrannau tuag at waith yr Awdurdod:**<br>➢ **<u>Wardeiniaid Gwirfoddol:</u> (1) Yr Wyddfa: 4672 oriau gan 45 unigolyn (2) Cwm Idwal: 168 oriau gan 14 unigolyn a (3) Wardeiniaid y De: 156 oriau gan 4 unigolyn**<br>➢ **<u>Caru Eryri:</u> 972 oriau gan 79 unigolyn**<br>➢ **<u>Sesiynau Garddio a chynnal a chadw yn Yr Ysgwrn:</u> 84 awr gan 10 unigolyn**<br><br>**Yn ystod Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Gorffennaf 2026, cymeradwyodd yr Aelodau Adroddiad Blynyddol gwirfoddoli a llesiant ar gyfer 2025. Mae'r ddogfen yn rhoi trosolwg o weithgarwch gwirfoddoli a llesiant a ddarparwyd gan yr Awdurdod ac yn tynnu sylw i gyfraniad gwirfoddolwr yn Eryri i gadwraeth, rheoli ymwelwyr ac ymgysylltu ar draws y Strategaeth Datblygu Gwirfoddolwyr (2021-26). Bydd canlyniadau'r flwyddyn gyflawn olaf hyn yn llywio adolygiad o'r Strategaeth sydd i ddod.** | | |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.3** | **Ch. 1+2**<br><br>Ch. 3.<br>Ch. 4. | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig**<br><br>**Fel rhan o waith paratoadol adolygu Cynllun Eryri, trefnwyd a cynhalwyd simposiwm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn gynnar yn 2026. Bydd yr adborth yn cynorthwyo swyddogion i adnabod a diffinio'n well y grwpiau targed er mwyn creu polisiau newydd yn y fersiwn 2026 o Gynllun Eryri.**<br>**Mae drafft Cynllun Eryri yn cynnwys y blaenoriaethau at y 5 mlynedd nesaf ar y gwaith yma sydd angen ddigwydd ar y cyd gyda Phartneriaid ar draws Eryri. Bydd mabwysiadu'r Cynllun yn ffurfioli strwythurau a chapasiti staff i allu symud y gwaith yma yn ei flaen.** | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles i arwain |
| **CC 1.4** | | **Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLl** | Adroddiad blynyddol | Pen. RhDaCh<br>Pen PC |
| Adroddiad blynyddol | | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 1.5**  |  | **Yn dilyn penderfyniad gan yr Awdurdod i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau yn Ardal Parc Cenedlaethol Eryri a ddaeth yn weithredol ar y 1af o Fehefin 2025:**<br>➢ Paratoi fframwaith monitro i adrodd ar effaith cyflwyno Erthygl 4 yn Eryri | Hydref 2026 | Pennaeth PC |
| | **Ch. 1+2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Mae adroddiad Monitro i adrodd ar effaith cyflwyno Erthygl 4 yn Eryri wrthi yn cael ei ddraftio.** | | |
| **CC 1.6**  |  | **Gyda arian grant cynllun Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy LIC ar gyfer 2025-27, parhau i ddarparu arian a mesurau i gefnogi cymunedau ac economiau lleol drwy Cronfa Cymunedau Eryri (CCE) gan ffocysu ar ddatcarboneiddio. Hyrwyddo'r ail ffenestr ariannu ar gyfer 2026-27** | Mawrth 2027 | Swyddog Ymgysylltu Cymunedol i arwain |
| | **Ch. 1+2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Agorwyd ffenestr ceisiadau ar gyfer 2026-27 ym mis Mawrth gydag arian grant LIC gwerth bron i £100k. Mae Panel CCE wedi cwrdd a chytuno i gefnogi 11 prosiect i'w datblygu yn ystod 2026-27 gyda'r ffocws ar gefnogi cymunedau i fod yn ffyniannus a gwydn. Mae Swyddog Ymgysylltu Cymunedol yn cefnogi'r cymunedau'n barhau gydol y prosiectau.** | | |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC 2 | CEFNOGI POBL IFANC |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 2.1 | Ch. 1+2<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Gweithredu Maniffesto leuenctid**<br><br>**Mae Swyddog Pobol Ifanc wedi ei recriwtio a phenodi ym mis Mai 2026 sydd yn dechrau'r gwaith o gyflawni'r Maniffesto Pobol Ifanc.**<br>**Mae'r Swyddog wedi arwain ar waith arloesol yn barod drwy weithio gyda sawl Partner i gynnig sesiynau a darganfod gyda pobol ifanc iddynt gael cyfleoedd trafod a rhoi gwybod sut maen nhw am fwydo i mewn waith yr Awdurdod. Mae hyn yn cynnwys trefnu COPA2 uwch gynhadledd ar gyfer pobol ifanc ar draws Eryri gyda'r ffocws ar Goedwigoedd Glaw ac Awyr Dywyll – sydd yn digwydd yn Rhagfyr 2026.**<br>**Mae'r Swyddog wedi bod yn rhan datblygu a drafftio Cynllun Eryri newydd i adnabod blaenoriaethau ar gyfer y gwaith yma am y 5 mlynedd nesaf.** | Parhaus Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 2.2** | **Ch. 1+2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Datblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc er mwyn sicrhau gwaith partneriaeth effeithlon, darparu cyfleoedd eang a dod o hyd i gyllid i gynnal y cynllun**<br><br>**Ers dechrau yn y swydd ym mis Mai 2026 – mae'r Swyddog Pobol Ifanc wedi ail afael yn y rhaglen Ceidwad Ifanc ac wedi llwyddo i gynnal 5 sesiwn amrywiol ar y cyd gyda phartneriaid a swyddogion y Parc. Mae'r rhaglen yn mynd o nerth i nerth gyda sawl sesiwn pellach wedi'i threfnu am weddill y flwyddyn.**<br><br>**Mae'r Swyddog Pobol Ifanc yn gweithio gyda Pharciau Cenedlaethol y DU i ddatblygu ceisiadau ar gyfer y Gronfa Loteri a chronfa Cymunedau y DU ~ UK Communities Fund i geisio ehangu ac esblygu'r cynllun Ceidwad Ifanc yn ogystal â chreu fwy o capasiti ac adnoddau o fewn yr Awdurdod i estyn allan i bobol ifanc ar draws Eryri.** | Parhaus Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau<br>Pennaeth WaM |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC3 | HYRWYDDO TWRISTIAETH GYNALIADWY I YCHWANEGU GWERTH I GYMUNEDAU LLEOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 3.1 | Ch. 1+2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a CBS Conwy i ddatblygu a gweithredu cynllun strategol Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri. Parhau ar y gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu a thargedau a dangosyddion cysylltiedig.**<br>**Mae'r Cynllun gweithredu yn ei drydydd flwyddyn – mae targedau a dangosyddion yn cael ei datblygu ar y cyd drwy'r Partneriaeth Economi Ymweld Gwynedd, Eryri a Chonwy i hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy syn cefnogi cymunedau, diwylliant a'r amgylchedd wrth hyrwyddo tŵf economaidd.** | Parhaus | Pennaeth Partneriaethau |
| CC 3.2 | Ch. 1+2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Gweithredu ar Cynllun yr Wyddfa mewn Partneriaeth â'r mudiadau a chyrff sydd yn cael ei cynrychioli ar y Bartneriaeth**<br>**Mae'r gwaith yma yn barhaus ar ôl i'r Cynllun newydd gael ei fabwysiadu a lansio ym mis Gorffennaf 2025. Gan fod y prif swyddog ar gyfnod mamolaeth bydd swyddogion eraill yn arwain ar y gwaith yma tan 2027. Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i weithgor aelodau maes o law.** | Mawrth 2027 | Rheolwr Prosiect Pen. Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.3** | **Ch. 1+2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Peilota Platfform Twristiaeth Gynaliadwy drwy cyd-gynhyrchu Ap gyda cymunedau a busnesau'r Parc Cenedlathol o dan buddsodiad arian grant Llc, Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy.**<br><br>**Mae'r prosiect yma yn dilyn amserlen dynn ac uchelgeisiol. Ar hyn o bryd mae o fewn yr amserlen i gael ei beilota mewn dwy ardal o'r Parc Cenedlaethol. Mae tendr ar gyfer y gwaith hyrwyddo a marchnata yn mynd ar safle Gwerthwch i Gymru ym mis Hydref. Mae swyddogion arweiniol ar y prosiect wedi cael ei gwadd i Copenhagen gyda cohort o swyddogion rhyngwladol i ddysgu mwy am sut mae'r Ap yn gweithio mewn gwelydd a sefyllfaoedd arall.**<br>**Eryri yw'r unig aelod o'r grŵp yma sydd yn ceisio datblygu'r Ap mewn ardal wledig - sydd yn achosi diddordeb mawr ymysg partneriaid arall.** | Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 3.4** | Ch. 1+2<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i ddatblygu cynllun Llysgenhadon Eryri.**<br><br>**Gwaith parhaus – mae'r Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol, gyda modiwlau newydd ar gael a modiwl ail gymhwyso yn cael ei ysgrifennu pob blwyddyn. Mae'r Cynllun yn parhau i ddenu Llysgenhadon newydd gyda 1467 wedi cymhwyso erbyn ddiwedd Medi, 2026.**<br><br>**Mae Modiwlau ar y cyd wedi'i cynhyrchu gyda Cyngor Gwynedd ar ran Mentra'n Gall a Twristiaeth Gynaliadwy a modiwlau newydd ar Gynllun y Carneddau a Phrosiect LIFE Coed Glaw Celtaidd ar gael yn 2026. Mae'r rhaglen yn mynd o nerth i nerth.** | Parhaus | Pennaeth Partneriaethau |
| **CC 3.5** | | **Sicrhau bod y CDLl presennol yn rhoi ei bolisïau ar waith yn gadarnhaol i gyfrannu at dwristiaeth gynaliadwy, sy'n ychwanegu gwerth at gymunedau lleol. Yn ogystal, sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy gyda budd gymunedol yn cael ystyriaeth lawn wrth fynd ati i ddiwygio CDLl Eryri** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh<br>Pennaeth PC |
| Adroddiad blynyddol | | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC4 | HYRWYDDO A CHEFNOGI'R GYMRAEG YN WEITHREDOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.1 | Ch. 1+2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Parhau i ddatblygu Yr Ysgwrn fel canolfan ddiwylliannol sy'n hyrwyddo diwylliant Cymraeg a mynd ati i ddarparu cyfleoedd i gymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg**<br>➢ **Cyflwyno cais adnewyddu statws achrediad Yr Ysgwrn i LC**<br>➢ **Creu arddangosfa dros dro newydd, Cadeiriau Eugene Van Fleteren**<br>**Cyflwynwyd cais achrediad amgueddfa'r Ysgwrn Chwefror 2026.**<br>**Bydd arddangosfa o gadeiriau Eugene Van Fleteren ymlaen drwy'r haf hyd at yr Hydref.** | Parhaus<br>Haf 2026<br>Haf 2026 | Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol |
| CC 4.2 | Ch. 1+2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Diogelu a hyrwyddo'r defnydd o enwau lleoedd Cymraeg drwy brosiectau cofnodi, safoni a dehongli enwau lleoedd Eryri a defnydd amodau Cynllunio**<br>**Agorwyd arddangosfa carthnni enwau tirweddol Eryri yn Oriel Plas Glyn y Weddw mis Ionawr. Mae gwaith yn parhau gyda CBS Conwy a Tirweddau Cymru i gwblhau adnodd addysg ar enwau tirweddol Eryri. Bydd gwaith mapio a chasglu gyda cymunedau yn dychwelyd yn ystod y Gaeaf.** | Parhaus | Pen. Treftadaeth Diwylliannol |
| CC 4.3 | Ch. 1- 4 | **Darparu cyfleoedd ac ennyn diddordeb pobl yn yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth gan gynnwys:** Darparu cyfleoedd i wirfoddolwyr ddysgu a defnyddio'r Gymraeg drwy'r strategaeth wirfoddoli.<br>**Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai syn rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwyr ar gael yn y ddwy iaith.** | Parhaus | Swyddog Gwirfoddoli a Lles |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CC 4.4  |  Ch. 1+2 | **Parhau i hysbysu a hyrwyddo pwysigrwydd a gwerth sgiliau iaith Gymraeg wrth alluogi'r Awdurdod, trwy ei staff, i wasanaethu cymuned Eryri.**<br>➢ Fel partner yn Is-grŵp Iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Gwynedd a Môn, cyfrannu, defnyddio a hyrwyddo allbynnau'r Proseict Chwalu Mythau.<br>➢ Arwyddo fyny i TWF – Siarter y Gymraeg yn y Gwaith.<br>**<u>Prosiect Chwalu'r Mythau</u>: Fel aelod gweithredol o is-grŵp yr Iaith Gymraeg Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Rhanbarth y Gogledd, dechreuon ni weithio ar brosiect Chwalu Mythau eleni. Casglodd y prosiect y mythau a'r rhagdybiaethau sy'n bodoli ynglŷn â gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, boed mewn sefydliadau cyhoeddus neu yn y gymuned ehangach. Yn dilyn casglu profiadau pobl o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, crëwyd adnoddau creadigol a hygyrch sy'n dangos profiadau gwirioneddol pobl sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg yn eu gwaith o ddydd i ddydd. Lansiwyd y prosiect yn swyddogol yn Eisteddfod yr Urdd yn Ynys Môn ar ddydd Llun, 25ain o Fai 2026. Mae'r Awdurdod bellach yn defnyddio'r deunyddiau hyrwyddo ochr yn ochr â'n hymgyrchoedd recriwtio.**<br><br>**<u>Arwyddo Siarter Twf:</u> Ym mis Gorffennaf trefnwyd achlysur arbennig ar gopa'r Wyddfa a ger Craig yr Undeb ym Mhenllyn ger Brynrefail i lofnodi'r "Siarter Twf". PC Eryri yw'r PC cyntaf yng Nghymru i'w fabwysiadu. Drwy lofnodi'r siarter, mae'r Awdurdod yn ailddatgan ei ymrwymiad i hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle a sicrhau bod staff yn cael eu cefnogi i ddefnyddio, datblygu a magu hyder yn eu sgiliau Cymraeg.**<br>**Datblygwyd y Siarter gan TUC Cymru fel fframwaith galluogi helpu gweithwyr, eu hundebau llafur a chyflogwyr i gydweithio i greu gweithleoedd dwyieithog cynhwysol a chynyddu'r defnydd o'r Gymraef yn y gwaith. Mae'r siarter yn seiliedig ar bedair egwyddog graidd: Twf a hawliau'r Gymraeg. Cynhwysiant a chyfiawnder ieithyddol. Arweinyddiaeth ac atebolrwydd a Dysgu parhaus a meithrin hyder.**<br>**Wedi'u cyflawni ac yn weithredol ym mhrosesau'r Awdurdod** | Mawrth 2027 | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer<br><br>Pennaeth Adnoddau Dynol |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 4.5**<br>Adroddiad blynyddol | | **Sicrhau bod Polisi Datblygu 18: yr laith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn y broses rheoli datblygu**<br><br>**Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi uchod yn cael ei weithredu'n effeithiol.** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh |

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CC5 | DATBLYGU ECONOMI LEOL SY'N CEFNOGI DYNODIAD A RHEOLAETH ERYRI FEL PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.1**<br>**Adroddiad Blynyddol** | | **Sicrhau gweithrediad cadarnhaol polisïau cyfredol y CDLl i ddatblygu economi leol sy'n cefnogi dynodiad y PC**<br><br>**Daeth Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLl a gyflwynir i Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref i'r casgliad bod y polisiau uchod yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Bydd y broses o baratoi CDLl Eryri 3 yn rhoi cyfle i adolygu'r wybodaeth a'r dystiolaeth bresennol i ganfod a oes angen newid unrhyw bolisi neu ddulliau a fabwysiadwyd ar hyn o bryd.** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth RhDaCh |
| **CC 5.2**<br>Adroddiad Blynyddol | | **Cyflwyno adroddiad monitro blynyddol i'r aelodau i'w drafod ac ystyried yr amserlen ar gyfer dechrau adolygiad o'r CDLl cyfredol** | Adroddiad blynyddol | Pennaeth PC |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CC 5.3** | **Ch. 1- 2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Hyrwyddo cyfleoedd i ddeall a mwynhau rhinweddau arbennig Eryri yn gynaliadwy**<br><br>**Mae'r adran gyfathrebu wedi manylu ar gynyddu cynnwys amrywiol a chomisiynu cwmnïau ffilmio allanol i ychwanegu gwerth ein negeseuon er mwyn hyrwyddo holl rinweddau arbennig Eryri. Mae drafft o'r Strategaeth Ddigidol wedi'i gynhyrchu bydd yn arwain ar y gwaith yma.** | Parhaus | Pennaeth Cyfathrebu |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

## CANLYNIADAU:

**CYMUNEDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella lles pobl ***(yn unol â Chynllun Eryri B1.2)***

**CC1, 3, 5:** Rydym wedi creu cynllun ac yn canolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), hyrwyddo llwybrau a chysylltiadau a dolenni rhwng trefi a phentrefi. ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B2.1)***

**CC1, 2, 3, 5:** Rydym wedi annog ymwelwyr i ddod ar wahanol adegau o'r flwyddyn ac i wahanol ardaloedd er mwyn lleddfu pwysau yn ystod y tymor brig a helpu busnesau gyda materion tymhorol ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.2)***

**CC1,3,5:** Rydym wedi archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B4.2)***

**CC2, 3, 4:** Rydym wedi creu cyfleoedd i bobl ifanc fod yn llysgenhadon dros iaith a diwylliant yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC4, 5:** Rydym yn arwain trwy esiampl wrth sicrhau bod yr iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru yn cael ei hyrwyddo a'u defnyddio mewn digwyddiadau, gweithgareddau a gwybodaeth ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1***)

**CC 4:** Rydym wedi gweithredu mesurau yn y Cynllun Datblygu Lleol a Chanllawiau Cynllunio Atodol cysylltiedig sy'n annog datblygiadau newydd i gynnal neu wella datblygiad y Gymraeg ***(yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.1)***

**CC4:** Rydym wedi darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.2***)

**CC4:** Mi fyddwn wedi amddiffyn enwau lleoedd Cymreig (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C1.3***)

**CC1, 2, 4:** Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i fynd i'r afael â materion sylfaenol a datblygu atebion arloesol i ddarparu tai fforddiadwy sy'n diwallu anghenion lleol (***yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri C3.1***)

# 3. FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 1 | DATBLYGU GWEITHLU MEDRUS |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.1** | | **Ymgysylltu â'n staff ar bob lefel i gynorthwyo rheoli perfformiad: Anelu bydd holl aelodau staff yr Awdurdod yn cael eu gwerthuso o fewn 12 mis:**<br>➢ Edrych ar greu proses haws i'w ddefnyddio, i gynnwys asesiadau cynydd yn chwarterol yn hytrach na blynyddol drwy drefn fwy rhyngweithiol electroneg | Parhaus Mawrth 2027 | Pennaeth Adnoddau Dynol (AD) |
| Parhaus | **Ch. 1+2** | ➢ **Mae gwaith yn cael ei gwblhau i symud y broses asesiad perfformiad blynyddol i system adolygiadau chwarterol gyda dangosyddion statws RAG (coch, ambr gwyrdd). Gyda'r adolygiad olaf yn gweithredu fel yr asesiad ffurfiol gan roi mwy o bwyslais ar ddatblygiad gyrfa, lles a chyfleoedd hyfforddi.**<br>➢ **Mae pob aelod staff yn cael mynediad at fodiwliau e-ddysgu dwyieithog.**<br>➢ **Mae offeryn adborth 360 ar gael i annog hunanymwybyddiaeth a gwelliant parhaus, gan sicrhau adborth adeiladol.** | | |
| | Ch.3<br>Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.2** | <br>**Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Anelu cynnal asesiadau anghenion hyfforddi yr holl staff o fewn 12 mis:**<br>➢ Swyddog Iechyd a Diogelwch i weithio gyda phob Pennaeth i greu asesiad gofynion hyffordiant i bob swydd o fewn ei gwasanaeth<br>**Mae Swyddog IaD wedi cwblhau asesiadau gofynion hyfforddiant gyda'r Uwch Wadeiniaid, bydd yn asesu gweddill y Penaethiaid Gwasanaeth dros y chwarteri nesaf.** | Parhaus Mawrth 2027 | Swyddog IaD |
| **CW 1.3** | <br>**Ch. 1 - 4** | **Cefnogi staff i fynychu grwpiau cymheiriaid y Parc Cenedlaethol i'w hysbysu am ddatblygiadau i bob swydd o fewn ei gwasanaeth**<br>➢ **Mae aelodau staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i fynychu grwpiau cymheiriaid. Mae llawer mwy o gyrsiau wedi ei hychwanegu i ELMS, ein system hyfforddi ar-lein sy'n darparu nifer o gyrsiau hyfforddi dwyieithog i gynorthwyo staff a'u hysbrydoli i symud ymlaen a dysgu disgyblaethau newydd.**<br>➢ **Grwp Cydweithio: Mae'r Awdurdod yn parhau i hyrwyddo diwylliant o gydweithio drwy'r grwp Fforwm Lles a Ymgysylltiad Staff sy'n gyrru mentrau lles ac yn rhannu gwybodaeth am ddatblygiadau polisi.**<br>➢ **Adborth 360° – 'Myfyrio i Dyfu': Mae'r dull hwn yn annog trafodaeth agored a rhannu profiadau rhwng cymheiriaid, gan gryfhau cysylltiadau a dealltwriaeth o werthoedd craidd yr Awdurdod.**<br>➢ **Mentrau Lles a Chyfathrebu: Offer digidol fel PWLS yn galluogi staff i fyfyrio ar eu lles a chyfrannu at drafodaethau cymheiriaid mewn ffordd gadarnhaol.** | Parhaus Mawrth 2027 | Penaeth AD Pennaethiaid Gwasanaeth |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.4** |  **Ch. 1- 4** | **Datblygu ein gweithle ymhellach a rhoi pob cyfle i staff ddatblygu i gwrdd â heriau'r dyfodol**<br>➢ **Mae cyfleoedd secondiad yn cael eu hystyried a'u cynnig lle bo hynny'n ymarferol.**<br>➢ **Mae staff yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddatblygu eu cymwysterau o fewn eu meysydd arbenigedd priodol a/neu ennill profiad a gwybodaeth trwy ymgymryd â phrosiectau a/neu gyfrifoldebau ychwanegol.**<br>➢ **Rhwng y cyrsiau hyfforddi allanol sydd wedi ei trefnu a'r nifer sydd ar gael dros ELMS (portal dysgu arlein) mae llawer mwy o gyfleon hyfforddiant ar gael i staff. Mae polisi dysgu a datblygu wedi'i greu sy'n amlinellu cefnogaeth yr Awdurdod i staff i wella eu gallu ac yn darparu rhwydweithiau cymorth i'w cynorthwyo.**<br>➢ **Fframwaith Hyfforddiant Gorfodol: Mae modiwlau e-ddysgu dwyieithog bellach ar gael i bob aelod staff trwy ELMS, gan gynnwys Urddas yn y Gwaith, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Ymwybyddiaeth lechyd Meddwl, ac ati.**<br>➢ **Hyfforddiant Arweinyddiaeth: Mae nifer o staff wedi cwblhau cyrsiau ILM Lefel 3, 4 a 5, gan gryfhau sgiliau rheoli a chynllunio strategol.**<br>➢ **Cyrsiau Allanol Arbenigol: Mynediad i hyfforddiant technegol ac arbenigol (e.e. lechyd a Diogelwch)**<br>➢ **Polisi Sabbothol: Yn cynnig cyfle i staff gymryd cyfnod o absenoldeb estynedig ar gyfer datblygiad personol neu broffesiynol, gan gefnogi dysgu gydol oes.**<br>➢ **Polisi Addasiadau Gweithle a Phasbort: Yn galluogi staff i weithio'n effeithiol drwy ddarparu addasiadau rhesymol, gan hyrwyddo cynhwysiant a datblygiad.**<br>➢ **Diwygio'r Broses Asesiad Perfformiad: Bydd y model newydd yn cynnwys ffocws cryfach ar ddatblygiad gyrfa a chyfleoedd hyfforddi fel rhan o'r adolygiadau chwarterol.** | Parhaus Mawrth 2027 | Penaethiaid Gwas. Pennaeth AD |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 1.5** | **Ch. 1+2** | **Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Gwybodaeth a Strategaeth Ddigidol i arwain yr Awdurdod i'r dyfodol gyda canllawiau a gweledigaeth o ran ei sustemau technegol**<br><br>**Mae'r Strategaeth Gwybodaeth drafft wedi ei chyflwyno Aelodau ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Mehefin. Prif amcanion y strategaeth yw cryfhau seibr-ddiogelwch, moderneiddio'r systemau ac ystyried deallusrwydd artiffisial, gwella'r gwasanaeth digidol a datblygu sgilau staff ac Aelodau.**<br>**Wedi ei gwblhau** | Mehefin 2026 | Pennaeth Syst. Gwybodaeth (SG)<br>Pennaeth Cyfathrebu |
| **CW 1.6** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Datblygu llawlyfr cyfathrebu mewnol newydd ar gyfer holl staff**<br><br>**Bydd y llawlyfr yn cael ei ddatblygu yn y chwarter nesaf.** | Rhag. 2025 | Cyf. Gwas. Corff. Pen. Cyfathrebu; SG a GCaG |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 2 | DATBLYGU A HYRWYDDO ARFER GORAU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 2.1** | <br>**Ch. 1- 4** | **Datblygu prosiectau a rhannu cyflawniadau gwaith Datgarboneiddio yr Ystad/Adeiladu trwy gyllid Tirweddau Cynaliadwy Lleoedd Cynaliadwy gyda chyrff eraill o fewn tirweddau dynodedig a'r ystâd gyhoeddus ehangach**<br><br>**Mae'r gwaith yn mynd rhagddo. Mae Pennaeth Eiddo a Swyddog Carbon yn mynychu cyfarfodydd rheolaidd Grŵp Swyddogion Datgarboneiddio Gogledd Cymru ac Ystadau Cymru ac yn adnabod cyfleoedd i rannu gwybodaeth a chydweithio gyda phartneriaid.** | Mawrth 2027 | Pennaeth Eiddo |
| **CW 2.2** |  | **Gwella Ymgysylltiad Staff a Mentrau Lles. Fel rhan o'n hymrwymiad i feithrin amgylchedd gweithle cefnogol a ffyniannus, rydym yn bwriadu rhoi sawl strategaeth ar waith i sicrhau llesiant ein gweithwyr a hyrwyddo diwylliant o gysylltedd a lles:**<br>➢ **Ymchwilio a Gweithredu Arferion Gorau**: byddwn yn ymchwilio ac yn mabwysiadu arferion gorau o barciau ac awdurdodau eraill mewn perthynas â chynnal gwiriadau gwyliadwriaeth iechyd i staff er mwyn blaenoriaethau eu hiechyd a diogelwch<br>➢ **Dadansoddiad o Absenoldebau Salwch**: Deall y ffactorau sy'n cyfrannu at absenoldeb salwch i nodi tueddiadau a gweithredu ymyriadau wedi'u targedu i hyrwyddo lles cyffredinol a lleihau absenoldeb. Diweddaru a hailgyfathrebu'r Polisi rheoli Absenoldeb i ail-ymgysylltu â rheolwyr a staff ynghylch cyfrifoldebau, sicrhau cysondeb a chynyddu presenoldeb. Datblygu dadansoddiad cynhwysfawr o absenoldebau salwch a chynhyrchu adroddiadau sy'n nodi tueddiadau fesul gwasanaeth, tymor ayyb. | Mawrth 2027 | Pennaeth AD |

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

 Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| | | |
|---|---|---|
| | | ➢ **Mwy o Rwydweithio ymhlith Staff**: Meithrin ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch ymhlith ein gweithwyr trwy drefnu diwrnodau cyfarfod staff amlach, gan gynnwys cinio a digwyddiadau awyr agored, i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ymlacio, cymdeithasu ac adnewyddu |
| | **Ch. 1 + 2** | • **Lles ac Iechyd Staff: Parhau i ymchwilio a mabwysiadu arferion da mewn perthynas â iechyd galwedigaethol a gwyliadwriaeth iechyd lle bo'n briodol, er mwyn cefnogi iechyd, diogelwch a lles gweithwyr.**<br><br>• **Dadansoddi a Monitro Absenoldeb Salwch: Parhau i fonitro a dadansoddi data absenoldeb salwch er mwyn nodi tueddiadau, patrymau a meysydd i'w gwella.**<br><br>• **Ymgysylltu a Chysylltedd Staff: Mae diwrnodau staff erbyn hyn yn cael eu trefnu'n chwarterol i ddarparu cyfleoedd rheolaidd i staff gyfarfod, rhwydweithio a rhannu gwybodaeth. Yn ogystal, mae nifer o fentrau lles wedi'u sefydlu, gan gynnwys Clwb Cerdded, Clwb Rhedeg a Chlwb Darllen, i annog rhyngweithio cymdeithasol a chefnogi iechyd corfforol a meddyliol.**<br><br>• **Hyrwyddo Lles Corfforol a Meddyliol: Darparu ystod o adnoddau a gweithgareddau lles i staff, gan gynnwys sesiynau yoga yn y swyddfa, sesiynau myfyrio wedi'u recordio sydd ar gael i staff eu defnyddio ar adeg sy'n gyfleus iddynt, fideo gwella cwsg, ac adnoddau yoga desg i gefnogi lles dyddiol yn y gweithle.**<br><br>**Mae'r mentrau yma yn cyfrannu at ddatblygu diwylliant cadarnhaol sy'n cefnogi iechyd, lles ac ymgysylltiad staff ar draws yr Awdurdod.** |
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 3 | GWEITHIO'N EFFEITHIOL MEWN PARTNERIAETH |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 3.1 | Ch. 1+ 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Cyd-gynhyrchu Cynllun Eryri gyda Partneriaid craidd, staff ac Aelodau'r Awdurdod ar gyfer ei fabwysiadu am y 5 mlynedd nesaf gan gynnwys ymgorffori Amcanion Llesiant yr Awdurdod yn y Cynllun**<br>**Cyhoeddwyd Adroddiad Cyflwr y Parc ym mis Ebrill 2025 ac mae'r broses ar gyfer adolygu Cynllun Eryri wedi parhau drwy Gwanwyn a Haf, 2026. Mae cyfres o weithdai a symposiwms wedi eu cynnal er mwyn ymgysylltu, derbyn sylwadau ac adborth partneriaid a rhanddeiliaid. Anelir i gyflwyno drafft o'r Cynllun i'r Aelodau yn yr Hydref.** | Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |
| CW 3.2 | Ch. 1 +2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Ystyried pa bolisiau newydd sydd angen eu datblygu ar gyfer Cynllun Eryri ee : Perthyn, Cynhwysiant a Mynediad**<br>➢ **Bydd y Cynllun Drafft yn cael ei baratoi ar sail y dystiolaeth helaeth sydd wedi'i gasglu drwy broses eang o ymgynghori a drwy gydweithio yn agos gyda swyddogion a phartneriaid.**<br>➢ **Bydd y Cynllun Drafft yn adnabod blaenoriaethau, amcanion a pholisïau am y 5 mlynedd nesaf. Mae sawl un newydd i'r Awdurdod.**<br>➢ **Bydd Gweithdai yn cael eu trefnu gydag Aelodau'r Parc i graffu ar y Cynllun drafft er mwyn mabwysiadu'r ffordd ymlaen am y 5 mlynedd nesaf.** | Mawrth 2027 | Pennaeth Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 3.3** | **Ch. 1- 4** | **Cefnogi gwaith y Bartneriaeth Tirweddau Dynodedig Cenedlaethol (NDLP) yng Nghymru.**<br><br>**Mae arferion da a gwybodaeth am gael mynediad at grantiau yn cael eu rhannu rhwng aelodau'r Bartneriaeth. Rhoddir ystyriaeth i anghenion sgiliau ar draws yr wyth tirwedd.** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.4** | **Ch. 1- 4** | **Parhau i gefnogi gwaith Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ledled y DU, y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol, Sefydliad Parciau Cenedlaethol a mentrau cydweithredol cysylltiedig eraill**<br><br>**Bydd y PW yn mynychu'r holl gyfarfodydd yn ôl yr angen. Mae cyfleoedd cydweithredol yn cael eu datblygu gan wahanol wasanaethau'r Awdurdod wrth i gyfleoedd godi.** | Parhaus | Prif Weithredwr |
| **CW 3.5** | **Ch. 1+ 2**<br><br>Qtr. 3<br>Ch. 4 | **Cyfrannu at swyddogaeth cynllunio Cyd Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru**<br><br>**Mae'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwer yn parhau i fynychu cyfarfodydd y CBC. Mae'r Cadeirydd wedi ei gyf-ethol i eistedd ar Is-bwyllgor Economi a Lles a swyddogion APCEryri wedi eu cyf-hethol ar Is-Bwyllgor Strategol Trafnidiaeth Gogledd Cymru, a'r Is-bwyllgor Cynllunio, gyda cefnogaeth swyddogion APCEryri.** | Parhaus | Cyfarwyddwr Cynllunio a Partneriaethau |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 4 | MODERNEIDDIO TREFNIADAU LLYWODRAETHU |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 4.1 | Ch. 1 +2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Monitro presenoldeb Aelodau yng nghyfarfodydd yr Awdurdod**<br>**4 x cyfarfod Awdurdod Llawn – Ebrill, Mehefin, Gorffennaf, Medi – Presenoldeb: 86%**<br>**3 x cyfarfod Pwyllgor Cynllunio – Mai, Mehefin, Medi – Presenoldeb: 83%**<br>**1 x cyfarfod Pwyllgor Perfformiad ac Adnodau – Gorffennaf – Presenoldeb: 89%** | Mawrth 2027 | Swyddog Gwas. Democrataidd |
| CW 4.2 | Ch. 1+ 2 | **Cefnogi a datblygu Aelodau'r Awdurdod drwy hyfforddiant a datblygu**<br>➢ Cefnogi Llywodraeth Cymru ar y rhaglen: 'Gwella Llywodraethu ac Atebolrwydd Aelodau yng Nghymru'. Rhoi cefnogaeth i swyddogion y Llywodraeth ar weithredu'r gwaith uchod<br>**Trefnwyd Diwrnod Datblygu Aelodau ar 19 Mehefin gan yr adran Gadwraeth, Coed ac Amaeth. Cafwyd cyflwyniadau gan Swyddog Adnoddau Naturiol ac Amaeth a gan Swyddog Coed a Choedlannau ac ymweliadau safle i sawl safle perthnasol yn ardal Betws y Coed. Presenoldeb: 67%**<br>**Seminar Parciau Cenedlaethol Cymru: Trefnwyd y seminar mis Gorffennaf gan BC Bannau Brycheiniog gyda 72% o'r Aelodau yn bresennol.**<br>**Cynhadledd Parciau Cenedlaethol Prydain mis Medi. Mynychodd 3 Aelod, y Prif Weithredwr a** | Parhaus | Swyddog Gwas. Democrataidd a Pen. Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ch. 3<br>Ch. 4 | **Chyfarwyddwr Cynllunio a Phartneriaethau y gynhadledd ym MhC y Cairngorms, yr Alban. Thema'r gynhadledd oedd "Dùthchas" y gair Gaelg sy'n cwmpasu syniadau am berthynas deuluol, treftadaeth a chysylltiadau dwfn rhwng natur, pobl a lle. Roedd rhaglen llawn yn cynnwys siaradwyr gwadd, trafodaethau a rhwydweithio, ymweliadau safle a gweithdai.**<br>**Un o'r trafodaethau mwyaf poblogaidd oedd tannau gwyllt a rôl y PC. Yn anffodus, daeth y trafodaethau'n berthnasol iawn gyda'r tânnau gwyllt mawr yn Glemnore a Strath Nethy, ychydig o filltiroedd o leoliad y gynhadledd a tannau gwyllt y Carneddau a Rhinogydd ym MhC Eryri ynghyd â sawl tan gwyllt arall ar draws y wlad.** | | |
| **CW 4.3** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Mae'r Aelodau wedi cael Cyfarfod Adolygu Datblygiad Personol (ADP) ar eu hanghenion datblygu a chymorth.**<br>**Heb eu trefnu hyd yn hyn oherwydd newid yn y drefn gwerthuso, ac etholiadau ar y gorwel. Bydd sesiynau ADP Aelodau Llywodraeth Cymru yn cael eu trefnu'n y chwarter nesaf.** | Parhaus | Swyddog Gwas. Democrataidd |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 5 | CYNNAL A GWELLA DEALLTWRIAETH A CHEFNOGAETTH CYMUNEDAU LLEOL I WAITH Y PARC CENEDLAETHOL |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.1** | **Ch. 1- 4** | **Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli pellach yn Yr Ysgwrn i wella'r garfan bresennol o wirfoddolwyr, gan geisio recriwtio pobl ifanc sy'n awyddus i ddatblygu sgiliau newydd ac ennill profiad, gan ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau gan wirfoddolwyr yn ogystal â rolau mwy traddodiadol fel tywyswyr ymwelwyr.**<br>**Mae gwirfoddolwyr yn parhau i fod yn greiddiol i fodel busnes Yr Ysgwrn ac yn allweddol i gynnal sawl agwedd o weithgaredd, e.e. ymweliadau grwp a gan ysgolion ac mae nifer o wirfoddolwyr yn gwirfoddoli yn rheolaidd. Mae denu rhagor o wirfoddolwyr cyson yn parhau yn her. Gydag apwyntiad Swyddog Croeso ac Ymgysylltu yr Ysgwrn gobeithir denu mwy i wirfoddoli ar y safle.** | Parhaus | Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol |
| **CW 5.2** | **Ch. 1 + 2**<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Adolygu a monitro'r mesurau yn y Strategaeth Ymgysylltu drwy'r adroddiad blynyddol ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol i sicrhau bod cymunedau lleol a rhanddeiliaid yn deall ac yn ymwybodol o waith yr Awdurdod**<br>**Gwaith parhaol, mae ein cynnwys ymwelwyr o 2025 yn parhau i fod yn gyfredol i'w rhannu sy'n ein galluogi i roi sylw i adrannau eraill megis Cadwraeth a Threftadaeth eleni.**<br>**Mae ystadegau cyfryngau cymdeithasol yn sylweddol uwch o gymharu a'r run chwarteri yn 2025.**<br>**Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i gyfres fideos cod cefn gwlad gyda'r adran wardeinio.** | Parhaus<br>Mawrth 2027 | Pennaeth Cyfathrebu |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.3** | **Ch. 1- 4** | **Ymgysylltu â chymunedau a'u hysbysu trwy gyfarfodydd â Chynghorau Cymuned**<br>**Mae Fforwm Cymunedau Eryri wedi'i sefydlu i ddiweddaru a chynnwys Cynghorau Tref a Chymuned yn y broses adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol. Bydd materion cyffredinol eraill hefyd yn cael eu codi a'u trafod yn ôl yr angen. Mae fformat ymgysylltu tebyg yn cael ei ystyried drwy gydol adolygiad o'r CDLl.**<br>**Mae'r Swyddog Ymgysylltu Cymunedol wedi datblygu Strategaeth Ymgysylltu Gymunedol sydd wedi ei fabwysiadau gan yr Awdurdod ym mis Ebrill 2026. Mae'r Swyddog yn cysylltu yn gyson gyda Chynghorau Tref a Chymuned i hysbysebu cronfeydd cymunedol ac i rannu gwybodaeth berthnasol. Wedi datblygu perthynas da gyda Chlercod ar draws Eryri, mae'r Swyddog yn gallu sicrhau ymgysylltu cyson. Mae'r gwaith hyn yn barhaus.** | Parhaus | Pen. Polisi; Partneriaethau; GC a Gwein. a Swydog Ymg. Cymunedol |
| **CW 5.4** | **Ch. 1- 4** | **Parhau gyda cyswllt â pherchnogion tir a phartïon â diddordeb trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad Parc Cenedlaethol Eryri**<br>**Cynhelir cyswllt parhaus trwy gyfarfodydd Fforymau Mynediad y De a'r Gogledd a gynhelir dair gwaith y flwyddyn mewn lleoliadau yng ngogledd a de'r PC. Cynhelir y cyfarfodydd yn y gwanwyn yr haf a'r gaeaf.** | Parhaus | Rheolwr Mynediad a Lles |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 5.5**<br>Cyfarfod Blynyddol | | **Parhau i gysylltu â'r gymuned ffermio ac undebau ffermio trwy gyfarfodydd y Grŵp Cyswllt Amaethyddol**<br>**Mae cyfarfod Blynyddol y Grŵp Cyswllt Amaeth wedi'i drefnu i'w gynnal Tachwedd 2026. Dyma gyfarfod blynyddol o'r underbau ffermio sy'n gwasanaethu Eryri, ac mae'n cynnwys swyddgion yr undebau a rhai o'u haelodau lleol (hyd at 10). Caiff yr agenda ei lunio ar y cyd gan swyddogion APCE ac undebau i adlewyrchu materion a diweddariadau cyfredol; mae'n galluogi'r Awdurdod a'r undebau i rannu gwybodaeth am waith, pwysau a materion cyfredol ar lefel leol a chenedlaethol, gan sicrhau dealltwriaeth a'r gallu i geisio datrysiadau ar y cyd.** | Cyfarfod Blynyddol | Pen. Cadwraeth Coed ac Amaeth |
| **CW 5.6**<br><br>**Ch. 1 +2** | | **Cynnwys ein cymunedau lleol ym mhob agwedd bwysig o waith yr Awdurdod e.e. cyflwyno Cynllun Eryri a'r CDLl, llunio Canllawiau Cynllunio Atodol, Strategaethau Ymgysylltu wrth ddatblygu prosiectau newydd ayb.**<br>➢ Lansio a gweithredu Strategaeth Ymgysylltu Cymunedol yr Awdurdod<br>**Yn dilyn trafodaeth lawn gan Weithgor Aelodau, mabwysiadwyd Strategaeth Ymgysylltu Cymuned APCE yn ystod cyfarfod Awdurdod Ebrill, 2026. Mae'r Strategaeth yn amlinellu'r dull y bydd swyddogion yn fabwysiadu i sicrhau bod gweithgareddau ymgysylltu mor effeithiol â phosibl er mwyn cyflawni ein gweledigaeth a chreu diwylliant o gydweithio rhwng APCE a'r cymunedau a galluogi'r gymuned i gyfrannu'n weithgar at benderfyniadau am ddyfodol y Parc Cenedlaethol. Bydd swyddogion yn monitro ac adolygu'r Strategaeth yn barhaus i sicrhau tryloywder, atebolrwydd ac effaith. Mae'r strategaeth yn cael ei weithredu.**<br>**Wedi ei gwblhau a'r gwaith/cyswllt yn barhaus** | Parhaus<br><br>Haf 2026 | Cyf. CaP<br>Pen. Partn.<br><br>Swyddog Ymg. Cymunedol |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn: | CW 6 | CYDBWYSO ADNODDAU AC YMDRECHION YR AWDURDOD |
|---|---|---|

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| CW 6.1 | Ch. 1 +2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig er mwyn ymateb i'r sefyllfa ariannol**<br>**Adrodd i :**<br>**Mabwysiadau gan:**<br>**Mae llithriad yn y gwaith bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno i Weithgor Tachwedd ac Awdurdod Rhagfyr.** | Weithgor 06.26.<br>APCE Medi | PW<br>Pennaeth Cyllid |
| CW 6.2 | Ch. 1 + 2<br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Yn amodol ar benderfyniad(au) terfynol yr Awdurdod 30.04.25. ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch, adrodd ar gynnydd unrhyw benderfyniad(au)**<br>**Yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod, comisiynwyd Ymgynghorwyr allanol i baratoi cais yr Awdurdod i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cyflwynwyd y cais ddiwedd Gorffennaf. Disgwylir ymateb diwedd y flwyddyn.** | Adroddiad i'r Awdurdod | PW |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

| Rhif | Statws a Cynnydd Chwarter | Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.) | Amserlen | Swyddog(ion) cyfrifol |
|---|---|---|---|---|
| **CW 6.3** | **Ch. 1+ 2**<br><br>Ch. 3<br>Ch. 4 | **Sicrhau fod yr adroddiad ar ymateb i'r her ariannol gyflwynwyd i'r Awdurdod ar 10.12.25 yn cael ei weithredu er mwyn cyrraedd ein targedau incwm**<br>➢ **Mae hwn yn cael ei weithredu yn gadarnhaol iawn – ac rydym yn ffyddiog o gyrraedd y targed erbyn diwedd y flwyddyn.**<br>➢ **Mae'r 2 brif ffrwd incwm – sef £500K drwy cynydd incwm meysydd parcio a £40K drwy manwerthu yng Nghanolfan Betws-y-Coed a Pen-y-Pass – o fewn y targed gosodwyd ar ôl y 6 mis cyntaf.**<br>➢ **Mae'r rôl rheolwr masnachol wedi ei asesu yn ofalus – a cyrrhaeddwyd y casgliad nad oedd yn flaenoriaeth am y tro – mae hyn eisoes wedi ei adrodd i'r Aelodau.**<br>➢ **Mae'r Tîm Arweinyddiaeth hefyd yn parhau i asesu bob swydd wag o ran achos busnes fel sydd yn ofynnol o fewn y Strategaeth Incwm.** | Parhaus Mawrth 2027 | PW |
| **CW 6.4** | **Ch. 1 + 2**<br><br>Ch. 3 | **Adolygu Blaenoriaethau Gwasanaeth unwaith bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Raglen Llywodraethu ar gyfer y cyfnod etholedig 2026 – 2031.**<br>**Bu i'r Llywodraeth ryddhau'r ddogfen "Cynllun y 100 Diwrnod Cyntaf" ar gyfer y cyfnod Mai i Awst fel y cam cyntaf yn y rhaglen llywodraethu ac yn amlinellu prif amcanion y Gweinidogion Cabinet. Mae Gweinidog Cabinet dros Gwyndnwch Gwledig a Chynaliadwyedd wedi dechrau gweithio ar Gynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur cyntaf Cymru ac yn gweithio tuag at targed sero net erbyn 2040 ac adferiad natur sylweddol erbyn 2050. Bydd y Cynllun yn uniongyrchol berthnasol i waith yr Awdurdod a gobeithir bydd swyddogion yn cael cyfle i gyfrannu'n gadarnhaol.**<br>**Disgwylir i'r Llywodraeth ryddhau ei Raglen Llywodraethu yn yr Hydref, byddwn yn adolygu ein blaenoriaethu yn erbyn y Rhaglen fel rhan o waith adolygu Cynllun Eryri.** | Mawrth 2027 | PW |
| | Ch. 4 | | | |

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

## CANLYNIADAU

**FFYRDD CYDNERTH O WEITHIO: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:**

**CW1, 2:** Rydym wedi buddsoddi yn ein staff i sicrhau bod ganddynt yr arbenigedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.

**CW2, 3:** Mae Cynllun Eryri yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

**CW2, 4:** Rydym wedi cynnal adolygiad o'r trefniadau llywodraethu presennol i sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i weithredu'n effeithiol ac y bydd yn ddigon addasadwy i gwrdd â heriau yn y dyfodol. Monitro unrhyw newidiadau i sicrhau eu bod yn gweithio yn ôl y bwriad.

**CW5:** Mae cyfleoedd i gymunedau lleol, ysgolion, grwpiau anodd eu cyrraedd a difreintiedig i ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a dysgu amdano, a sut y gallant helpu i ofalu amdano wedi cael eu nodi. ***(yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.1)***

**CW5:** Rydym wedi cefnogi, hyrwyddo a darparu cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn A5.2***)

**CW5:** Byddwn yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer deialog rhwng Awdurdod y Parc Cenedlaethol a sefydliadau cymunedol (***yn unol â Chynllun Eryri Allbwn C4.1)***

***CW6:** Byddwn yn cyflawni o dewn y gyllideb a neilltuwyd a defnyddir cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod mewn modd cynaliadwy.

*Amcan newydd Mawrth 2024.

Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen.

Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2027

Dim cynnydd ac/neu **ni bydd** wedi'i gwblhau erbyn Mawrth 2027

Yn berthnasol i'r Targedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gorchwyl Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27

## LLYTHYR CYLCH GWAITH, LLYWODRAETH CYMRU: YR AMGYLCHEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Cefnogi'n weithredol ymrwymiad Llywodraeth Cymru i greu economi ddi-garbon dwy weithio i fod yn garbon niwtral erbyn 2030 drwy'ch gwaith bob dydd ac amrywiaeth o ymyriadau datgarboneiddio | **AC 2.1. – AC 2.8** |
| Mynd ati mewn modd rhagweithiol i hwyluso atafaelu carbon drwy gefnogi creu coetiroedd lle bo hynny'n briodol, ac adfer mawndir ar raddfa fawr drwy'r Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd (NPAP) | **AC 2.6 AC 5.1 - AC 5.5** |
| Cymryd camau i wella cysylltiadau, cyflwr, maint ac amrywiaeth ecosystemau, a chynnal a gwella rhwydweithiau ecolegol cydnerth, gan ymgorffori'r gwaith sydd ei angen i daror'r targedau cenedlaethol sy'n deillio o'r ymrwymiad 30x30 | **AC 5.1 – AC 5.5** |
| Cyflawni Cronfa Natur a Charbon tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd cynaliadwy a chynlluniau eraill Llywodraeth Cymru i gyflawni nodau natur a datgarboneiddio. | **CC 1.6 CW 3.3 CW 3.4 CW 3.5 CW 4.2** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: POBL A LLEOEDD

| **Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE** | **Prosiect/ Gwaith APCE** |
|---|---|
| Parhau i gyflawni cynllun Ffermio Bro | **AC 4.3** |
| Gweithio gydag Awdurdodau Tai, Ymddiriedolaethau Tir Cymunedol a datblygwyr preifat, i ddatblygu atebion arloesol i faterion tai aciwt | **CC 1.4 CC 1.5** |
| Gan weithio gyda phartneriaid fel awadurdodau Lleol a Thrafnidiaeth Cymru, gweithredu atebion i bwysau ymwelwyr ar seilwaith lleol, gan gynnwys systemau trafnidiaeth mwy cynaliadwy, ac ymgyrchoedd cyfathrebu i scirhau hamdden cyfrifol | **AC 1.2 - AC 1.7 AC 1.9.**<br>**CC 1.1 CC 3.1 – CC3.5**<br>**CW 5.3 – 5.6** |
| Cydweithio â phartneriaid allweddol i gyflawni yn erbyn Blaenoriaethau ar gyfer yr Amgylchedd Hanesyddol yng Nghymru i ddiogelu a dehongli'r amgylchedd hanesyddol a'r dreftadaeth ddiwylliannol | **AC 3.1 – AC 3.6** |
| Datblygu polisiau sy'n sicrhau bod y Gymraeg yn gallu ffynnu | **CC 4.1 – CC 4.5** |
| Cynyddu cyfleoedd i bobl mewn grwpiau bregus neu dan anfantais a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i elwa o'r tirweddau rydych chi'n eu rheoli | **CC1.2 CC 1.3** |
| Cynyddu'r ddarpariaeth o gyfleoedd hyfforddi sgiliau prentisiaethau a gwirfoddoli | **CC 1.2 CC 1.3 CC 2.1 CC 2.2**<br>**CW 5.1** |

## LLYTHYR CYLCH GWAITH LLYWODRAETH CYMRU: LLYWODRAETHU A CHYDWEITHREDU

| Amcanion blaenoriaeth a chamau gweithredu LlC ar gyfer APCE | Prosiect/ Gwaith APCE |
|---|---|
| Ceisio rhagoriaeth o ran llywodraethu gan gynnwys rhannu arferion gorau a hyfforddiant rhwng Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a chyrff eraill | **CW 4** |
| Sicrhau bod amrywiaeth o safbwyntiau amrywiol yn rhan ganolog o'ch strwythurau llywodraethu a'ch prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau | **CW 4** |
| Cefnogi Tirweddau Cymru i ddatblygu ei uchelgais, ymgorffori cydweithio ar bob lefel a fewn Awdurdodau Parciau Cenedlaethol a Thirweddau Cenedlaethol, a mynd ati mewn ffordd rhagweithiol i ddatblygu a darparu cyfleoedd newydd ar gyfer gweithio ar y cyd | **AC 4.1**<br>**CW 3.3** |
| Ymgorffori'r adnoddau a grewyd yn ystod rhaglen Cymorth Llywodraethu Awdurdodu Parciau Cenedlaethol, gan gynnwys Llawlyfr Llywodraethu yr Aelodau, fframwaith disgwyliadau ac arfarniad aelodau mewn trefniadau sefydlu a datblygu Aelodau | **CW 4.2 CW 4.3** |

**Eitem Rhif 7**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 11 Tachwedd 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Blynyddol y Canolfannau Croeso** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy |
| **PWRPAS** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am gynnydd y Canolfannau Croeso |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae gan yr Awdurdod dair Canolfan Groeso, yn Aberdyfi, Beddgelert a Betws-y-coed. Mae Canolfan Aberdyfi yn dymhorol, mae Betws-y-coed ar agor drwy gydol y flwyddyn ac mae Beddgelert yn gyfuniad o'r ddau gydag amseroedd agor cyfyngedig dros y gaeaf.

1.2 Yn dilyn llwyddiant yr Hwb ym Mhen y Pas yn 2025 eleni agorwyd gofod estynedig yno i fanteisio ar y potensial a ddangoswyd.

## 2. TROSOLWG O'R FLWYDDYN 2025 - 26 MLYNEDD HYD YMA

2.1 Agorodd y tair canolfan ymwelwyr ar amser.

2.2 Bu nifer o broblemau gyda recriwtio yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda 2025 yn eithriad. Mae prinder staffio wedi effeithio'n sylweddol ar Aberdyfi (ar ddechrau'r flwyddyn) a Phen-y-pass eleni.

2.3 Isod mae ffigurau ar gyfer gwerthiannau ar-lein. Fodd bynnag, dylem fod yn ymwybodol a gofalus wrth wneud cymariaethau tebyg am debyg. Rydym wedi bod yn ychwanegu mwy o brofiadau, gwasanaethau a chyfleoedd ar gyfer derbyn rhoddion i'r wefan yn gyson. Er enghraifft, eleni mae tocynnau parcio blynyddol a 6 misol wedi'u hychwanegu at y siop ar-lein. Nid yw'r ffigurau isod yn adlewyrchu cymariaethau tebyg am eu tebyg ac maent yn enghraifft o rôl ehangu yr opsiwn talu ar-lein i'r Awdurdod.

Ionawr 2026 – Diwedd Medi 2026 - £4668.76

Ionawr 2025 – Diwedd Hydref 2025 - £2751

Ionawr 2024 – Diwedd Hydref 2024 - £3368

Ionawr 2023 – Diwedd Hydref 2023 - £3149

## 3. CANOLFAN ABERDYFI

3.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1. Wedi'u cynnwys yn y tymor byr gyda chymariaethau â 25/26 a thueddiadau tymor hir o 2017.

3.2 (Cymariaethau gydag Ebrill – Medi) Mae niferoedd ymwelwyr yn is o 4% yn 2026, hyn yn dilyn gostyngiad o 3% yn 2025. Fodd bynnag, fel y soniwyd roedd problemau staffio sylweddol ar ddechrau'r tymor a oedd yn golygu bod y ganolfan ar gau am 8 diwrnod ym mis Ebrill. Mae trosiant hefyd wedi gostwng, bron i 11% ar 2025.

3.3 Wrth edrych ar y gymhariaeth hirdymor, gallwn weld bod yr elw y pen wedi parhau i fod yn debyg i'r llynedd yn dilyn gostyngiad o 2024. Eleni mae'r gwariant trafodion cyfartalog hefyd wedi gostwng.

## 4. CANOLFAN BEDDGELERT

4.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.

4.2 (Cymariaethau gydag Ebrill – Medi) Mae nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu'n sylweddol eleni, o 23%. Mae'r trosiant wedi cynyddu o ganlyniad ond o drwch llai sef 6.5%. Er nad yw'n fwy na'r nifer o ymwelwyr ym Metws-y-coed, mae'r trosiant wedi rhagori ar y niferoedd a welwyd ym Metws dros anterth y tymor am yr ail flwyddyn.

4.3 Wrth edrych ar y gymhariaeth tueddiadau tymor hir, mae gwariant cyfartalog fesul trafodiad yn parhau i fod yn sylweddol uwch na'r Canolfannau eraill er bod elw y pen wedi gostwng yn sylweddol oherwydd y cynnydd llawer uwch mewn ymwelwyr.

## 5. CANOLFAN BETWS-Y-COED

5.1 Gweler data'r Ganolfan yn Atodiad 1.

5.2 (Cymariaethau gydag Ebrill – Medi) Mae nifer yr ymwelwyr ym Metws-y-coed wedi cadw'r cynnydd a welwyd y llynedd, gan aros yn sefydlog ar gyfer 2026.

5.3 Mae trosiant wedi parhau i ostwng o'r uchafswm a welwyd yn 2024 a gwelwyd gostyngiad o 4% eleni.

## 6. HWB PEN Y PASS

6.1 Eleni gwelwyd ehangu'r gofod manwerthu yn yr Hwb ym Mhen-y-pass yn dilyn cynllun peilot llwyddiannus y llynedd. Roedd y gofod i fod i agor ddiwedd mis Mawrth yn barod ar gyfer gwyliau'r Pasg.

6.2 Oherwydd oedi gyda'r gwaith adeiladu, ni ail agorodd yr Hwb tan ddiwedd mis Mai ar gyfer yr egwyl hanner tymor a chafwyd nifer o anawsterau staffio ers hynny. Nid oes un mis heb ddyddiau wedi'u colli am ei fod ar gau.

6.3 Mae trosiant i lawr 17% o'i gymharu â'r llynedd (Mehefin - Medi). Y ffactorau sy'n cyfrannu er gwaethaf y gofod ychwanegol yw -

- Dyddiau a gollwyd oherwydd diffyg staffio a salwch.
- Cyfnodau hir o dywydd da. Dros y cyfnod rhwng Mehefin a diwedd Awst bu gostyngiad o 53% mewn gwerthiannau offer glaw, hetiau cynnes a menig. Nid oedd hyn yn golygu cynnydd yn yr hyn y gellid ei ystyried yn offer tywydd cynnes gyda gwerthiannau hetiau haul hefyd yn gostwng 16%.

## 7. CASGLIAD

7.1 Yn gyffredinol, bu cynnydd o 5% yn nifer yr ymwelwyr hyd at ddiwedd mis Medi. Fodd bynnag, mae'r cynnydd hwn yn gwbl seiliedig ar y canlyniadau ym Meddgelert. Ffactorau sy'n effeithio ar nifer yr ymwelwyr eleni –

- Diffyg staffio yn Aberdyfi ar ddechrau'r flwyddyn.

- Gwyliau'r Pasg cynnar.
- Cafodd Cwpan y Byd effaith enfawr ym mis Mehefin, gwelwyd gostyngiad yn enwedig ym Metws-y-coed. Effeithiwyd Beddgelert hefyd gyda'r cynnydd yn y niferoedd yn llai ar gyfer y mis hwn.
- Tywydd da am gyfnod estynedig. Dylid nodi bod y cwymp mwyaf (nid oherwydd diwrnodau ar gau) yn Aberdyfi, sy'n gyrchfan traeth ac yn ystod mis Awst.

7.2 Yn gyffredinol, mae'r gostyngiad yn y trosiant yn y canolfannau yn 0.5%, heb os, byddai hyn yn uwch oni bai am lwyddiant Beddgelert. Mae'r gwariant cyfartalog ar drafodion yn Aberdyfi a Betws-y-coed yn nodedig ac yn arwydd o'r amodau economaidd anodd sy'n wynebu llawer ohonynt. Mae hyn nid yn unig yn effeithio ar ein hymwelwyr ond hefyd ar ein cyflenwyr gyda nifer o'n cyflenwyr hirdymor naill ai'n newid eu model busnes neu'n rhoi'r gorau i fasnachu eleni.

7.3 Mae'r rhagolygon ar gyfer 2027 yn ansicr, fodd bynnag, mae yna nifer o lwybrau y byddwn yn eu harchwilio trwy fisoedd y gaeaf.

- Byddaf yn ymdrechu i edrych yn fanwl ar ein elw. Dros y blynyddoedd diwethaf mae ein cyflenwyr wedi cael eu gorfodi i godi eu prisiau ac rydym wedi ceisio cynnwys lle i'r rhain. Fodd bynnag, y gaeaf hwn bydd yn rhaid i ni wneud penderfyniadau ynghylch cynyddu ein elw unwaith eto.
- Ymestyn ymhellach y cynnig cynnyrch ym Mhen-y-pass a chwilio am gyflenwyr newydd drwy'r canolfannau.

## 8. ARGYMHELLIAD

**8.1 I'r Aelodau drafod cynnwys yr adroddiad ac ystyried unrhyw gamau y dylid eu cymryd wrth i ni edrych tuag at 2026-2027.**

***CANOLFAN* / CENTRE: ABERDYFI**
***YMWELWYR AC YMHOLIADAU* / VISITORS AND ENQUIRIES**

| | **2026/27** | | | | | | **2025/26** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *MIS* MONTH | | | | e. | *CYFANSWM* TOTAL | | | | | e. | *CYFANSWM* TOTAL | % + / - |
| *EBR / APR* | 1,770 | - | 16 | 2 | 1,788 | *EBR / APR* | 3,751 | - | 19 | 7 | 3,777 | -52.66 |
| *MAI / MAY* | 4,408 | - | 21 | 7 | 4,436 | *MAI / MAY* | 4,339 | - | 21 | 5 | 4,365 | 1.63 |
| *MEH / JUN* | 4,157 | - | 20 | 3 | 4,180 | *MEH / JUN* | 4,270 | - | 22 | 2 | 4,294 | -2.65 |
| *GOR / JUL* | 5,940 | - | 18 | 9 | 5,967 | *GOR / JUL* | 5,083 | - | 16 | 3 | 5,102 | 16.95 |
| *AWS / AUG* | 6,268 | 3 | 19 | 6 | 6,296 | *AWS / AUG* | 6,712 | - | 22 | 6 | 6,740 | -6.59 |
| *MED / SEP* | 4,175 | - | 19 | 2 | 4,196 | *MED / SEP* | 3,755 | 1 | 11 | 2 | 3,769 | 11.33 |
| *HYD / OCT* | 1,543 | - | 15 | - | 1,558 | *HYD / OCT* | 2,421 | - | 18 | - | 2,439 | -36.12 |
| *TACH / NOV* | - | - | - | - | - | *TACH / NOV* | 155 | - | - | - | 155 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 15 | - | - | - | 15 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 28,261 | 3 | 128 | 29 | 28,421 | | 30,501 | 1 | 129 | 25 | 30,656 | -7.29 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 28,261 | 3 | 128 | 29 | 28,421 | | 30,331 | 1 | 129 | 25 | 30,486 | -6.77 |

***CYN. TAW / INC. VAT*** ***GWERTHIANNAU / SALES***

| *MIS/MONTH* | 2026/27 | 2025/26 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 2,033.69 | £ 3,198.64 | -36.42 |
| *MAI / MAY* | £ 4,088.40 | £ 4,943.52 | -17.30 |
| *MEH / JUN* | £ 4,259.24 | £ 4,996.11 | -14.75 |
| *GOR / JUL* | £ 6,189.91 | £ 5,470.44 | 13.15 |
| *AWS / AUG* | £ 7,170.00 | £ 8,103.61 | -11.52 |
| *MED / SEP* | £ 4,722.17 | £ 5,263.81 | -10.29 |
| *HYD / OCT* | £ - | £ 3,582.70 | -100.00 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 316.17 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 34.72 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 28,463.41 | £ 35,909.72 | -20.74 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 28,463.41 | £ 35,558.83 | -19.95 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2026/27 | 2025/26 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 791.08 | £ 1,299.91 | -39.14 |
| *MAI / MAY* | £ 1,560.00 | £ 2,021.62 | -22.83 |
| *MEH / JUN* | £ 1,703.99 | £ 2,019.73 | -15.63 |
| *GOR / JUL* | £ 2,454.09 | £ 2,233.13 | 9.89 |
| *AWS / AUG* | £ 2,852.49 | £ 3,296.29 | -13.46 |
| *MED / SEP* | £ 1,896.15 | £ 2,116.83 | -10.43 |
| *HYD / OCT* | £ - | £ 1,416.48 | -100.00 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 119.39 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *ION / JAN* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ - | #DIV/0! |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 12.08 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 11,257.80 | £ 14,535.46 | -22.55 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 11,257.80 | £ 14,403.99 | -21.84 |

***CANOLFAN / CENTRE: BEDDGELERT***

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES***

| | **2026/27** | | | | | | **2025/26** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *MIS* | | | | | *CYFANSWM* | | | | | | *CYFANSWM* | |
| MONTH | | | | e. | TOTAL | | | | | e. | TOTAL | % + / - |
| *EBR / APR* | 4,566 | - | 42 | 1 | 4,609 | *EBR / APR* | 4,531 | - | 37 | 6 | 4,574 | 0.77 |
| *MAI / MAY* | 6,397 | - | 46 | 1 | 6,444 | *MAI / MAY* | 5,084 | - | 47 | 2 | 5,133 | 25.54 |
| *MEH / JUN* | 5,189 | - | 33 | 4 | 5,226 | *MEH / JUN* | 4,726 | - | 21 | 3 | 4,750 | 10.02 |
| *GOR / JUL* | 9,073 | 1 | 55 | 5 | 9,134 | *GOR / JUL* | 6,628 | - | 27 | 5 | 6,660 | 37.15 |
| *AWS / AUG* | 12,270 | - | 54 | 3 | 12,327 | *AWS / AUG* | 9,184 | - | 64 | 7 | 9,255 | 33.19 |
| *MED / SEP* | 5,686 | - | 19 | 3 | 5,708 | *MED / SEP* | 4,808 | - | 35 | - | 4,843 | 17.86 |
| *HYD / OCT* | 1,405 | - | 7 | 1 | 1,413 | *HYD / OCT* | 3,344 | - | 27 | 1 | 3,372 | -58.10 |
| *TACH / NOV* | - | - | - | - | - | *TACH / NOV* | 486 | - | - | - | 486 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | 866 | - | 5 | - | 871 | -100.00 |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | 425 | 1 | 2 | 1 | 429 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | 759 | - | 6 | 11 | 776 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 1,238 | 1 | 9 | 3 | 1,251 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 44,586 | 1 | 256 | 18 | 44,861 | | 42,079 | 2 | 280 | 39 | 42,400 | 5.80 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 44,586 | 1 | 256 | 18 | 44,861 | | 38,305 | - | 258 | 24 | 38,587 | 16.26 |

***CYN. TAW / INC. VAT*** ***GWERTHIANNAU / SALES***

| *MIS/MONTH* | 2026/27 | 2025/26 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 11,879.14 | £ 12,388.52 | -4.11 |
| *MAI / MAY* | £ 17,737.71 | £ 15,631.41 | 13.47 |
| *MEH / JUN* | £ 12,362.39 | £ 14,762.45 | -16.26 |
| *GOR / JUL* | £ 21,679.25 | £ 17,460.53 | 24.16 |
| *AWS / AUG* | £ 24,137.39 | £ 22,053.83 | 9.45 |
| *MED / SEP* | £ 17,382.76 | £ 16,457.99 | 5.62 |
| *HYD / OCT* | £ - | £ 12,941.62 | -100.00 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 2,127.86 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 2,561.78 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 1,434.44 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 2,747.67 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 2,989.83 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 105,178.64 | £ 123,557.93 | -14.88 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 105,178.64 | £ 111,696.35 | -5.84 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2026/27 | 2025/26 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 4,651.55 | £ 4,970.40 | -6.41 |
| *MAI / MAY* | £ 6,920.31 | £ 6,275.66 | 10.27 |
| *MEH / JUN* | £ 4,875.79 | £ 5,930.01 | -17.78 |
| *GOR / JUL* | £ 8,548.63 | £ 7,003.97 | 22.05 |
| *AWS / AUG* | £ 9,640.82 | £ 8,898.91 | 8.34 |
| *MED / SEP* | £ 6,849.40 | £ 6,608.92 | 3.64 |
| *HYD / OCT* | £ - | £ 5,168.89 | -100.00 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 831.16 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 1,017.51 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 573.04 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 1,082.81 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 1,158.38 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 41,486.50 | £ 49,519.66 | -16.22 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 41,486.50 | £ 44,856.76 | -7.51 |

***CANOLFAN / CENTRE: BETWS Y COED***

***YMWELWYR AC YMHOLIADAU / VISITORS AND ENQUIRIES***

| | **2026/27** | | | | | | **2025/26** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| *MIS* | | | | | *CYFANSWM* | | | | | | *CYFANSWM* | |
| MONTH | | | | e. | TOTAL | | | | | e. | TOTAL | % + / - |
| *EBR / APR* | 6,674 | - | 80 | 14 | 6,768 | *EBR / APR* | 7,500 | - | 109 | 43 | 7,652 | -11.55 |
| *MAI / MAY* | 7,156 | 1 | 80 | 23 | 7,260 | *MAI / MAY* | 7,346 | - | 110 | 28 | 7,484 | -2.99 |
| *MEH / JUN* | 6,567 | - | 79 | 26 | 6,672 | *MEH / JUN* | 7,573 | - | 95 | 18 | 7,686 | -13.19 |
| *GOR / JUL* | 9,443 | 1 | 119 | 42 | 9,605 | *GOR / JUL* | 8,972 | - | 116 | 37 | 9,125 | 5.26 |
| *AWS / AUG* | 10,080 | 2 | 89 | 25 | 10,196 | *AWS / AUG* | 9,255 | - | 119 | 30 | 9,404 | 8.42 |
| *MED / SEP* | 8,080 | 2 | 86 | 21 | 8,189 | *MED / SEP* | 7,686 | 3 | 91 | 26 | 7,806 | 4.91 |
| *HYD / OCT* | 3,379 | - | 40 | 8 | 3,427 | *HYD / OCT* | 6,855 | - | 65 | 29 | 6,949 | -50.68 |
| *TACH / NOV* | - | - | - | - | - | *TACH / NOV* | 3,199 | 1 | 53 | 30 | 3,283 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | - | - | - | - | - | *RHAG / DEC* | 2,500 | 1 | 44 | 29 | 2,574 | -100.00 |
| *ION / JAN* | - | - | - | - | - | *ION / JAN* | 1,404 | 1 | 45 | 42 | 1,492 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | - | - | - | - | - | *CHWE / FEB* | 2,209 | - | 61 | 34 | 2,304 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | - | - | - | - | - | *MAW / MAR* | 3,561 | 3 | 75 | 33 | 3,672 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | 51,379 | 6 | 573 | 159 | 52,117 | | 68,060 | 9 | 983 | 379 | 69,431 | -24.94 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | 51,379 | 6 | 573 | 159 | 52,117 | | 55,187 | 3 | 705 | 211 | 56,106 | -7.11 |

| ***CYN. TAW / INC. VAT*** | ***GWERTHIANNAU / SALES*** | | |
|---|---|---|---|
| *MIS/MONTH* | 2026/27 | 2025/26 | % + / - |
| *EBR / APR* | £ 11,567.55 | £ 12,168.81 | -4.94 |
| *MAI / MAY* | £ 12,082.40 | £ 14,515.21 | -16.76 |
| *MEH / JUN* | £ 12,295.86 | £ 15,176.83 | -18.98 |
| *GOR / JUL* | £ 16,772.80 | £ 15,428.56 | 8.71 |
| *AWS / AUG* | £ 18,657.53 | £ 19,152.37 | -2.58 |
| *MED / SEP* | £ 16,834.24 | £ 15,829.79 | 6.35 |
| *HYD / OCT* | £ - | £ 13,013.06 | -100.00 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 6,097.58 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 5,970.02 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 3,408.44 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 4,040.68 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 6,982.11 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 88,210.38 | £ 131,783.46 | -33.06 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 88,210.38 | £ 105,284.63 | -16.22 |

***ELW / PROFIT (dim costau - gwerthiannau ac archebu llety yn unig )***

| *MIS / MONTH* | 2026/27 | 2025/26 | % + / - |
|---|---|---|---|
| *EBR / APR* | £ 4,540.46 | £ 4,860.88 | -6.59 |
| *MAI / MAY* | £ 4,811.99 | £ 5,787.32 | -16.85 |
| *MEH / JUN* | £ 4,832.44 | £ 6,043.68 | -20.04 |
| *GOR / JUL* | £ 6,695.33 | £ 6,137.87 | 9.08 |
| *AWS / AUG* | £ 7,436.15 | £ 7,658.03 | -2.90 |
| *MED / SEP* | £ 6,643.47 | £ 6,390.83 | 3.95 |
| *HYD / OCT* | £ - | £ 5,186.21 | -100.00 |
| *TACH / NOV* | £ - | £ 2,426.72 | -100.00 |
| *RHAG / DEC* | £ - | £ 2,338.18 | -100.00 |
| *ION / JAN* | £ - | £ 1,329.18 | -100.00 |
| *CHWE / FEB* | £ - | £ 1,591.35 | -100.00 |
| *MAW / MAR* | £ - | £ 2,730.81 | -100.00 |
| *CYFANSWM / TOTAL* | £ 34,959.84 | £ 52,481.06 | -33.39 |
| *EBR-HYD/ APR-OCT* | £ 34,959.84 | £ 42,064.82 | -16.89 |

## Ystadegau Hwb Pen y Pass

### Trosiant/Turnover Yn Unig

| | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ionawr** | £44.17 | £11.98 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £17.98 | £452.77 | £0.00 |
| **Chwefror** | £43.64 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £2.99 | £33.97 | £16.99 | £0.00 |
| **Mawrth** | £101.76 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £1,627.08 | £134.95 | £0.00 |
| **Ebrill** | £937.42 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £429.48 | £1,998.12 | £3,536.20 | £0.00 |
| **Mai** | £902.66 | £0.00 | £0.00 | £190.19 | £1,312.68 | £4,400.80 | £5,461.71 | £1,446.02 |
| **Mehefin** | £379.16 | £0.00 | £0.00 | £18.50 | £2,065.67 | £4,753.58 | £6,650.14 | £2,319.90 |
| **Gorffennaf** | £1,533.50 | £0.00 | £0.00 | £40.47 | £3,410.45 | £3,414.36 | £8,176.18 | £7,600.50 |
| **Awst** | £2,257.23 | £0.00 | £519.42 | £0.00 | £4,043.92 | £7,777.99 | £12,192.08 | £12,084.73 |
| **Medi** | £764.04 | £0.00 | £354.19 | £239.15 | £1,954.60 | £3,007.98 | £6,363.63 | £4,223.35 |
| **Hydref** | £519.64 | £0.00 | £18.47 | £47.99 | £2,137.99 | £1,815.50 | £5,066.16 | |
| **Tachwedd** | £66.64 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £677.36 | £837.59 | £306.25 | |
| **Rhagfyr** | £2.00 | £0.00 | £0.00 | £0.00 | £405.96 | £354.86 | £0.00 | |
| ***Total*** | **£7,551.86** | **£11.98** | **£892.08** | **£536.30** | **£16,441.10** | **£30,039.81** | **£48,357.06** | **£27,674.50** |

**WEDI SELIO AR FLWYDDYN GALENDER YN HYTRACH NA BLWYDDYN ARIANOL**

| Elw ar Werthiannau | | Aberdyfi | Beddgelert | Betws y Coed |
|---|---|---|---|---|
| | | Cyfanswm | Cyfanswm | Cyfanswm |
Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ei arferion cyflogaeth, gwneud penderfyniadau sefydliadol a rheoli staff o ddydd i ddydd.

Mae cynhwysiant yn cael ei gydnabod fel mwy nag atal gwahaniaethu. Mae'n cynnwys creu amgylchedd gwaith lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, yn gallu cyfrannu'n llawn ac yn hyderus i fod yn nhw eu hunain yn y gwaith.

Mae'r Awdurdod hefyd yn cydnabod y gall unigolion brofi anfantais, rhwystrau a gwahaniaethu yn wahanol, wedi'u dylanwadu gan gyfuniad o nodweddion gwarchodedig, amgylchiadau personol a ffactorau eraill.

Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i faterion fel a oes rhwystrau o ran recriwtio, cadw, datblygu a dilyniant, gyda chamau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a nodir.

Bydd polisïau cyflogaeth, penderfyniadau arwyddocaol i’r gweithlu a newid sefydliadol yn cael eu hadolygu, lle bo hynny'n briodol, i asesu goblygiadau cydraddoldeb posibl.

Bydd data gweithlu perthnasol a gwybodaeth am brofiad gweithwyr yn cael eu monitro a'u hadolygu i nodi gwahaniaethau, risgiau sy'n dod i'r amlwg a chyfleoedd ar gyfer gwella.

Bydd canfyddiadau'n cael eu defnyddio i lywio cynllunio gweithredu a chefnogi gwelliant parhaus mewn cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a lles staff.

Bydd gweithwyr, rheolwyr ac Aelodau'r Awdurdod yn derbyn gwybodaeth, arweiniad a hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant sy'n briodol i'w cyfrifoldebau. Bydd canllawiau neu hyfforddiant perthnasol hefyd yn cael eu darparu i gontractwyr, gwirfoddolwyr, gweithwyr asiantaeth a thrydydd partïon eraill lle bo hynny'n briodol.

Bydd yr Awdurdod yn ymgysylltu'n briodol â gweithwyr ac undebau llafur cydnabyddedig wrth ddatblygu, gweithredu ac adolygu arferion cyflogaeth perthnasol. Bydd gwybodaeth am gydraddoldeb yn cael ei chyhoeddi neu ei hadrodd lle bo angen, a bydd tystiolaeth a gesglir trwy fonitro, ymgysylltu ac adolygu yn cael ei defnyddio i gefnogi gwelliant parhaus.

**Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**

Yn unol â'i ddyletswyddau fel awdurdod cyhoeddus, bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw dyledus, wrth arfer ei swyddogaethau, i'r angen i:

- gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad gwaharddedig arall;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt; a
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

Bydd yr Awdurdod yn cyflawni'r cyfrifoldebau hyn drwy amcanion cydraddoldeb priodol a chynllunio gweithredu, asesiad effaith cydraddoldeb, ymgysylltu, dadansoddi gwybodaeth berthnasol, adrodd, craffu ac adolygu canlyniadau.

## 4. Cyfraith cydraddoldeb a nodweddion gwarchodedig

Mae'r polisi hwn wedi'i ategu gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus o dan adran 149, a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

Y naw nodwedd warchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yw:

- oedran;
- anabledd;
- ailbennu rhyw;
- priodas a phartneriaeth sifil;
- beichiogrwydd a mamolaeth;
- hil, gan gynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol;
- crefydd neu gred;
- rhyw; a
- chyfeiriadedd rhywiol.

Ni fydd yr Awdurdod yn goddef gwahaniaethu anghyfreithlon. Mae hyn yn cynnwys gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol; gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd; methiant i wneud addasiadau rhesymol lle mae'r ddyletswydd gyfreithiol yn berthnasol; aflonyddu, gan gynnwys aflonyddu rhywiol; erledigaeth; a gwahaniaethu oherwydd nodwedd warchodedig canfyddedig neu oherwydd cysylltiad â pherson arall.

**Mae gwahaniaethu uniongyrchol** yn digwydd lle mae rhywun yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig.

**Gall gwahaniaethu anuniongyrchol** godi lle mae darpariaeth, maen prawf neu arfer yn rhoi pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig dan anfantais benodol ac ni ellir ei gyfiawnhau'n wrthrychol.

**Mae gwahaniaethu sy'n deillio o anabledd** yn digwydd pan fydd person anabl yn cael ei drin yn anffafriol oherwydd rhywbeth sy'n deillio o'i anabledd ac ni ellir cyfiawnhau'r driniaeth yn wrthrychol. Mae gan gyflogwyr ddyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol mewn amgylchiadau a ragnodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb.

**Mae aflonyddu** yn cynnwys ymddygiad diangen sy'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig sydd â'r pwrpas neu'r effaith o dramgwyddo urddas person neu greu amgylchedd brawychus, gelyniaethus, diraddiol, gostyngedig neu sarhaus.

**Mae aflonyddu rhywiol** yn ymddygiad diangen o natur rywiol sydd â'r pwrpas neu'r effaith o dorri urddas person neu greu amgylchedd brawychus, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu sarhaus. Gall ymddygiad o natur rywiol fod ar lafar, yn ddi-eiriau neu'n gorfforol a gall gynnwys sylwadau rhywiol diangen, jôcs, sylw di-groeso, cyffwrdd, negeseuon, delweddau neu ymddygiad arall o natur rywiol.

**Erledigaeth** yw unrhyw niwed neu driniaeth anffafriol a brofir gan unigolyn oherwydd eu bod wedi codi pryder, gwneud cwyn, adrodd am gamwedd, cymryd rhan mewn ymchwiliad, herio ymddygiad amhriodol neu arfer eu hawliau o dan gyfraith cydraddoldeb.

Nid yw pob nodwedd warchodedig yn cael ei drin yr un fath o dan bob darpariaeth o'r Ddeddf Cydraddoldeb. Dylid felly geisio cyngor AD lle nad yw cymhwyso cyfraith cydraddoldeb yn glir.

## 5. Cydraddoldeb a'r Gymraeg

Mae'r Gymraeg yn ganolog i hunaniaeth, gweithlu a'r cymunedau y mae'r Awdurdod yn eu gwasanaethu. Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gynnal gweithle cynhwysol Cymraeg a dwyieithog lle mae'r Gymraeg yn iaith waith naturiol a gweladwy ac mae staff yn cael eu cefnogi a'u hannog i ddefnyddio'r Gymraeg a datblygu eu sgiliau iaith.

Fel llofnodwr i TWF, Siarter y Gymraeg yn y Gwaith TUC Cymru, mae'r Awdurdod yn cydweithio â gweithwyr ac undebau llafur cydnabyddedig i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith a hyrwyddo tegwch, cynhwysiant a hyder ieithyddol ledled y sefydliad.

Bydd yr Awdurdod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol iddo ac yn mabwysiadu dull gweithredu Cymraeg yn gyntaf lle bo'n briodol ac yn rhesymol ymarferol, tra'n parchu hawliau iaith gweithwyr a chynnal gweithle cynhwysol ar gyfer siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a phobl nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd gan weithwyr lefelau gwahanol o allu Cymraeg ac mae wedi ymrwymo i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg, dysgwyr a rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg yn cael eu trin yn deg a bod cymorth priodol yn cael eu darparu, fel nad oes unrhyw unigolyn dan anfantais annheg oherwydd ei sgiliau iaith.

Bydd cyfleoedd yn cael eu creu a'u hyrwyddo i weithwyr ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol yn eu gwaith o ddydd i ddydd, yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Bydd cymorth hefyd ar gael i weithwyr sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu ddatblygu eu hyder a'u sgiliau iaith ymhellach.

Bydd gweithwyr yn cael eu cefnogi i ddeall eu hawliau a'r cyfleoedd sydd ar gael i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Disgwylir i reolwyr arwain trwy esiampl a hyrwyddo ymrwymiad ar y cyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ar draws yr Awdurdod.

Bydd gofynion Cymraeg ar gyfer swyddi unigol yn cael eu hasesu yn wrthrychol, yn gyson ac yn dryloyw. Bydd gwybodaeth recriwtio yn esbonio'n glir lefel y sgiliau Cymraeg sydd eu hangen ar gyfer y rôl. Bydd cyfleoedd i ddatblygu'r sgiliau hynny ymhellach yn cael eu cefnogi ar ôl eu penodi.

Bydd y gofynion yn seiliedig ar asesiad tystiolaeth o'r rôl ac anghenion gweithredol presennol ac anghenion gweithredol yr Awdurdod yn y dyfodol, byddant yn gymesur a byddant yn ystyried cyfrifoldeb yr Awdurdod i weithredu'n effeithiol a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn Gymraeg.

Bydd yr Awdurdod yn cynnal amgylchedd gwaith sy'n rhydd o ragfarn, anfantais neu driniaeth negyddol sy'n gysylltiedig â gallu Cymraeg unigolyn.

Ceir canllawiau pellach ym Mholisi Defnydd Mewnol yr Awdurdod o'r Gymraeg.

## 6. Arferion cyflogaeth teg

Bydd tegwch a chydraddoldeb yn cael eu hystyried drwy gydol arferion cyflogaeth yr Awdurdod.

Dylai penderfyniadau fod yn gallu cael eu hegluro a'u cefnogi gan dystiolaeth berthnasol a pheidio â chael eu dylanwadu gan ragdybiaethau, stereoteipiau neu nodweddion personol amherthnasol.

### Recriwtio a dethol

Bydd prosesau recriwtio a dethol yn cael eu cynnal mewn modd teg, tryloyw a chynhwysol. Bydd disgrifiadau swydd a manylebau person yn adlewyrchu gofynion gwirioneddol y rôl, a bydd meini prawf a allai greu anfantais anghyfiawnder yn cael eu hosgoi. Bydd swyddi gwag yn cael eu hysbysebu mewn ffordd sy'n ceisio denu maes priodol ac amrywiol o ymgeiswyr, a bydd gwybodaeth ar ofyn am addasiadau rhesymol ar gael trwy gydol y broses recriwtio.

Bydd penodiadau fel arfer yn cael eu gwneud ar sail teilyngdod yn erbyn gofynion cyhoeddedig y rôl. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl lle bo angen, gall gymhwyso gofynion galwedigaethol cyfreithlon lle bo hynny'n briodol, a gall gymryd camau cadarnhaol cyfreithlon a chymesur yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb.

Dim ond pan fo'n gyfreithlon ac yn angenrheidiol y gofynnir cwestiynau sy'n ymwneud ag iechyd neu anabledd cyn cynnig cyflogaeth, megis hwyluso addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio neu i sefydlu a all ymgeisydd gyflawni swyddogaeth gynhenid y rôl gydag addasiadau rhesymol ar waith.

### Tâl, datblygu a dilyniant

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob gweithiwr fynediad cyfartal at dâl a buddion, cyfleoedd ymsefydlu, dysgu a datblygu, cyfrifoldebau ychwanegol, secondiadau,

swyddi gwag mewnol, trafodaethau perfformiad a datblygu, a chyfleoedd ar gyfer dilyniant gyrfa.

Bydd penderfyniadau cyflogaeth sy'n ymwneud â thâl, datblygu, dilyniant a mynediad at gyfleoedd yn seiliedig ar ystyriaethau gwrthrychol a pherthnasol. Rhaid i reolwyr allu esbonio a darparu tystiolaeth ynghylch penderfyniadau arwyddocaol, yn enwedig pan fyddant yn effeithio ar ddatblygiad, dilyniant neu fynediad gweithiwr at gyfleoedd.

Bydd gofal yn cael ei gymryd i sicrhau nad yw arferion gweithio anffurfiol yn creu rhwystrau neu anghydraddoldebau anfwriadol. Ni ddylai ffactorau fel gweledded, patrwm gweithio neu leoliad gwaith unigolyn ddylanwadu ar fynediad at gyfleoedd datblygu a dilyniant, oni bai bod y rhain yn wirioneddol berthnasol i'r cyfle dan sylw.

## 7. Anabledd, addasiadau rhesymol a chymorth yn y gweithle

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i gael gwared ar rwystrau a brofir gan ymgeiswyr a gweithwyr anabl a bydd yn cydymffurfio â'i ddyletswydd gyfreithiol i wneud addasiadau rhesymol pan fo person anabl dan anfantais sylweddol.

Bydd yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a gallant gynnwys addasiadau neu newidiadau mewn perthynas â:

- trefniadau gwaith, oriau neu ddyletswyddau penodol
- lleoliadau gwaith neu weithfannau
- offer, meddalwedd neu gymhorthion ategol
- Cyrchu a derbyn gwybodaeth
- trefniadau recriwtio, hyfforddi neu asesu
- goruchwyliaeth neu gefnogaeth
- polisïau ac arferion gwaith.

Bydd ceisiadau yn cael eu hystyried ar sail unigol ac, lle bo hynny'n briodol, mewn ymgynghoriad â'r person dan sylw. Gall ystyriaethau perthnasol gynnwys effeithiolrwydd ac ymarferoldeb yr addasiad arfaethedig, y gost a’r adnoddau sydd ar gael, effaith weithredol ac argaeledd cymorth allanol.

Nid oes angen diagnosis ffurfiol ar weithiwr o reidrwydd cyn trafod cymorth yn y gwaith. Pan fo digon o wybodaeth ar gael, gellir ystyried mesurau interim neu gefnogol tra yn y broses o gael asesiad meddygol, cyngor Iechyd Galwedigaethol neu wybodaeth berthnasol arall.

Rhaid i reolwyr beidio â gwneud rhagdybiaethau am alluoedd neu anghenion unigolyn. Dylid cofnodi ac adolygu addasiadau y cytunwyd arnynt yn briodol pan fydd amgylchiadau'n newid.

Mae canllawiau pellach ar gael drwy ganllawiau Polisi Addasu yn y Gweithle a'r Pasbort Addasu yn y Gweithle yr Awdurdod.

## 8. Atal aflonyddu, erledigaeth ac ymddygiad annerbyniol

Mae gan bawb yr hawl i weithio mewn amgylchedd lle maent yn cael eu trin gydag urddas a pharch.

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i atal bwlio, aflonyddu ac erledigaeth a bydd yn cymryd camau rhagweithiol a chymesur i nodi a lleihau risgiau rhagweladwy.

Mae natur gwaith yr Awdurdod yn golygu y gall risgiau godi mewn ystod o wahanol leoliadau.

Bydd pryderon a chwynion yn cael eu hystyried gan ystyried yr amgylchedd gwaith, natur y rhyngweithio, unrhyw anghydbwysedd pŵer gwirioneddol neu ganfyddedig, ac a oedd contractwyr, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr neu drydydd partïon eraill yn gysylltiedig.

Gellir ystyried cwynion blaenorol neu batrymau ymddygiad amhriodol hefyd lle bo'n berthnasol.

**Atal aflonyddu rhywiol ac aflonyddu trydydd parti**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i atal aflonyddu rhywiol ac aflonyddu gan drydydd partïon. Bydd yn asesu risgiau perthnasol yn rheolaidd ac yn cymryd mesurau rhesymol a chymesur i atal ymddygiad o'r fath. Pan fydd gweithwyr yn destun aflonyddu yn ystod eu cyflogaeth, gan gynnwys gan gontractwyr, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr neu drydydd partïon eraill, bydd yr Awdurdod yn cymryd camau priodol ac yn ceisio sicrhau bod mesurau ataliol effeithiol ar waith.

Felly, bydd yr Awdurdod yn cadw risgiau aflonyddu rhywiol ac aflonyddu trydydd parti dan adolygiad gweithredol ac yn cymryd mesurau ataliol sy'n briodol i'w amgylchedd gwaith.

Mae hyn yn cynnwys ystyried risgiau sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n wynebu'r cyhoedd, gweithio unigol, ymweliadau safle a gwaith maes, digwyddiadau cymdeithasol sy'n gysylltiedig â gwaith, cynadleddau ac aros dros nos, cyfathrebu ar-lein, contractwyr, defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr a thrydydd partïon eraill.

Disgwylir i gontractwyr, ymgynghorwyr, gweithwyr asiantaeth a thrydydd partïon eraill a gyflogir gan yr Awdurdod gydymffurfio â'r safonau ymddygiad a nodir yn y polisi hwn. Os nad oes gan sefydliad neu unigolyn bolisïau a gweithdrefnau cyfatebol ar waith, bydd yr Awdurdod yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fabwysiadu neu gadw at ei bolisïau a'i safonau ei hun wrth ymgymryd â gwaith ar ei ran.

Mae rheolwyr sy'n ymgysylltu â thrydydd partïon yn cadw'r cyfrifoldeb am sicrhau bod diwydrwydd dyladwy priodol wedi'i gynnal a bod trefniadau diogelu, goruchwylio a monitro addas ar waith trwy gydol yr ymgysylltiad.

Mae diffiniadau manwl, trefniadau adrodd a gweithdrefnau ymchwilio wedi'u cynnwys ym Mholisi Urddas yn y Gwaith, Gwrth-fwlio, Gwrth-aflonyddu a Gwrth-erledigaeth yr Awdurdod.

## 9. Camau Gweithredu cadarnhaol

Pan fo tystiolaeth bod pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig dan anfantais, bod ganddynt anghenion gwahanol, neu nad ydynt wedi'u tangynrychioli, gall yr Awdurdod gymryd camau cadarnhaol cyfreithlon a chymesur i helpu i fynd i'r afael â'r rhwystrau hynny a gwella cyfle cyfartal.

Gall gweithredu cadarnhaol gynnwys mesurau fel ymgyrchoedd recriwtio wedi'u targedu, ymgysylltu â grwpiau cymunedol, mentora, cyfleoedd hyfforddi a datblygu, neu fentrau eraill sydd wedi'u cynllunio i gael gwared ar rwystrau a gwella cyfranogiad.

Nid yw gweithredu cadarnhaol yn golygu rhoi swydd, dyrchafiad neu gyfle arall i rywun dim ond oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig. Bydd penderfyniadau recriwtio, dewis a dyrchafiad fel arfer yn parhau i fod yn seiliedig ar deilyngdod. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau cyfyngedig a ganiateir gan y gyfraith, gellir cymryd camau cadarnhaol lle mae ymgeiswyr yr un mor gymwys a bod gofynion cyfreithiol penodol yn cael eu bodloni.

Rhaid i unrhyw gamau cadarnhaol gael eu cefnogi gan dystiolaeth, bod yn gymesur â'r mater a nodwyd, a chydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010.

## 10. Cyfrifoldebau

Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyfrifoldebau a rennir. Mae gweithredu'r polisi hwn yn effeithiol yn gofyn am arweinyddiaeth weladwy ochr yn ochr ag atebolrwydd unigol.

**Mae'r Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth** yn gyfrifol am drosi'r polisi hwn yn flaenoriaethau ac yn weithrediadau sefydliadol, sicrhau bod adnoddau cymesur ar gael, adolygu gwybodaeth a risgiau perthnasol i'r gweithlu, mynd i'r afael â gwahaniaethau sylweddol neu rwystrau systemig, a sicrhau bod rheolwyr yn cael cymorth a hyfforddiant priodol.

**Mae gan reolwyr** gyfrifoldeb arbennig am greu amgylchedd gwaith cynhwysol a chymhwyso polisïau cyflogaeth yn deg ac yn gyson. Disgwylir iddynt wneud a chofnodi penderfyniadau gwrthrychol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth; nodi a herio ymddygiad gwahaniaethol neu eithriadol; ymateb yn brydlon i bryderon; ystyried cymorth yn y gweithle ac addasiadau rhesymol; cadw cyfrinachedd cyn belled ag y bo'n rhesymol; ceisio cyngor adnoddau dynol lle bo hynny'n briodol; a chwblhau'r hyfforddiant gofynnol.

**Bydd Adnoddau Dynol** yn darparu cyngor ar gydraddoldeb, cyfraith cyflogaeth ac arfer da ac yn cefnogi gweithwyr a rheolwyr i gymhwyso'r polisi hwn. Bydd AD yn cydlynu gweithredu ac adolygu polisi, cefnogi monitro a dadansoddi cydraddoldeb, nodi tueddiadau a risgiau sefydliadol, cynghori ar addasiadau rhesymol a gweithredu cadarnhaol, adolygu polisïau AD perthnasol ar gyfer cysondeb ac argymell camau gwella priodol i uwch arweinwyr.

Mae AD yn darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi gwneud penderfyniadau; fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am wneud penderfyniadau rheoli a gweithredu yn parhau gyda'r rheolwr perthnasol.

**Disgwylir i weithwyr a phawb arall a gwmpesir gan y polisi hwn** drin eraill gydag urddas a pharch, cydymffurfio â'r polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig, cymryd rhan mewn hyfforddiant perthnasol, ystyried effaith eu hymddygiad, cydweithredu ag ymchwiliadau rhesymol a chodi pryderon yn briodol. Ni ddylai unrhyw un erledigaeth neu ddial yn erbyn person sy'n codi neu'n cefnogi pryder mewn ewyllys da.

Gellir trin methiant i gymryd camau priodol ar ôl dod yn ymwybodol o wahaniaethu, aflonyddu, bwlio neu ymddwyn yn amhriodol arall fel mater sydd a wnelo ymddygiad a mynd i'r afael â nhw o dan weithdrefnau disgyblu'r Awdurdod.

## 11. Codi ac ymateb i bryderon

Anogir unrhyw un sy'n credu eu bod wedi profi neu fod yn dyst i wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth neu dorri arall y polisi hwn i godi'r mater cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gellir codi pryderon gyda rheolwr llinell, rheolwr priodol arall, Adnoddau Dynol neu gynrychiolydd undeb llafur cydnabyddedig.

Lle bo hynny'n briodol, a phan fo'r person sy'n codi'r pryder yn dymuno gwneud hynny, gellir mynd i'r afael â'r mater yn anffurfiol. Ni fydd datrysiad anffurfiol yn addas ym mhob sefyllfa ac nid yw'n ofyniad cyn y gellir gwneud cwyn ffurfiol.

Bydd cwynion ffurfiol fel arfer yn cael eu hystyried o dan Weithdrefn Cwyno neu Bolisi Urddas yn y Gwaith, Gwrth-Fwlio, Gwrth-Aflonyddu a Gwrth-Erledigaeth yr Awdurdod. Pan fo'r amgylchiadau'n cynnwys camymddwyn posibl, gall y Weithdrefn Disgyblu hefyd fod yn berthnasol.

Bydd materion yn cael eu trafod yn brydlon, yn ddiduedd ac yn sensitif, mor gyfrinachol â phosibl, a gan berson heb unrhyw wrthdaro buddiannau perthnasol.

Bydd unrhyw ymchwiliad neu broses ffurfiol arall yn cael ei gynnal yn unol â gweithdrefn yr Awdurdod perthnasol.

Bydd yr Awdurdod yn ceisio cadw cyfrinachedd cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, er efallai y bydd angen rhannu gwybodaeth gyda'r rhai sy'n ymwneud ag asesu, ymchwilio neu ddatrys y mater. Bydd y person sy'n codi'r pryder yn cael ei hysbysu o'r canlyniad i'r graddau sy'n briodol, tra'n parchu hawliau preifatrwydd a chyfrinachedd eraill.

Disgwylir i unigolion sy'n ymwneud â phryder, cwyn neu ymchwiliad gadw cyfrinachedd a pheidio â datgelu gwybodaeth yn ddiangen, tra'n cydnabod y gallant geisio cymorth gan gynrychiolydd undeb llafur, cydweithiwr yn y gweithle neu ffynhonnell gymorth briodol arall.

Ni fydd unrhyw un yn destun erledigaeth oherwydd eu bod wedi codi pryder, wedi cefnogi person arall neu wedi cymryd rhan mewn ymchwiliad mewn ewyllys da. Ni fydd honiad nad yw'n cael ei gadarnhau, ynddo'i hun, yn cael ei ystyried yn ffug nac yn faleisus. Pan ddarganfyddir bod honiad yn fwriadol ffug neu'n faleisus, gellir ystyried hyn o dan y Weithdrefn Ddisgyblu.

## 12. Torri rheolau’r polisi hwn

Bydd torri rheolau honedig o'r polisi hwn yn cael eu hystyried yn deg o dan weithdrefn briodol yr Awdurdod. Ni wneir unrhyw ragdybiaethau am honiad, a bydd unrhyw gamau ffurfiol yn cael eu cymryd yn unol â gweithdrefnau sefydledig ac egwyddorion cyfiawnder naturiol.

Gall gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, dial, rhwystro addasiad rhesymol yn fwriadol neu fethiant difrifol i gydymffurfio â'r polisi hwn fod yn gamymddygiad. Gall achosion difrifol fod yn gamymddwyn difrifol a gallent arwain at ddiswyddo.

Pan fo pryderon yn ymwneud â chontractwr, ymgynghorydd, gwirfoddolwr, gweithiwr asiantaeth neu drydydd parti arall, bydd yr Awdurdod yn ystyried camau priodol o fewn y fframwaith cyfreithiol a chontractiol perthnasol. Yn dibynnu ar yr amgylchiadau, gallai hyn gynnwys gofyn am gamau adferol, cyfyngu ar fynediad i adeiladau neu weithgareddau'r Awdurdod, neu roi terfyn ar aseiniad neu drefniant cytundebol.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod na fydd rhyngweithiadau, penderfyniadau cyflogaeth a chamau rheoli bob amser yn cael eu hystyried yn yr un ffordd gan bawb sy'n gysylltiedig. Nid yw bodolaeth cwyn, pryder neu anghytundeb ynddo'i hun yn dangos bod y polisi hwn wedi'i dorri. Bydd pob mater yn cael ei ystyried yn wrthrychol, yn deg ac yng nghyd-destun y ffeithiau a'r amgylchiadau perthnasol.

## 13. Polisïau, gweithdrefnau a chanllawiau cysylltiedig

Ategir y polisi hwn gan bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau canlynol yr Awdurdod:

- Gwerthoedd craidd yr awdurdod;
- Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Awdurdod;
- Polisi urddas yn y gwaith, gwrth-fwlio, gwrth-aflonyddu a gwrth-erledigaeth;
- Canllawiau Polisi Addasu Gweithle a Phasbort Addasu Gweithle;
- Gweithdrefn Cwyno;
- Gweithdrefn ddisgyblu;
- Polisi Recriwtio, Dethol ac Ymsefydlu;
- Polisi Gweithio Hyblyg;
- Defnydd mewnol o drefniadau Polisi'r Gymraeg a Safonau'r Gymraeg;
- Polisi seinio rhybudd / chwythu'r chwiban;
- Polisi Diogelu Data;
- Polisi Diogelu;
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol; a
- Chanllawiau Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

Mae'r dogfennau a restrir uchod yn darparu gweithdrefnau a chanllawiau manylach lle bo hynny'n briodol. Mae'r polisi hwn yn sefydlu ymrwymiad a disgwyliadau trosfwaol yr Awdurdod mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewn cyflogaeth.

Bydd yr Awdurdod yn adolygu'r polisi hwn a'i arferion cyflogaeth a bydd yn gwneud diwygiadau priodol pan fydd deddfwriaeth, canllawiau statudol, Codau Ymarfer neu safonau cymwys yn newid.

**Eitem Rhif 11**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 11 Tachwedd 2026 |
| **TEITL** | **Adroddiad Cynnydd (Mehefin 2026), Cynllun Yr Wyddfa** |
| **ADRODDIAD GAN** | Rheolwr Prosiect Partneriaethau |
| **PWRPAS** | • Cyflwyno Adroddiad Cynnydd i'r Aelodau, flwyddyn wedi lansio fersiwn ddiwygiedig o *Gynllun Yr Wyddfa*.<br>• Hysbysu'r Aelodau o'r blaenoriaethau dros y flwyddyn nesaf, yn sgil absenoldeb y Rheolwr Prosiect Partneriaethau a'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy, dros gyfnodau mamolaeth. |

## 1. CEFNDIR

Lansiwyd y Cynllun gwreiddiol yn 2018, ac er i ni wneud cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, mae sawl her yn parhau i fodoli. Mae'r Cynllun diweddaraf hwn wedi ei gyd-ddylunio gan fanylu ar sut fydd Partneriaeth Yr Wyddfa yn cyflawni ei hymrwymiad dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar ymdrechion blaenorol ac yn cynnwys addewid newydd i'r mynydd. Mae'n amlinellu'r canlyniadau gorau posibl, yn nodi'r canlyniadau o fewn cyrraedd, ac yn cyflwyno cynllun gweithredu manwl gyda phrosiectau penodol a'r partneriaid perthnasol sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Flwyddyn ers lansio'r Cynllun diwygiedig, diweddariad ar y prosiectau neu'r pwyntiau gweithredu sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad cynnydd yn Atodiad 1 yn unig. I ddarllen am addewid y Bartneriaeth, y canlyniadau gorau posib neu'r canlyniadau o fewn cyrraedd, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun - darllenwch y Cynllun yn ei gyfanrwydd yma.

## 2. ADRODDIAD CYNNYDD

Mae Atodiad 1 yn nodi'r datblygiadau sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn dilyn lansio'r Cynllun diwygiedig nôl ym Mehefin 2026. Mae'r manylion yn y golofn 'Prosiect/Gweithred/Ffordd' o weithio wedi eu nodi fel ag y maent yn nogfen Cynllun Yr Wyddfa, gyda'r golofn ar y dde yn cynnwys diweddariad o ran statws cyflawni.

## 3. BLAENORIAETHAU 2026-2027

Yn sgil absenoldeb mamolaeth Rheolwr Prosiect Partneriaethau a'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy, rhoddwyd trefniadau staffio mewn lle a blaenoriaethwyd pa brosiectau i'w gweithredu dros y flwyddyn nesaf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei rannu rhwng y ddau Swyddog Twristiaeth Cynaliadwy (Cyfnod Mamolaeth) sydd wedi eu penodi.

Y blaenoriaethau hynny yw:

- **Parhau gyda'r gwaith o ddatblygu ap *Rhoi***: Datblygu ap a phlatfform newydd sy'n rhoi cyfle i drigolion ac ymwelwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol cadarnhaol, gwneud dewisiadau sy'n cyfrannu'r gadarnhaol tuag at Eryri, a chael eu gwobrwyo gyda gwobrau apelgar gan fusnesau lleol. Bydd yr ap yn barod i'w phrofi dros haf 2026 gyda'r lansiad llawn i ddigwydd cyn Pasg 2027.
- **Dadansoddi arolwg Yr Wyddfa (ar-lein)**: Dadansoddi a chyflwyno'r data.
- **Arolwg arosiadau dros nos mewn mannau anawdurdodedig**: Cydlynu'r arolwg gan weithio ar draws adrannau o fewn y Parc.
- **Cynnal astudiaeth desg**: Datblygu astudiaethau achos sy'n dangos sut mae rhoddion gan ddigwyddiadau mewn ardaloedd amrywiol, wedi buddsoddi yn yr amgylchedd (digwyddiadau wedi eu trefnu yn rhoi yn ôl).
- **Cydlynu prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig**: Parhau i oruchwylio'r prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig gan anelu tuag at y targedau o ran cyrraedd y statws.
- **Goruchwylio ap Llwybrau'r Wyddfa**: Sicrhau bod yr ap yn gweithredu'n effeithiol, bod unrhyw faterion yn cael eu datrys yn brydlon, ymateb i ymholiadau, a chefnogi'r Adran Gyllid gyda'r agweddau ariannol.
- **Llysgennad Eryri**: Cefnogi'r Cydlynydd Cyfathrebu a Phartneriaethau gyda rhaglen Llysgennad Eryri gan gynnwys adolygu a golygu'r cynnwys, anfon tystysgrifau, ac ymateb i ymholiadau.
- **Cydlynu gwefannau Partneriaeth Yr Wyddfa a Her y Tri Chopa**: Cynnal a chadw'r safleoedd gan ddiweddaru unrhyw gynnwys yn ôl yr angen.
- **Bod y prif gyswllt ar ran y Parc gyda *Just Park***: Pasio unrhyw bryderon neu sylw gan saff y meysydd parcio, ymlaen i Just Par a monitro'r wefan gan sicrhau fod unrhyw wybodaeth yn cael ei addasu yn ôl yr angen.
- **Mynychu cyfarfodydd**: Cyfarfodydd mewnol e.e. Grŵp rheoli ymwelwyr, Grŵp mewnol trafnidiaeth; ag allanol e.e. Fforwm uchelgais gogledd Cymru, Grŵp trafnidiaeth Parciau Cenedlaethol y DU.

## 4. ARGYMHELLIAD

1. Derbyn yr Adroddiad Cynnydd fel diweddariad o'r gwaith, flwyddyn ers lansio'r cynllun diwygiedig ac adnabod y cynnydd sydd wedi ei gyflawni.
2. Derbyn fod angen addasu a blaenoriaethu gwaith dros y flwyddyn nesaf yn sgil absenoldeb mamolaeth Rheolwr Prosiectau Partneriaethau â'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy.

# Adroddiad cynnydd Cynllun Yr Wyddfa

Mehefin 2026



## 1. Cefndir

Lansiwyd y Cynllun gwreiddiol yn 2018, ac er i ni wneud cynnydd sylweddol mewn rhai meysydd, mae sawl her yn parhau i fodoli. Mae'r Cynllun diweddaraf hwn wedi ei gyd-ddylunio gan fanylu ar sut fydd Partneriaeth Yr Wyddfa yn cyflawni ei hymrwymiad dros y pum mlynedd nesaf. Mae'n adeiladu ar ymdrechion blaenorol ac yn cynnwys addewid newydd i'r mynydd. Mae'n amlinellu'r canlyniadau gorau posibl, yn nodi'r canlyniadau o fewn cyrraedd, ac yn cyflwyno cynllun gweithredu manwl gyda phrosiectau penodol a'r partneriaid perthnasol sy'n gyfrifol am eu cyflawni.

Flwyddyn ers lansio'r Cynllun diwygiedig, dim ond diweddariad ar y prosiectau neu'r pwyntiau gweithredu y mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ei gynnwys. I ddarllen am addewid y Bartneriaeth, y canlyniadau gorau posib neu'r canlyniadau o fewn cyrraedd, sydd wedi eu nodi yn y Cynllun - darllenwch y Cynllun yn ei gyfanrwydd yma.

## 2. Cynnydd

Mae'r cynnydd sy'n cael ei nodi isod, wedi digwydd ers lansio'r Cyllun diwygiedig (Mehefin, 2026).

**Sylwer** fod y rhifau yng ngholofn *Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio* wedi eu nodi fel ag y maent yn nogfen Cynllun Yr Wyddfa, ac nid ydynt yn dilyn yr un drefn fformat â'r ddogfen hon.

### 2.1 Ecosystem Yr Wyddfa

| Prosiect / Gweithred / Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 1.1.1<br><br>Trafod gyda chynhyrchwyr, tirfeddianwyr a'r undebau am y posibilrwydd o greu statws 'Yr Wyddfa' ar gynnyrch, a fyddai'n cyfrannu tuag at warchod yr ecosystem. | Dim datblygiad eto. Serch hynny, bydd y mater hwn yn cael ei drafod fel rhan o adolygu Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol. |

| | |
|---|---|
| 1.1.2<br><br>Grymuso a chefnogi ffermwyr i gyfrannu'n weithredol at gynnal a gwella'r ecosystem. | O dan y cynllun Ffermio Bro, mae'r gwaith isod wedi ei ariannu hyd yma yn y flwyddyn ariannol hon o fewn ardal prosiect Cynllun Yr Wyddfa, gyda cheisiadau eraill wrthi yn cael eu datblygu ar hyn o bryd.<br><br>• Perthi – coleri GPS i ail gyflwyno gwartheg i'r mynydd.<br>• Wernlas Deg - coleri GPS i ail gyflwyno gwartheg i'r mynydd.<br>• Hafod Lydan - datblygu coridor nant llydan a phlannu coed i warchod ansawdd dŵr a chynyddu bioamrywiaeth.<br>• Gwastadanas - wal a ffens a chorlan wartheg i gynnal mwy o bori cynaliadwy ar y mynydd. |
| 1.1.3<br><br>Rhannu arferion da a hyrwyddo'r newidiadau bychain a all ddigwydd sydd yn cynnig buddion i'r ecosystem a hyrwyddo'r gwaith da mae amaethwyr yn ei gyflawni yn barod. | Mae ymgyrch cynnwys digidol rhwng APCE, yr FUW ac NFU Cymru wedi ei ddatblygu, i amlygu materion amaethyddol o fewn y Parc. Cynnwys i gael ei rannu dros dymor haf 2026.<br><br>Fel rhan o waith Tlysau Mynydd Eryri (Plantlife Cymru), mae ffens wedi ei godi ar ochrau'r cledrau ar waelod Clogwyn Coch ar gyfer rheoli pori dros gyfnod deor chwilen yr enfys. Bydd angen trafodaeth ynglŷn â phwy fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r ffens i'r dyfodol. Mae bwriad gan Dlysau Mynydd Eryri/Plantlife i osod rhywfaint o ddehongli ar y ffens.<br><br>Bydd Sw Mynydd Cymru Bae Colwyn yn arwain prosiect y chwilen o hyn ymlaen, yn dilyn gwaith gwych gan Palntlife Cymru i'w sefydlu. Mae cynlluniau arloesol ar y gweill i dreialu ci arbenigol sydd wedi ei hyfforddi i arogli'r chwilen, mewn cydweithrediad â fferm Gwastadanas, Plantlife Cymru a Sw Mynydd Cymru. |
| 1.2.1<br><br>Pwyslais sylweddol ar addysgu'r cyhoedd fod Yr Wyddfa yn cynnwys sawl dynodiad amgylcheddol | Mae Adran Gyfathrebu APCE yn cydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar ffilm a fydd yn amlygu'r dynodiadau amrywiol ar Yr Wyddfa, beth maent yn ei warchod ac unrhyw waharddiadau perthnasol. |

| | |
|---|---|
| gyda'r warchodaeth uchaf posib. | Rhagwelir y bydd yn cynnwys yn barod ar gyfer ei rannu dros dymor haf 2026. |
| 1.2.2<br><br>Gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd am yr heriau sy'n wynebu'r ecosystem fregus. | Bydd Adran Gyfathrebu APCE yn ail-rannu cyfres o *Flogiau* Yr Wyddfa dros dymor yr haf 2026, gan gynnwys pigion byrion sy'n amlygu'r prif negeseuon o ran ymweld yn gyfrifol a gwarchod yr ecosystem.<br><br>Bydd ymgyrch ar y cyd rhwng APCE, yr FUW ac NFU Cymru yn digwydd dros dymor yr haf i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd cadw at y Côd Cefn Gwlad, gyda phwyslais ar bwysigrwydd dilyn cyngor swyddogol ar reoli cŵn.<br><br>Bydd ail gyfres gyda'r Warden Dafydd Eryl a'r Uwch Warden Simon Roberts yn cael ei chreu yn amlygu sut i ymweld yn gyfrifol mewn modd sy'n gwarchod yr ecosystem. |
| 1.2.3<br><br>Cynnwys gwybodaeth am amaethu mewn cyfathrebiadau pan yn briodol e.e. amlygu fod y tir yn dir amaethyddol gyda phobl yn ceisio gwneud bywoliaeth arno. | Parhaus. |
| 1.2.4<br><br>Mae ymdrechion ar y cyd yn canolbwyntio ar reoli a gwaredu rhywogaethau ymledol i amddiffyn bioamrywiaeth leol. | Parhaus. |
| 1.2.5<br><br>Archwilio cyfleoedd ymchwil ar y cyd posibl gyda phartneriaid arbenigol sy'n annog trigolion a defnyddwyr y mynydd i wirfoddoli a chymryd rhan mewn | Trafodaethau cychwynnol wedi mynd rhagddynt ar y posibilrwydd o waith ar y cyd rhwng Cyfoeth ac APCE, i gynnig cyfleoedd gwirfoddoli arbenigol yn safle'r ECN ar Yr Wyddfa.<br><br>Mae'r prosiect ap twristiaeth yn mynd rhagddo; bydd yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol ac yn |

| | |
|---|---|
| monitro amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar newid hinsawdd a datblygu mesurau i warchod cynefinoedd alpaidd ac ardaloedd sensitif eraill. | gwobrwyo gwirfoddolwyr am eu hymdrechion. Mae'r gwaith o gynllunio'r cyfleoedd gwirfoddoli a'r gwobrau yn parhau law yn llaw â mentrau, cymdeithasau a busnesau lleol. Bydd y cynnig hwn ar ffurf ap gyda chyfnod profi yn digwydd dros haf 2026 yn dilyn penodiad llwyddiannus cwmni arbenigol mewn proses dendro, i greu'r ap. Gobeithir lansio'r ap i'r cyhoedd cyn y Pasg 2027. |
| 1.2.6<br><br>Asesu newid hinsawdd ar safle'r Rhwydwaith Newid Amgylcheddol (ECN). Cefnogi monitro parhaus o rywogaethau sy'n gysylltiedig â newid hinsawdd drwy ymdrechion gwirfoddol, gan gynnwys monitro gloÿnnod byw, glaw, tymheredd, a dangosyddion allweddol eraill. | Gweler uchod. |
| 1.3.1<br><br>Parhad a datblygiad y prosiect Yr Wyddfa Ddi-blastig. | Parhau i anelu tuag at gyflawni'r targedau sydd wedi eu sefydlu er mwyn cyrraedd y statws Mynydd Di-blastig. Gweler y targedau yn y Cynllun. |
| 1.3.2<br><br>Parhau i dreialu ffyrdd arloesol i gael gwared â nifer sylweddol o sbwriel o'r Wyddfa ac annog busnesau i gyflwyno eu syniadau eu hunain o ran lleihau gwastraff. | Parhaus.<br><br>Bydd y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy (cyfnod mamolaeth) yn edrych ar opsiynau posib dros y misoedd nesaf ac yn cynnig syniadau.<br><br>Glanhau'r Wyddfa - yn mynd o'r gwaelod i fyny eleni gyda dringwyr arbenigol proffesiynol yn dringo Clogwyn y Garnedd i ryddhau sbwriel hanesyddol. |
| 1.3.3<br><br>Sicrhau fod busnesau ardal Yr Wyddfa yn cydymffurfio gydag unrhyw ofynion amgylcheddol. | Mae menter Yr Wyddfa Ddi-blastig yn parhau i annog busnesau bro'r Wyddfa i fod yn rhan o'r prosiect, gyda'r gwaith yn mynd i fod o dan ofal y Swyddog |

| | |
|---|---|
| | Twristiaeth Gynaliadwy (cyfnod mamolaeth) am gyfnod penodol.<br><br>Gweler hefyd pwynt 1.3.1. |
| 1.3.4<br><br>Cefnogi unrhyw gynlluniau sy'n annog ailddefnyddio a lleihau gwastraff e.e. siop gyfnewid (swop shop) neu ddigwyddiadau trwsio. | Ychydig o waith cwmpasu wedi ei wneud o dan fenter Yr Wyddfa Ddi-blastig, ond dim datblygiadau neu ddiweddariadau pellach. Mae'n debygol y bydd y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy (cyfnod mamolaeth) yn ailedrych ar hwn dros y flwyddyn nesaf. |
| 1.4.1<br><br>Cydweithio i leihau achosion o gampio anghymdeithasol a chysgu dros nos mewn lleoliadau anawdurdodedig, gan gynnwys cilfannau, mewn cerbydau megis ceir, faniau gwersylla neu bebyll ar doeau ceir. | Dros yr haf 2026, bydd APCE yn cynnal arolwg ar arosiadau dros nos mewn mannau anawdurdodedig. Bydd y canlyniadau yn cael eu hystyried gan adolygiad Cynllun Eryri a'r Cynllun Datblygu Lleol ac o gymorth i APCE, Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Conwy yn eu hymdrechion i liniaru effeithiau negyddol arosiadau o'r fath. |
| 1.4.2<br><br>Cyfleoedd gwirfoddoli. | Mae cyfleoedd gwirfoddoli gyda'r Parc yn parhau ac yn ehangu drwy gynlluniau fel Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a Charu Eryri. Mae eu gwaith yn amhrisiadwy ac yn cyfrannu'n sylweddol at ymdrechion yr Awdurdod i gyflawni ei bwrpasau.<br><br>Yn ystod 2025, cofnodwyd y ffigyrau isod gan wirfoddolwyr Caru Eryri a Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa:<br><br>• 1094 o fagiau o sbwriel wedi ei gasglu a'i waredu'n gyfrifol<br>• 1535.86 kg<br>• 3982 o oriau gwirfoddol<br><br>Gweler hefyd 1.2.5. |

2.2 Treftadaeth ddiwylliannol

| Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 2.1.1<br><br>Cynnal trafodaethau a sefydlu partneriaethau newydd i sefydlu beth sydd angen ei warchod, a sut. | Dim diweddariad. Bydd Rheolwr Prosiect Partneriaethau â Phennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn ailedrych ar y weithred hon pan fydd y Rheolwr Prosiect yn dychwelyd i'r gwaith yn dilyn cyfnod mamolaeth. |
| 2.2.1<br><br>Mae enwau lleoedd Cymraeg, gan gynnwys eu hystyr a'u hynganiad, yn cael eu cyfleu'n eang i ddefnyddwyr, gan wella eu cysylltiad â hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. | Parhaus. |
| 2.2.2<br><br>Annog defnydd o'r enwau Cymraeg a chefnogi hynny drwy gyfrwng hyfforddiant a rhannu gwybodaeth. | Mae hyn yn digwydd i ryw raddau drwy gynlluniau amrywiol e.e. Rhaglen Llysgennad Eryri. Dim diweddariad pellach ar unrhyw hyfforddiant penodol arall. |
| 2.3.1<br><br>Cyfleu'r neges fod treftadaeth yn eiddo i bawb, felly bod dyletswydd ar bawb i'w hamddiffyn. | Dim diweddariad penodol. |
| 2.3.2<br><br>Addysgu plant a phobl ifanc am y dreftadaeth ddiwylliannol trwy Gwricwlwm Cymru. | Mae sesiynau Ceidwaid Ifanc wedi eu trefnu gyda mwy o ffocws ar y dreftadaeth.<br><br>Angen trafodaeth bellach rhwng y Swyddog Pobl Ifanc a Phennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. |

| | |
|---|---|
| 2.3.3<br><br>Diwylliant y dyfodol. Gweithio gyda phobl ifanc i ddadansoddi beth yw diwylliant bro'r Wyddfa heddiw. | Prosiect hirdymor posib angen ei gynllunio ar y cyd rhwng GwyrddNi ac APCE. Swyddogion perthnasol: Swyddog Cymunedol, Swyddog Pobl Ifanc a Phennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. |
| 2.3.4<br><br>Gwella dealltwriaeth y cyhoedd o bwysigrwydd cenedlaethol y dreftadaeth ddiwylliannol. | Dim diweddariad eto. Hyn i ddilyn 2.1.1. |
| 2.3.5<br><br>Archwilio cyfleoedd i gydweithio i gefnogi, datblygu, a sicrhau cyllid ar gyfer prosiect ymchwil Olrhain Olion. | Mae arddangosfa Olrhain Olion, a lansiwyd yng Nghanolfan Ymwelwyr Betws-y-coed ym mis Mawrth 2025, yn ystyried gorffennol, presennol a dyfodol y mynydd drwy Lyfrau Ymwelwyr o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>Fel rhan o lansio'r arddangosfa, cymerodd blant o ysgolion cynradd Betws-y-coed, Capel Garmon a Dolwyddelan ran mewn gweithdy barddoniaeth o dan ofal y bard Casia Wiliam. Crëwyd llyfr barddoniaeth am Yr Wyddfa a'i roi'n anrheg i'r disgyblion, gyda'r posibilrwydd y bydd copïau'n cael eu gwerthu yn y canolfannau ymwelwyr.<br><br>Y cam nesaf fydd sefydlu llyfr ymwelwyr cyfoes (gan gynnwys dehongliad) yn Hafod Eryri, mewn cydweithrediad â Rheilffordd Yr Wyddfa (haf 2026). Bydd yr arddangosfa yn canolbwyntio ar annog pobl i "adael ôl (cadarnhaol)" ar Yr Wyddfa drwy gyfrannu at y llyfr ymwelwyr.<br><br>Mae'r dyluniad wedi ei ysbrydoli gan waith y disgyblion. Bydd digwyddiad lansio hefyd yn cael ei gynllunio. Bydd cofnodion yn y llyfr ymwelwyr yn cael eu dadansoddi dros amser. |

## 2.3 Cymunedau

| Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 3.1.1<br><br>Parhau i gyd gynhyrchu gyda'r cymunedau. | Dim diweddariad penodol. |
| 3.2.1<br><br>Atgyfnerthu'r cysylltiad rhwng cymunedau a bywyd gwyllt y mynydd er mwyn gwella llesiant unigolion ac ennyn parch at yr ecosystem. | Dim diweddariad. |
| 3.2.2<br><br>Cymunedau'r mynydd yn teimlo fod ganddynt fynediad i allu mwynhau'r Wyddfa. | Dim diweddariad. |
| 3.2.3<br><br>Ymgymryd â gwaith pellach i ddeall pwy sy'n ymgysylltu gyda'r Wyddfa, a'r rhwystrau y gall unigolion eu hwynebu. | Ym mis Ionawr 2026, cynhaliwyd gweithdy Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant gyda phartneriaid allweddol sy'n cynrychioli ystod eang o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn Eryri. Roedd y gweithdy yn gyfle i ddeall yn well anghenion a rhwystrau posibl unigolion wrth ymgysylltu ag Eryri ac Yr Wyddfa, ac i gyd-ddrafftio datganiad o fwriad a fydd yn llywio'r gwaith hwn yn y dyfodol. |
| 3.3.1<br><br>Annog y cyhoedd, sefydliadau a busnesau i ddefnyddio gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn yr ardal. | Ymgyrch #GwyneddEryriNi ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd ac APCE yn hyrwyddo busnesau bach lleol ac yn annog y cyhoedd i'w cefnogi e.e. cyfres o ffilmiau byrion diweddar wedi ei rhannu'n eang ar wefannau cymdeithasol y ddau sefydliad. |

## 2.4 Gweithgareddau awyr agored

| Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 4.1.1<br><br>Cydweithio gyda Thîm Achub Mynydd Llanberis ac asiantaethau achub eraill er mwyn lleihau'r galwadau a'r pwysau cynyddol ar y timau, drwy gyfrwng Partneriaeth Diogelwch Awyr Agored Gogledd Cymru. | Mae Pennaeth Partneriaethau a Phennaeth yr Adran Wardeinio APCE yn parhau i fynychu cyfarfodydd cyn, ac ar ôl y tymor brig i drafod ymyriadau posib ac i fonitro effeithiau, ar y cyd â Thîm Achub Mynydd Llanberis.<br><br>Mae APCE yn parhau i gynnig cymorth i Dîm Achub Llanberis ar benwythnosau, gyda rota'r Wardeiniaid Gwirfoddol yn cael ei rannu gyda threfnwyr y Tîm Achub i'w hysbysu o bwy sydd ar batrôl ac ar ba lwybr. Diben hyn yw bod y Tîm Achub yn ymwybodol o'r gefnogaeth allan ar y mynydd, rhag ofn y gallai'r Wardeiniaid Gwirfoddol fod o gymorth mewn unrhyw ffordd.<br><br>Mae'r patrôl estynedig yn parhau, gyda chyfle i'r Wardeiniaid Gwirfoddol fynd allan ar batrôl yn hwyrach ar hyd Llwybrau Llanberis a'r Pyg, ar gyfer cefnogi unigolion a grwpiau sydd angen cyngor a chymorth yn hwyrach yn y dydd.<br><br>Mae trafodaethau yn parhau o ran y posibilrwydd o dreialu fod y Wardeiniaid Gwirfoddol yn cario radios y Tîm Achub tra ar batrôl ar Lwybr Llanberis. Byddai hyn yn galluogi cysylltiad uniongyrchol rhwng y Tîm Achub â'r Wardeiniaid Gwirfoddol, os yw'r Tîm Achub yn credu y gallai'r gwirfoddolwyr fod o gymorth iddynt, gyda'r bwriad o leihau galwadau diangen. |
| 4.1.2<br><br>Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa. | Mae'r Adran Wardeinio wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy i lunio holiadur i'r Wardeiniaid Gwirfoddol, ar gyfer ei lenwi ar ddiwedd eu patrôl ar y mynydd. Bydd yr holiadur yn casglu gwybodaeth ddiddorol am: faint o sbwriel mae'r Wardeiniaid Gwirfoddol wedi ei gasglu; faint o bobl maent wedi eu cynghori; a pha broblemau a welwyd tra ar batrôl. Y gobaith yw casglu ffigyrau a thystiolaeth i atgyfnerthu cyfraniad a phwysigrwydd y Wardeiniaid Gwirfoddol, ynghyd â chasglu data i |

| | |
|---|---|
| | ddangos pa faterion neu heriau sydd angen ystyriaeth gan yr Awdurdod |
| 4.1.3<br><br>Dadansoddi prif dueddiadau'r galwadau ar Yr Wyddfa a chyd gynllunio ymyriadau effeithiol, o fewn y cylch gwaith a'r adnoddau sydd ar gael. | Mae'r gwaith yma'n digwydd trwy grŵp Partneriaeth Diogelwch Awyr Agored Gogledd Cymru<br><br>Gweler pwynt 4.1.1 uchod. |
| 4.1.4<br><br>Ehangu'r peilot o gael hwb gwybodaeth ar odre Llwybr Llanberis gyda staff ar gael i gynghori defnyddwyr. | Bydd y peilot hwn yn cael ei ymestyn eleni gan gynnwys dyddiau Sul dros wyliau'r haf, gan gynnwys y trefniadau gwreiddiol ar gyfer dyddiau Sadwrn. |
| 4.1.5<br><br>Mynd ar ôl unrhyw gyfleoedd i ehangu presenoldeb staff ar y ddaear. | Yn ogystal â'r Wardeiniaid Ardal bydd Warden Cynorthwyol (penwythnosau) yn patrolio'r llwybrau mwyaf prysur, gan gynghori'r cyhoedd ar ddefnydd diogel a phriodol o'r ardal. Penodwyd hefyd Warden Tymhorol (gogledd Eryri) fydd hefyd ar ddyletswydd ar benwythnosau, gan batrolio'r llwybrau ynghyd a bod yn wyneb i'r Parc yn y fan dehongli.<br><br>Yn ychwanegol at hyn, mae tua 60 Warden Gwirfoddol wedi cofrestru ar gyfer patrolio llwybrau'r Wyddfa ar benwythnosau a dyddiau Mercher. Yn ogystal â chynnig cymorth amhrisiadwy i gadw'r llwybrau'n lân drwy gasglu sbwriel, byddant yn cynghori'r cyhoedd ar amryw o faterion gwahanol, gan gynnwys diogelwch mynydd, gwybodaeth gyffredinol am y llwybrau a'r Côd Cefn Gwlad.<br><br>Yn ystod 2025, esblygodd cynllun Caru Eryri i gynnig shifftiau rheolaidd ar benwythnos gan dargedu'r llwybrau prysuraf yn Eryri yn cynnwys Llwybr Llanberis a Llwybr Watkin. |
| 4.2.1<br><br>Cynyddu'r cyfleoedd addysgiadol yn yr awyr agored. | Y pwynt hwn yn un o ddyletswyddau'r Swyddog Pobl Ifanc. |

| | |
|---|---|
| 4.2.2<br><br>Gweithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i rannu negeseuon am sut i reoli cŵn ar dir amaethyddol. | Bydd ymgyrch ar y cyd rhwng APCE, yr FUW ac NFU Cymru yn digwydd dros dymor yr haf i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â phwysigrwydd cadw at y Côd Cefn Gwlad, gyda phwyslais ar bwysigrwydd dilyn cyngor swyddogol ar reoli cŵn. |
| 4.3.1<br><br>Annog trefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau i osgoi'r cyfnodau brig, cyfnodau â'r mwyaf o alwadau i'r tîm achub a'r tymor nythu (Mai/Mehefin), yn ogystal ag annog digwyddiadau llai a chryfhau'r cyfathrebu yn gyffredinol gyda threfnwyr digwyddiadau. | Adolygwyd canllawiau trefnu digwyddiadau APCE yn ystod 2025 gyda thudalen arbennig wedi ei hychwanegu at wefan yr Awdurdod.<br><br>Mae APCE yn cydweithio ar y cyd â TAMLl i rannu negeseuon gyda'r sector trefnu digwyddiadau e.e. cafwyd gweminar ar y 12fed o Chwefror wedi ei threfnu ar y cyd rhwng APCE, TAMLl a Chyngor Gwynedd.<br><br>Mae APCE yn parhau i gydweithio'n agos gyda Grwpiau Ymgynghorol Diogelwch Gwynedd a Chonwy i graffu ar ddigwyddiadau ac annog gwell trefniadau o ran diogelwch a chynaliadwyedd. |
| 4.3.2<br><br>Ymchwilio i'r posibilrwydd o gael trefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau i roi rhywbeth yn ôl i'r ardal. | Bydd astudiaeth desg yn cael ei wneud gan y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy (cyfnod mamolaeth) dros y flwyddyn nesaf. |
| 4.3.3<br><br>Codi ymwybyddiaeth ymysg trefnwyr digwyddiadau a darparwyr gweithgareddau am bwysigrwydd digwyddiadau cynaliadwy gan gynnwys llonyddwch a thawelwch i fyd natur ac i gymunedau, yn enwedig yn hwyr yn y nos ac yn gynnar yn y bore. | Gweler pwynt 4.3.1. |

| | |
|---|---|
| 4.3.4<br><br>Codi ymwybyddiaeth fod angen cael caniatâd gan dirfeddianwyr a Chyfoeth Naturiol Cymru os ydynt yn cynnal digwyddiad mewn SoDdGA. | Gweler pwynt 4.3.1. |
| 4.3.5<br><br>Cydweithio â darparwyr i sicrhau fod gweithgareddau yn y ceunentydd yn cael eu cynnal mewn ffyrdd cynaliadwy. | Hyrwyddo'r daflen sy'n annog arfer da yn y ceunentydd. |
| 4.3.6<br><br>Parhau i feithrin perthnasau gyda'r sector awyr agored, Parciau Cenedlaethol eraill a sefydliadau cenedlaethol er mwyn cydlynu a rhannu negeseuon ar ddiogelwch, cadwraeth, ac ymweliadau cyfrifol ar draws platfformau. | Parhaus.<br><br>Wedi ailsefydlu Partneriaeth Her y Tri Chopa yn ddiweddar er mwyn diweddaru ac uwchraddio gwefan Her y Tri Chopa. Bydd y wefan yn barod i'w hyrwyddo yn ystod Mehefin/Gorffennaf.<br><br>Grŵp trafnidiaeth holl Barciau Cenedlaethol y DU.<br><br>Grŵp Swyddogion Twristiaeth Cynaliadwy holl Barciau Cenedlaethol y DU.<br><br>Mae Pennaeth yr Adran Gyfathrebu yn parhau i eistedd ar sawl grŵp/fforwm amlasiantaethol ar gyfer cydweithio ar draws y rhanbarth a thu hwnt:<br><br>• Comms Cell Gogledd Cymru<br>• Cyfarfodydd Cyfathrebu Croeso Cymru<br>• Grŵp Cyfathrebu Parciau Cenedlaethol Cymru<br>• Grŵp Cyfathrebu Parciau Cenedlaethol Y DU<br>• Europarks Atlantic Isles |
| 4.4.1<br><br>Ymchwilio i effaith digwyddiadau wedi eu trefnu ar y mynydd a'r | Astudiaeth desg i'w gwblhau dros y flwyddyn nesaf gan Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy (cyfnod |

| | |
|---|---|
| effaith economaidd ar yr ardal. | mamolaeth). Cydweithio gyda Chyngor Gwynedd gan fod y gwaith wedi ei ddechrau. |
| 4.4.2<br><br>Ymchwilio i'r cyfleoedd i gydweithio a chreu perthnasau newydd gyda sefydliadau perthnasol i rannu negeseuon amrywiol. | Parhaus.<br><br>Fel rhan o brosiect ap twristiaeth gynaliadwy APCE, mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda banc Natwest, drwy eu rhaglen i gefnogi mentrau cymunedol Cymreig<br><br>Mae cynlluniau ar y gweill gan Adran Gyfathrebu APCE i greu cynnwys ar y cyd gyda dylanwadwyr Cymraeg, yng nghyswllt ymweld â'r Wyddfa, gyda'r bwriad o ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd newydd.<br><br>Bydd APCE yn parhau i ddatblygu'r berthynas gyda Phrifysgol Bangor a'r Adran Newid Ymddygiad, i gymhwyso fframwaith COM-B - model newid ymddygiad sy'n canolbwyntio ar Allu, Cyfle, a Chymhelliant fel gyrwyr ymddygiad. Gobeithir edrych yn fanylach ar fater y sbwriel ar Yr Wyddfa, ynghyd â'r diffyg paratoi ymhlith rhai ymwelwyr cyn iddynt gyrraedd y mynydd, gan gynnig atebion ymarferol i fynd i'r afael â'r ddwy her benodol yma.<br><br>Fel gwaith cefndirol ar gyfer y prosiect ap twristiaeth gynaliadwy, mae'r Rheolwr Prosiect Partneriaethau a'r Swyddog Carbon wedi ymgysylltu gyda Wonderful Copenhagen, i ddysgu mwy am Copenpay - sef y fenter lwyddiannus sydd wedi ysbrydoli'r ap *Rhoi*.<br><br>Talwyd ar gyfer hysbysebu ap Llwybrau'r Wyddfa ar wefan y MetOffice dros Fedi a Hydref 2025. Dim newid i werthiant yr ap o'i gymharu â'r blynyddoedd blaenorol. |
| 4.4.3<br><br>Parhau i gydweithio er mwyn atgyfnerthu negeseuon bioddiogelwch. | Bydd poster newydd ar fioddiogelwch yn cael ei roi mewn toiledau ger llynnoedd ar draws y Parc. |
| 4.5.1<br><br>Cynyddu dealltwriaeth defnyddwyr o beth a ganiateir, a beth sydd yn | Bydd y wybodaeth yma yn cael ei chynnwys yn y *ffilm* dynodiadau sydd ar y gweill ar y cyd rhwng Cyfoeth ac APCE. |

| | |
|---|---|
| waharddedig, ar dir preifat o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000. | |
| 4.5.2<br><br>Parhau i fesur nifer defnyddwyr gan fanteisio ar unrhyw gyfleoedd i wella dealltwriaeth ynghylch niferoedd, a sut mae defnyddwyr yn defnyddio'r ardal. | Gwaith cownteri yn mynd o dan ofal yr Adran Wardeinio dros gyfnod absenoldeb mamolaeth y Swyddog Twristiaeth Gynaliadwy.<br><br>Fersiwn ar-lein o Arolwg Defnyddwyr Yr Wyddfa 2023 bellach wedi ei gynnwys ar wefan APCE er mwyn casglu data parhaus ynglŷn â theimladau defnyddwyr yn dilyn eu hymweliad.<br><br>Cwmni wedi eu penodi i gynnal arolwg ymwelwyr ar draws y Parc dros yr haf hwn. |

**2.5 Isadeiledd**

| Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 5.1.1<br><br>Cydweithio er mwyn gwella cysylltedd mewn cymunedau o fewn ardal y prosiect, ble mae signal ffôn yn wan neu ddim yn bodoli. | Rheolwr Prosiect Partneriaethau yn eistedd ar Fforwm Cysylltedd Uchelgais Gogledd Cymru. |
| 5.1.2<br><br>Arloesi trwy ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf yn safleoedd y Parc sydd o fewn ardal y prosiect, ar gyfer gwella profiad defnyddwyr. | Dim diweddariad. |
| 5.2.1 | Dim diweddariad. |

| | |
|---|---|
| Gwella'r ddarpariaeth o ran toiledau yn ardal Llanberis i sicrhau darpariaeth 24 awr y dydd ac ymchwilio i'r posibiliadau o dreialu toiledau amgen ble mae'n briodol. | |
| 5.2.2<br><br>Ceisio am unrhyw gyfleoedd i ddenu buddsoddiad ar gyfer cyflawni amcanion y Bartneriaeth. | Grant SLSP wedi ei sicrhau ar gyfer prosiect ap twristiaeth gynaliadwy.<br><br>Arian SLSP hefyd wedi ei sicrhau ar gyfer ailwneud y meini mynediad i'r Parc i gynnwys y logo newydd yn ogystal â chomisiynu gwaith datblygu canllaw brand ar gyfer cysoni dehongli yn safleoedd APCE.<br><br>Yn dilyn llwyddiant cais am gefnogaeth ariannol i gronfa Y Pethau Pwysig a weinyddir gan Groeso Cymru, ynghyd â chaniatâd cynllunio, cwblhawyd prosiect gwella darpariaeth cyfleusterau ym maes parcio Llwybr Cwellyn ddechrau 2026.<br><br>Gosodwyd dwy uned doiled hygyrch di-gemeg bwrpasol ar y safle i ddisodli'r toiledau symudol blaenorol.<br><br>Mae APCE yn ddiolchgar iawn i gronfa Y Pethau Pwysig am y cyfraniad ariannol, a ddarparodd gefnogaeth hanfodol ochr yn ochr â buddsoddiad gan Yr Awdurdod. |
| 5.2.3<br><br>Gwella'r isadeiledd yn safleoedd yr Awdurdod pan yn briodol fel ei fod yn addas i bwrpas, yn adlewyrchu nifer y defnyddwyr ac yn arwain at brofiad ymweld o'r radd flaenaf. | Mae cynlluniau ar waith ar gyfer cysoni'r dehongli ar draws safleoedd y Parc Cenedlaethol, gan roi ystyriaeth lawn i safleoedd yn ardal Yr Wyddfa o gysidro'r nifer o ymwelwyr. |
| 5.3.1<br><br>Parhau gyda'r gwaith o gynnal a chadw'r llwybrau i | Gorffennwyd y gwaith o ymestyn y wal ym Mwlch y Moch er mwyn cyfeirio cerddwyr tuag at Lwybr PYG, a |

| | |
|---|---|
| safon uchel er mwyn lleihau effaith erydiad ar gynefinoedd a sicrhau profiad rhagorol i ymwelwyr. | chreu sefyllfa ble mae'n rhaid i gerddwyr wneud penderfyniad ymwybodol i droi yn ôl, a cherdded drwy fwlch cudd yn y wal, os am fynd am Grib Goch.. Mae'r gwaith hwn yn ymateb i'r her ble roedd rhai cerddwyr yn dilyn y llwybr am Grib Goch yn anfwriadol, gan feddwl eu bod yn cerdded tuag at gopa'r Wyddfa. Mae trafodaethau yn mynd rhagddynt i fynd ymlaen i'r trydydd cam o'r gwaith hwn, fydd yn cynnwys gosod cerrig ar wyneb y llwybr i reoli erydiad gan greu llwybr mwy gwydn ac o ansawdd gwell.<br><br>Mae'r gwaith o osod clogfeini ar ddechrau'r llwybr gafr rhwng Crib Goch a Chrib y Ddysgl wedi ei gwblhau. Roedd y gwaith hwn yn brosiect oedd wedi ei adnabod gan Dîm Achub Mynydd Llanberis yn dilyn pryderon am gerddwyr yn dilyn llwybr anghywir (ac eithriadol o beryglus), wrth geisio cerdded am Grib y Ddysgl. Fel datrysiad, cludwydclogfeini drwy'r awyr i gychwyn y llwybr gafr a'ugosod yn gadarn ar y llwybr fel rhwystr i atal cerddwyr rhag ei ddilyn.<br><br>Gwaith arall wedi ei gyflawni ar y Wyddfa yn ystod 2025-26:<br><br>• Atgyweiriad brys i Lwybr Llanberis o Gadair Ellyll i waelod Allt Moses yn dilyn erydiad. Can tunnell o gerrig wedi eu cludo i'r safle gan Reilffordd Yr Wyddfa, gyda chontractwr i'w benodi eleni i atgyweirio'r erydiad ar ben Allt Moses.<br><br>• Gwella draeniau ar Lwybr Rhyd Ddu, drwy Ffridd Uchaf.<br><br>Gwaith sydd wedi'i gynllunio dros y flwyddyn nesaf:<br><br>• Cynnal archwiliad llawn o lwybrau massif Yr Wyddfa, gan asesu pum prif faes: cyflwr y llwybrau, pa waith rhaglenedig sydd ei angen, adnabod pa adnoddau sydd eu hangen, ble a beth i'w flaenoriaethu, a sut i asesu a monitro newidiadau dros amser (ailasesu ymhen 10 mlynedd).<br><br>• Gosod llwybr rhwng pont y rheilffordd a phen Allt Moses. |

| | |
|---|---|
| | • Parhau i symud cerrig i fyny Llwybrau Rhyd Ddu a Llanberis ar gyfer cwblhau'r gwaith y flwyddyn nesaf.<br><br>• Cydlynu rhaglen cynnal a chadw ar gyfer gwirfoddolwyr gan ganolbwyntio ar lwybrau'r Pyg, Mwynwyr a Llanberis.<br><br>• Tîm llwybrau yn parhau gyda'r gwaith cynnal a chadw ar Lwybr Cwellyn a Bwlch Maesgwm.<br><br>• Atgyweiriadau i'r grisiau a'r waliau cynnal o amgylch y copa. |
| 5.4.1<br><br>Parhau gyda'r gwaith o sefydlu Cylchdaith Yr Wyddfa er mwyn creu adnodd fydd yn cysylltu cymunedau ac yn darparu cysylltiadau gwell i lwybrau'r Wyddfa. | Dim diweddariad. |
| 5.5.1<br><br>Ymrwymiad ar lefel strategol i ymdrin â'r heriau parcio a thrafnidiaeth yn ardal Yr Wyddfa ar gyfer y tymor canolig a'r hirdymor. | Mae'r Awdurdod a'i bartneriaid wedi sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gefnogi peilot Bryn Cegin. Serch hynny, mae oedi o ran cadarnhau'r penderfyniad i fwrw ymlaen eleni. Gobeithio y bydd y peilot hwn mewn lle ar gyfer Pasg 2027. |
| 5.5.2<br><br>Ystyried yr opsiynau sydd ar gael i greu lleoliadau parcio a theithio addas ar gyfer Yr Wyddfa, gan beilota unrhyw gynllun os yw'r cyfle yn codi. | Gweler uchod.<br><br>Casglu tystiolaeth ar gyfer adolygiad CDLl Eryri i ystyried os oes angen mwy o ddarpariaeth parcio yn yr ardal. |
| 5.5.3<br><br>Cyfathrebu opsiynau parcio a thrafnidiaeth yn fwy effeithiol. | Bydd yr Adran Gyfathrebu Cyfathrebu yn ailrannu cynnwys digidol addas sydd yn cynnwys gwybodaeth am deithio'n gynaliadwy i, ac o gwmpas ardal Yr Wyddfa. |
| 5.5.4 | |

| | |
|---|---|
| Sicrhau bod buddsoddiad yn Sherpa'r Wyddfa'n parhau a chynnal safonau'r gwasanaeth, gan sicrhau nad yw, ar y lleiafswm yn dirywio. | Cyfarwyddwr APCE i ymgysylltu â Chyngor Gwynedd i drafod y mater hwn. |

## 2.6 Economi

| Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 6.1.1<br><br>Annog y cyhoedd, sefydliadau a busnesau i ddefnyddio gwasanaethau sydd wedi eu lleoli yn yr ardal. | Dim diweddariad. |
| 6.2.1<br><br>Cynnal trafodaethau gydag unrhyw fenter sydd yn awyddus i 'gymunedoli' neu i gadw'r budd yn lleol yn ardal Yr Wyddfa. | Dim diweddariad. |
| 6.3.1<br><br>Darparu llwybr gyrfa ar gyfer pobl ifanc leol sydd eisiau hyfforddi mewn gweithgareddau awyr agored. | Peilotwyd Diwrnod Gyrfa Gwyrdd ym Mhlas Tan y Bwlch yn ystod Mehefin 2026 ar y cyd gyda Gyrfa Cymru fel diwrnod blasu ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 3 yr ardal. Bydd peilot ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 yn digwydd y gaeaf hwn. |
| 6.4.1<br><br>Parhau i weithio tuag at brif amcanion Economi Ymweld Gynaliadwy Gwynedd ac Eryri. | Parhaus. |

## 2.7 Cyfathrebu

| Prosiect/Gweithred/Ffordd o weithio | Diweddariad |
|---|---|
| 7.1.1<br><br>Dylai diogelwch mynydd a pharatoi ymlaen llaw fod yn brif ffocws ar draws holl blatfformau cyfathrebu, gan gyfleu'r neges fod Yr Wyddfa yn fynydd heriol, a bod cynllunio gofalus yn angenrheidiol cyn ymweld. | Bydd yr Adran Gyfathrebu yn ailrannu cynnwys digidol addas sydd yn cynnwys gwybodaeth am ymweld yn gyfrifol, sut a bod yn ddiogel wrth ymweld, a theithio'n gynaliadwy i, ac o gwmpas ardal Yr Wyddfa.<br><br>Bydd y negeseuon craidd uchod yn cael eu cyfleu hefyd ar ap Llwybrau'r Wyddfa fydd yn cael ei diweddaru'n sylweddol yn ystod Mehefin 2026.<br><br>Mae gwaith diweddaru ac uwchraddio sylweddol wedi digwydd i wefan Her y tri chopa - gyda'r wefan i gael ei hail lansio ar ei newydd wedd ddiwedd Mehefin 2026.<br><br>Cynhaliwyd dwy sesiwn hyfforddiant Mentra'n Gall, un yn Abermaw ac un ym Mhlas Tan y Bwlch, ar y cyd a Chyngor Gwynedd - i hyfforddi perchnogion busnesau yn yr ardal ar sut i ddechrau'r sgwrs gyda'u gwesteion a chwsmeriaid ar sut i gael y profiad gorau posib tra allan yn yr awyr agored yn mwynhau Eryri. Mynychwyd y ddwy sesiwn gan gyfanswm o 20 o fusnesau lleol sydd yn gweithredu'n uniongyrchol gydag ymwelwyr i'r Wyddfa.<br><br>Bydd podlediad ar y cyd rhwng APCE, Mentra'n Gall a thimau achub y gogledd, yn digwydd ddiwedd Mehefin 2026 a'i gyhoeddi dros yr haf. |
| 7.1.2<br><br>Rhannu gwybodaeth ynglŷn â'r modd y gall defnyddwyr gyfrannu'n gadarnhaol wrth iddynt ymweld. | Bellach mae manylion ynglŷn â sut i gyfrannu rhodd ariannol i Awdurdod y Parc, wedi eu cynnwys ar wefan her y tri chopa.<br><br>Gweler pwynt 1.2.5 am fanylion yr ap twristiaeth gynaliadwy – Rhoi. |
| 7.1.3 | |

| | |
|---|---|
| Atgyfnerthu'r neges nad oes biniau ar y mynydd a'r rhesymau am hynny, ac egluro cyfrifoldeb defnyddwyr dros reoli eu gwastraff eu Hunain. | Bydd y neges yma yn cael ei rhannu o fewn y cynnwys digidol dros yr haf. |
| 7.1.4<br><br>Atgyfnerthu'r neges fod cymunedau'n bodoli yn ardal Yr Wyddfa a'u bod yn profi effeithiau negyddol ar gyfnodau. | Bydd y neges yma yn cael ei rhannu o fewn y cynnwys digidol dros yr haf. |
| 7.2.1<br><br>Ystyried opsiynau ar gyfer gosod arwyddion mwy effeithiol ar y llwybrau, gan sicrhau eu bod yn addas i'r amgylchedd. | Bydd ymgyrch ar y cyd rhwng APCE, yr FUW ac NFU Cymru, i gynhyrchu arwyddion fydd yn cynnwys gwybodaeth am sut i reoli cŵn ac yn atgyfnerthu'r Côd Cefn Gwlad, fel y gall perchnogion tir o fewn y Parc, gan gynnwys Yr Wyddfa, eu gosod mewn mannau priodol. Bwriedir hefyd ffilmio cynnwys hyrwyddo yn ystod Gorffennaf 2026 (ar Lwybr Llanberis). |
| 7.3.1<br><br>Mynd ar drywydd neu gefnogi unrhyw gyfle i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau hyrwyddedig a'u hyrwyddo ar wefan APCE. | Dim diweddariad |
| 7.4.1<br><br>Defnyddio dulliau cyfathrebu amrywiol yn ddibynnol ar y gwahanol gynulleidfaoedd. | Mae'r prosiect o ailfrandio'r Fan Dehongli yn mynd yn ei flaen. Roedd y gwaith yn cynnwys dylunio a gosod wrap newydd. Y tro hwn, mae côd QR wedi ei gynnwys ar ochr y fan er mwyn hyrwyddo mynediad i wefan APCE a gwefan Mentra'n Gall. Mae'r Adran Wardeinio yn y broses o uwchraddio'r holl baneli a mapiau er mwyn diweddaru'r lluniau a chyfleu'r wybodaeth ddiweddaraf mewn modd deniadol ac effeithiol.<br><br>Gweler pwynt 7.2.1 uchod. |

| | |
|---|---|
| | Mae cyflenwad o arwyddion mynydda diogel cyffredinol wedi eu diweddaru a'u hailosod yn y toiledau yn safleoedd APCE o gwmpas Yr Wyddfa.<br><br>Mae arddangosfa newydd wedi ei datblygu a'i gosod ym Mhen y Pas sydd yn cynnwys fersiwn wedi ei uwchraddi o'r model 3D o'r Wyddfa. Bydd y model yn cynnwys cyfuchliniau, prif lwybrau yn ogystal â rhinweddau'r mynydd.<br><br>Yn dilyn gwaith o ehangu a gwella ystafell y siop ym Mhen y Pas, mae hi bellach wedi agor. Yn dilyn cynnydd mewn defnydd o'r siop, y bwriad yw y bydd y gwelliannu yma yn cynyddu incwm i'r Awdurdod ac y bydd y siop yn gweithredu fel dull o rannu gwybodaeth safonol am ddiogelwch ac ymweld yn gyfrifol.<br><br>Bydd yr Adran Gyfathrebu yn parhau i rannu cynnwys yn rheolaidd ar y cyd â Chyngor Gwynedd fel rhan o Strategaeth yr economi ymweld - #GwyneddEryriNi.<br><br>Gweler pwyntiau 4.3.6 a 7.1.1 am fanylion gwefan Her y tri chopa.<br><br>Bydd yr Adran Gyfathrebu yn parhau i ymateb i ymholiadau'r wasg, rhyddhau datganiadau ac i ddewis y swyddogion perthnasol ar gyfer cyfweliadau fel ymateb i geisiadau gan y wasg. Rhwng lansio'r Cynllun diwygiedig ym mis Gorffennaf 2025, a rŵan (Mehefin 2026), rhyddhawyd 12 datganiad i'r wasg gan yr Awdurdod, a chymerodd aelodau amrywiol o staff APCE ran mewn 25 o gyfweliadau ar faterion amrywiol yn ymwneud â'r Wyddfa. |
| 7.5.1<br><br>Parhau i ddatblygu'r Cynllun Llysgennad a manteisio ar y cyfle i gydweithio'n agosach gyda pherchnogion busnes yn yr ardal. | Mae modiwl newydd y Carneddau wedi ei lansio gyda 2 fodiwl newydd i'w lansio yn ystod haf 2026 sef: modiwl Coedwigoedd Glaw Celtaidd a modiwl Treftadaeth Ddringo Eryri.<br><br>Cynhaliwyd digwyddiad awyr dywyll unwaith eto yn Yr Ysgwrn fel diolch i'r Llysgenhadon am gymhwyso ac am rannu gwybodaeth gyson a chywir gydag ymwelwyr i'r Parc. Roedd y noson yn cynnwys sgwrs gan Swyddog Awyr Dywyll y Parc, taith dywys o amgylch y ffermdy a chawl cynnes i gloi. Mynychwyd y digwyddiad gan tua 30 o Lysgenhadon gyda'r |

| | |
|---|---|
| | digwyddiad wedi ei drefnu ar y cyd a Chyngor Gwynedd ac APCE. |

**Eitem Rhif 12**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 11 Tachwedd 2026 |
| **TEITL** | **Polisi a Strategaeth Caffael 2026-29** |
| **ADRODDIAD GAN** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **PWRPAS** | I gyflwyno'r Strategaeth ddrafft sydd ynghlwm |

## 1. CEFNDIR

1.1 Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdod i gyflawni ei arferion caffael mewn modd cymdeithasol gyfrifol ac i ddefnyddio gweithgaredd caffael fel ffordd o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni nid yn unig ddatblygu Strategaeth Gaffael a sefydlu Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol, ond rhaid i ni hefyd gymryd camau rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny drwy ein gweithgareddau caffael.

1.2 Mae'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael drafft hwn, a gynhyrchwyd gyda chymorth Dr. Darar Apiri, Arbenigwr Caffael o WRAP Cymru (trwy gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru), yn darparu'r fframwaith y bydd yr Awdurdod yn bodloni'r gofynion statudol hyn drwyddo. Mae'n nodi amcanion caffael, blaenoriaethau a chanlyniadau disgwyliedig yr Awdurdod, gan sicrhau bod penderfyniadau caffael yn cefnogi Amcanion Llesiant yr Awdurdod, gan barhau i sicrhau gwerth am arian, cynnal cydymffurfiaeth â deddfwriaeth gaffael, a chefnogi darpariaeth effeithiol ein gwasanaethau.

1.3 Mae'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael Drafft hwn wedi'i ddosbarthu ymhlith yr holl staff, a rhoddwyd cyfle iddynt wneud sylwadau ac adborth ar ei gynnwys. O ganlyniad, gwnaed rhai mân newidiadau i'r cynnwys.

1.4 Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o'r adborth yn ymwneud â'r gwaith y bydd ei angen ar ôl i'r polisi a'r strategaeth gael eu mabwysiadu. Bydd sawl maes gwaith caffael yn gofyn am ddatblygu canllawiau ac adolygu a gwella systemau caffael presennol, a bydd angen hyfforddiant a monitro parhaus i gyd-fynd â hyn.

1.5 Mae Adran 15 o'r ddogfen yn amlinellu'r dull gweithredu graddol o weithredu'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael, gan ganiatáu ar gyfer y capasiti staff a'r adnoddau sydd eu hangen.

## 2. GOBLYGIADAU ADNODDAU

2.1 Does dim goblygiadau uniongyrchol o ran adnoddau o fabwysiadu'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd angen adnoddau ychwanegol i ddatblygu canllawiau, adolygu a gwella systemau a hyfforddiant staff trwy gyfrwng dull gweithredu graddol.

## 3. ARGYMHELLIAD:

**Cymeradwyo mabwysiadu'r Polisi a'r Strategaeth Gaffael newydd ar gyfer y cyfnod 2026 – 2029 ar gyfer yr Awdurdod.**

## 4. PAPURAU CEFNDIROL

4.1 Crynodeb o Bolisi a Strategaeth Caffael a Chaffael Cymdeithasol Gyfrifol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri 2026–2029

# Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
# Crynodeb o Gaffael a Pholisi a Strategaeth Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol 2026–2029

## 1. Cyflwyniad

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio adnoddau cyhoeddus i gaffael ystod amrywiol o nwyddau, gwasanaethau a gwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni ei ddibenion statudol, cyflawni ei swyddogaethau a chefnogi rheolaeth effeithiol y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn cynnwys gwariant sy'n ymwneud â chadwraeth a rheoli tir, bioamrywiaeth ac adfer cynefinoedd, mynediad a seilwaith i ymwelwyr, adeiladu ac ystadau, cerbydau a pheiriannau, TGCh a gwasanaethau digidol, gwasanaethau proffesiynol, ymchwil, rheoli cyfleusterau, cyfathrebu, digwyddiadau, bwyd a gofynion gweithredol eraill.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod caffael yn fwy na'r broses o gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith. Gall penderfyniadau ynghylch a ddylid caffael a beth i'w gaffael, sut mae gofynion yn cael eu cynllunio, sut yr ymgysylltir â'r farchnad, sut mae cyflenwyr yn cael eu dewis a sut mae contractau'n cael eu rheoli wedi hynny gael effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol sylweddol dros gylch oes llawn contract neu ased.

Gall penderfyniadau caffael ddylanwadu ar gost a gwerth oes gyfan, allyriadau nwyon tŷ gwydr, defnydd o adnoddau a chylchredoldeb, bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, atal gwastraff, dŵr a llygredd, Gwaith Teg ac arferion cyflogaeth, cydraddoldeb a hygyrchedd, darpariaeth iaith Gymraeg, lles cymunedol, cydnerthedd cadwyn gyflenwi a'r gwerth cyhoeddus ehangach a gynhyrchir trwy wariant.

Felly mae'r Awdurdod yn ystyried caffael fel ffordd o sicrhau'r nwyddau, y gwasanaethau a'r gwaith sy'n angenrheidiol i gyflawni ei swyddogaethau ac fel mecanwaith strategol ar gyfer sicrhau gwerth cyhoeddus hirdymor a chyfrannu at lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae'r Polisi a'r Strategaeth hon yn sefydlu'r fframwaith cyffredinol ar gyfer gwneud penderfyniadau caffael. Mae'n nodi egwyddorion caffael yr Awdurdod, trefniadau llywodraethu, dull caffael cynaliadwy a chyfrifol yn gymdeithasol, amcanion strategol a blaenoriaethau gweithredu.

## 2. Diben a Chwmpas

Diben y Polisi a'r Strategaeth hon yw sicrhau bod caffael ar draws yr Awdurdod yn cael ei wneud yn gyfreithlon, yn dryloyw ac yn gymesur, gyda llywodraethu a chynllunio priodol a goruchwyliaeth briodol o faterion masnachol. Dylai caffael ganolbwyntio ar ganlyniadau, cefnogi rheolaeth effeithiol ar draws cylch oes llawn y contract a bod yn gydnaws ag amcanion strategol ehangach yr Awdurdod.

Dylai caffael hefyd integreiddio cyfrifoldeb amgylcheddol a chymdeithasol, cefnogi cymunedau Eryri, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru, a darparu mynediad teg a chymesur at gyflenwyr galluog.

Mae'r Polisi a'r Strategaeth hon yn berthnasol i weithwyr a phobl eraill sy'n gweithredu ar ran yr Awdurdod sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau caffael, comisiynu neu reoli contractau. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gyfrifol am nodi gofynion, cymeradwyo gwariant, canfod cyflenwyr, cynnal ymarferion caffael, gwerthuso cynigion, dyfarnu contractau, rheoli cyflenwyr ac awdurdodi newidiadau i gontractau.

Mae'n berthnasol i gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith waeth beth fo'r ffynhonnell ariannu, y maes gwasanaeth, hyd y contract neu'r llwybr caffael, gan gynnwys lle mae cynghorwyr allanol neu drydydd partïon yn cefnogi caffael ar ran yr Awdurdod.

Rhaid ymgymryd â phob gweithgaredd caffael yn unol â deddfwriaeth berthnasol a gofynion statudol, ynghyd â Rheolau Sefydlog yr Awdurdod sy'n Ymwneud â Chontractau, Rheoliadau Ariannol, Cynllun Dirprwyo a threfniadau llywodraethu perthnasol eraill.

## 3. Statws a Pherthynas â Dogfennau Eraill yr Awdurdod

Mae'r ddogfen hon yn sefydlu polisi caffael cyffredinol a chyfeiriad strategol yr Awdurdod. Nid yw'n disodli Rheolau Sefydlog yr Awdurdod sy'n Ymwneud â Chontractau, Rheoliadau Ariannol na Chynllun Dirprwyo.

Mae'r Rheolau Sefydlog sy'n Ymwneud â Chontractau yn sefydlu gofynion gweithdrefnol gorfodol yr Awdurdod ar gyfer caffael, gan gynnwys rheolau sy'n ymwneud â dyfynbrisiau, tendro, cymeradwyaethau, eithriadau, dyfarnu contractau a rheolaethau caffael eraill.

Diwygiwyd Rheolau Sefydlog presennol yr Awdurdod yn fwyaf diweddar ar 10 Mawrth 2025 ac maent yn adlewyrchu'r fframwaith caffael cyhoeddus presennol.

Mae fframwaith caffael yr Awdurdod yn gweithredu drwy gyfres o ddogfennau a rheolaethau cyflenwol.

Ar y lefel strategol, mae'r Polisi a'r Strategaeth hon yn gosod egwyddorion caffael, cyfeiriad, Amcanion Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol a disgwyliadau cynaliadwyedd yr Awdurdod.

Mae'r Rheolau Sefydlog, y Rheoliadau Ariannol a'r Cynllun Dirprwyo yn darparu'r fframwaith llywodraethu a rheoli ffurfiol.

Mae'r Gweithdrefnau a'r Pecyn Cymorth Caffael yn trosi'r gofynion hyn yn brosesau ymarferol, templedi a chanllawiau i swyddogion.

Mae canllawiau penodol i gategorïau yn darparu ystyriaethau cynaliadwyedd a masnachol mwy manwl ar gyfer meysydd fel adeiladu, rheoli tir, fflyd, TGCh, gwasanaethau proffesiynol a rheoli cyfleusterau.

Mae trefniadau rheoli contract yn darparu'r fframwaith ar gyfer rheoli darpariaeth, perfformiad cyflenwyr, ymrwymiadau cynaliadwyedd, risg, newid a gwelliant parhaus ar ôl dyfarnu contract.

Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn ffurfio fframwaith rheoli caffael integredig sy'n cysylltu amcanion strategol yr Awdurdod â phenderfyniadau prynu unigol a chanlyniadau contractau.

## 4. Gweledigaeth ac Egwyddorion Caffael

Gweledigaeth gaffael yr Awdurdod yw defnyddio caffael cyhoeddus yn gyfrifol ac yn strategol i sicrhau canlyniadau o ansawdd uchel a gwerth hirdymor wrth amddiffyn amgylchedd Eryri, cefnogi ei chymunedau a'i diwylliant, lleihau effeithiau andwyol a chyfrannu at lesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
Bydd caffael yn cael ei arwain gan yr egwyddorion canlynol.

### 4.1 Cyfreithlondeb a Chydymffurfiaeth

Cynhelir yr holl gaffael yn unol â deddfwriaeth gaffael berthnasol, canllawiau statudol, polisi caffael Llywodraeth Cymru a gofynion llywodraethu mewnol yr Awdurdod.

Bydd gwerth amcangyfrifedig, cwmpas, hyd y contract a'r broses o agregu yn cael eu pennu'n gywir o'r cychwyn. Ni fydd gofynion yn cael eu rhannu na'u strwythuro'n artiffisial i osgoi trothwyon caffael, gofynion cystadleuaeth, llwybrau cymeradwyo na rhwymedigaethau tryloywder.

Rhaid i'r llwybr a ddewisir ar gyfer mynd i'r farchnad fod yn gyfreithlon, yn gymesur ac yn briodol i natur, gwerth, cymhlethdod a risg y gofyniad.

### 4.2 Uniondeb, Priodoldeb a Gwrthdaro Buddiannau

Bydd penderfyniadau caffael yn cael eu gwneud gyda gonestrwydd, gwrthrychedd, didueddrwydd a barn broffesiynol briodol.

Rhaid nodi, datgan, cofnodi a rheoli gwrthdaro buddiannau gwirioneddol, posibl a chanfyddedig. Ni ddylai perthnasoedd â chyflenwyr beryglu cystadleuaeth deg nac annibyniaeth penderfyniadau caffael.

Bydd penderfyniadau gwerthuso a dyfarnu yn cael eu cefnogi gan gofnod clir ac archwiliadwy.

### 4.3 Tryloywder ac Archwiliadwyedd

Bydd yr Awdurdod yn cynnal llwybr archwilio clir a chymesur sy'n ddigonol i ddangos yr angen busnes, y llwybr caffael, ymgysylltu â'r farchnad, y broses werthuso, cymeradwyaethau, penderfyniad dyfarnu, ystyriaethau cynaliadwyedd perthnasol a rheoli contractau wedi hynny.

Cyhoeddir hysbysiadau caffael gofynnol, gwybodaeth am gontractau a gwybodaeth dryloywder arall yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

### 4.4 Cymesuredd

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio dull caffael cymesur, sy'n seiliedig ar risg ac effaith.

Bydd lefel y cynllunio, ymgysylltu â'r farchnad, cystadleuaeth, diwydrwydd dyladwy, sicrwydd, gwerthuso a rheoli contractau yn adlewyrchu cyfanswm gwerth amcangyfrifedig y contract, gwerth oes gyfan, cymhlethdod technegol a masnachol, hanfodoldeb gweithredol, amodau'r farchnad, gwydnwch y gadwyn gyflenwi, risg gyfreithiol a risg i enw da ac arwyddocâd cynaliadwyedd y gofyniad.

Bydd gofynion cyflenwyr sy'n ymwneud â sefyllfa ariannol, trosiant, yswiriant, gallu, profiad blaenorol, achrediadau, systemau rheoli a thystiolaeth hefyd yn gymesur â'r contract. Ni ddylai gofynion greu rhwystrau diangen sy'n rhoi busnesau bach a chanolig, microfusnesau, mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol neu gyflenwyr galluog eraill dan anfantais.

### 4.5 Gwerth Oes Gyfan

Ni fydd gwerth am arian yn cael ei ddehongli fel y pris prynu cychwynnol isaf.
Bydd yr Awdurdod yn mabwysiadu dull gwerth oes gyfan, gan ystyried y costau, y manteision, y risgiau a'r canlyniadau ehangach sy'n gysylltiedig â gofyniad dros ei gylch oes llawn.
Lle bo'n berthnasol, bydd yr ystyriaeth yn cynnwys cost oes gyfan a chyfanswm cost perchnogaeth, ansawdd, dibynadwyedd, gwydnwch, effeithlonrwydd adnoddau, cylcholdeb, carbon oes gyfan, cydnerthedd, canlyniadau cymdeithasol a chymunedol a'r graddau y mae'r caffael yn cefnogi amcanion strategol ehangach.

### 4.6 Rheoli Galw, Atal a Chaffael Cylchol

Bydd cynllunio caffael yn dechrau drwy ystyried yr angen sylfaenol a'r canlyniad i'w gyflawni, yn hytrach na thybio bod angen pryniant newydd.
Bydd yr Awdurdod yn ceisio osgoi neu leihau galw diangen, gwneud y defnydd mwyaf o asedau presennol, ymestyn oes cynnyrch ac asedau trwy gynnal a chadw ac atgyweirio ac ystyried ailddefnyddio, adnewyddu, ailweithgynhyrchu, prydlesu, rhannu a modelau cyflenwi amgen eraill cyn caffael nwyddau newydd.

Gellir defnyddio canllawiau perthnasol, gan gynnwys Hierarchaeth Caffael Cynaliadwy WRAP, i gefnogi cymhwyso'r egwyddorion hyn.

### 4.7 Caffael Cynaliadwy a Chyfrifol yn Gymdeithasol

Bydd ystyriaethau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn cael eu nodi yn ôl eu harwyddocâd, eu risg a'u cyfle a'u hintegreiddio drwy gydol cylch oes y caffael.

Ni fyddant yn cael eu trin fel ychwanegiadau generig at ddogfennaeth tendr. Lle bo gofynion cynaliadwyedd yn arwyddocaol, caiff eu cyfieithu i fanylebau, gofynion cyfranogiad, meini prawf dyfarnu, amodau contract, dangosyddion perfformiad allweddol a threfniadau perfformiad cyflenwyr.

### 4.8 Hygyrchedd y Farchnad a Chystadleuaeth Deg

Bydd caffael yn cael ei gynllunio i gefnogi cystadleuaeth deg ac effeithiol a mynediad cymesur i gyflenwyr galluog. Bydd yr Awdurdod yn ceisio osgoi rhwystrau gweinyddol neu ariannol diangen, yn enwedig lle gallai'r rhain effeithio'n anghymesur ar fusnesau bach a chanolig, microfusnesau, mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol a chyflenwyr arbenigol.

### 4.9 Rheoli Contractau a Gwireddu Manteision

Bydd caffael yn cael ei reoli fel gweithgaredd cylch oes contract llawn. Dylid ymgorffori ymrwymiadau arwyddocaol a wneir yn ystod y tendro yn y contract canlyniadol a'u monitro fel danfoniadau, rhwymedigaethau cytundebol, dangosyddion perfformiad allweddol neu ymrwymiadau gwella. Diben rheoli contractau fydd sicrhau cydymffurfiaeth, perfformiad, gwireddu manteision a gwelliant parhaus.

## 5. Fframwaith Deddfwriaethol a Pholisi

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd â chaffael yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a pholisi sy'n llywodraethu caffael cyhoeddus yng Nghymru.

### 5.1 Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024

Mae Deddf Caffael 2023 a Rheoliadau Caffael (Cymru) 2024 yn darparu'r prif fframwaith statudol ar gyfer caffael cyhoeddus a wneir gan yr Awdurdod.
Bydd yr Awdurdod yn rhoi sylw i'r amcanion a'r gofynion caffael statudol sy'n ymwneud â gwerth am arian, budd cyhoeddus, tryloywder, uniondeb, mynediad i fusnesau bach a chanolig, gwrthdaro buddiannau, cystadleuaeth, dyfarnu, perfformiad contract, addasiadau a therfynu.

Bydd gwerth amcangyfrifedig y contract yn cael ei gyfrifo ar sail y gofyniad llawn a ragwelir, gan gynnwys TAW lle bo angen, estyniadau, lotiau a gwariant perthnasol arall.

Ar gyfer caffaeliadau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2026, y prif drothwyon sy'n berthnasol i awdurdod contractio is-ganolog yw:

| Math o gontract | Trothwy gan gynnwys TAW |
|---|---|
| Nwyddau a gwasanaethau | £207,720 |
| Gweithiau | £5,193,000 |
| Gwasanaethau cyffyrddiad ysgafn | £663,540 |
| Contractau consesiwn | £5,193,000 |

Bydd trothwyon cyfredol bob amser yn cael eu cadarnhau pan fydd y caffael yn dechrau.
I awdurdodau datganoledig Cymru, mae contract a reoleiddir sydd islaw'r trothwy, gyda gwerth amcangyfrifedig o £30,000 neu fwy gan gynnwys TAW yn gontract islaw'r trothwy hysbysadwy ac mae'n ddarostyngedig i dryloywder statudol perthnasol a gofynion eraill.
Gall Rheolau Sefydlog Mewnol osod gofynion ychwanegol a rhaid eu dilyn ochr yn ochr â gofynion statudol.

### 5.2 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn sefydlu'r prif fframwaith statudol ar gyfer caffael cyhoeddus cyfrifol yn gymdeithasol yng Nghymru.
Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol drwy gaffael a bydd yn cynnal ac yn cyhoeddi Amcanion Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol. Mae'r Polisi a'r Strategaeth hon yn ffurfio strategaeth gaffael yr Awdurdod at ddibenion y Ddeddf.

Bydd yr Awdurdod hefyd yn cynnal y gofrestr contractau ofynnol, yn cyflawni gofynion adrodd statudol ac yn cymryd pob cam rhesymol i gyflawni Amcanion Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol perthnasol mewn contractau rhagnodedig.

Mae gofynion penodol yn berthnasol i gontractau adeiladu mawr a chontractau gwasanaethau allanoli. Lle bo'n berthnasol, bydd yr Awdurdod yn ymgorffori'r gofynion statudol perthnasol o ran gwaith cyhoeddus cymdeithasol neu'r gweithlu ac yn sefydlu trefniadau ar gyfer monitro eu gweithrediad.

### 5.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Bydd caffael yn cefnogi amcanion llesiant yr Awdurdod a'i gyfraniad at y nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y pum ffordd o weithio yn llywio cynllunio caffael.

- Bydd meddwl hirdymor yn cefnogi ystyriaeth o gost oes gyfan, gwydnwch, effeithiau amgylcheddol a gofynion gwasanaeth yn y dyfodol.
- Bydd atal yn cefnogi rheoli galw, atal gwastraff a chamau cynnar i osgoi effeithiau andwyol.
- Bydd integreiddio'n cysylltu caffael ag amcanion amgylcheddol, ariannol, cydraddoldeb, yr iaith Gymraeg a gwasanaeth.

- Bydd cydweithio yn cefnogi caffael ar y cyd priodol ac atebion a rennir.
- Bydd cynnwys yn annog ymgysylltu â defnyddwyr, cymunedau a rhanddeiliaid perthnasol lle gall hyn wella gofynion sylweddol mewn modd arwyddocaol.

### 5.4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Bydd yr Awdurdod yn defnyddio gweithgarwch caffael perthnasol i gefnogi ei ddyletswydd i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Rhoddir sylw i ystyriaethau bioamrywiaeth, bioddiogelwch ac ecosystemau cyn gynted ag y bo'n ymarferol lle bo hynny'n arwyddocaol, a gallant ddylanwadu ar reoli galw, manylebau, gwerthuso, amodau contract a gofynion perfformiad cyflenwyr.

### 5.5 Datganiad Polisi Caffael Cymru a Nodiadau Polisi Caffael Cymru

Bydd yr Awdurdod yn ystyried Datganiad Polisi Caffael Cymru a Nodiadau Polisi Caffael Cymru perthnasol. Mae polisi caffael Cymru yn rhoi pwyslais penodol ar gaffael cynaliadwy a chaffael sy'n seiliedig ar werth, datgarboneiddio, Gwaith Teg, cadwyni cyflenwi gwydn, mynediad at fusnesau bach a chanolig, cydweithio, gallu caffael a defnydd gwell o ddata caffael. Mae'r egwyddorion hyn wedi'u hadlewyrchu drwy gydol y Strategaeth hon.

## 6. Llywodraethu Caffael, Rôlau ac Atebolrwydd

Bydd yr Awdurdod yn gweithredu model caffael dosbarthedig cymesur a gefnogir gan gydlynu a goruchwyliaeth gorfforaethol.

Bydd meysydd gwasanaeth yn parhau i fod yn gyfrifol am ddiffinio gofynion gweithredol, rheoli cyllidebau a pherchnogi canlyniadau contractau, tra bydd safonau caffael, sicrwydd a chyfeiriad strategol yn cael eu cydlynu'n gorfforaethol.

Bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb gweithredol uwch dros gaffael. Bydd y rôl hon yn darparu goruchwyliaeth strategol, yn cefnogi gallu ac adnoddau caffael digonol, yn adolygu risgiau caffael sylweddol ac yn sicrhau bod perfformiad caffael yn cael ei ystyried trwy drefniadau llywodraethu priodol.

Mae'r cyfrifoldeb hwn hefyd yn ymestyn i gydlynu polisi, gweithdrefnau, canllawiau, cynllunio a sicrwydd caffael. Bydd y rôl yn cefnogi penderfyniadau ynghylch y llwybr ar gyfer mynd i'r farchnad, ymarferion caffael sylweddol, asesu caffael cynaliadwy, adrodd ar gaffael, tryloywder statudol, y gofrestr contractau, hyfforddiant a chaffael cydweithredol. Gall deiliad y swydd ymgymryd â'r swyddogaethau hyn yn uniongyrchol neu drwy swyddogion dirprwyedig a meysydd gwasanaeth, gan ddarparu goruchwyliaeth strategol, cyngor a sicrwydd tra'n cadw cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, polisi a gofynion llywodraethu caffael.

Bydd Penaethiaid Gwasanaeth a deiliaid cyllidebau yn parhau i fod yn gyfrifol am gaffael a wneir yn eu meysydd. Byddant yn sicrhau bod gofynion yn cael eu cynllunio, eu cyllidebu, eu hawdurdodi a'u rheoli'n briodol a bod ystyriaethau caffael, masnachol a chynaliadwyedd perthnasol yn cael sylw.

Bydd swyddogion comisiynu a swyddogion cyfrifol yn diffinio'r angen busnes, yn herio'r galw, yn sefydlu gwerth amcangyfrifedig, yn asesu risgiau, yn cefnogi ymgysylltiad â'r farchnad, yn datblygu manylebau ac yn cymryd rhan mewn gwerthuso a rhoi'r contract ar waith.

Bydd Cyllid yn cefnogi sicrwydd cyllideb, dadansoddi gwariant, diwydrwydd dyladwy ariannol, costio oes gyfan, rheolaethau prynu-i-dalu, talu'n brydlon ac adnabod cyfleoedd i wella gwerth.

Ceir cyngor cyfreithiol, llywodraethu ac arbenigol lle bo angen ar gyfer caffael gwerth uchel, cymhleth, newydd neu risg uwch.

Bydd gan gontractau perthnasol reolwr contract enwebedig sy'n gyfrifol am baratoi cyflenwyr ar gyfer cyflawni'r contract, perfformiad, risg, gwariant, ymrwymiadau cynaliadwyedd, newidiadau, estyniadau a gadael contract.

Cynhelir gwahanu dyletswyddau priodol rhwng diffinio gofynion, cymeradwyo, gwerthuso, awdurdodi ariannol a dyfarnu contract.

## 7. Cynllunio Caffael a'r Cylch Oes Masnachol

Bydd yr Awdurdod yn rheoli caffael fel cylch oes masnachol wedi'i gynllunio gan ddechrau drwy nodi a herio'r angen a pharhau drwy ymgysylltu â'r farchnad, dod o hyd i gyflenwyr, dyfarnu contractau, rheoli contractau ac ymadael.

Bydd cynllunio caffael yn digwydd yn ddigon cynnar i alluogi'r Awdurdod i ystyried modelau cyflawni amgen, deall amodau'r farchnad, asesu risgiau a chyfleoedd cynaliadwyedd a sefydlu trefniadau rheoli contractau priodol.

- Bydd caffaeliadau arwyddocaol yn cael eu hasesu yn ôl gwerth, cymhlethdod, risg fasnachol, arwyddocâd gweithredol ac arwyddocâd o ran cynaliadwyedd.
- Bydd caffaeliadau arferol yn cael eu rheoli drwy reolaethau mewnol cymesur.
- Fel arfer, bydd caffaeliadau arwyddocaol yn gofyn am gynllunio ffurfiol, asesiad cynaliadwyedd a pherchnogaeth contract wedi'i nodi.
- Fel arfer, bydd caffael strategol neu risg uchel yn gofyn am strategaeth ffurfiol ar gyfer dod o hyd i gyflenwyr, asesiad risg manwl, ymgysylltu â'r farchnad lle bo'n briodol, dadansoddiad gwerth oes gyfan, sicrwydd uwch a threfniadau rheoli contractau strwythuredig.

### Ymgysylltu â'r Farchnad

- Bydd yr Awdurdod yn ceisio deall y farchnad cyn cwblhau gofynion sylweddol.
- Gall dadansoddiad o'r farchnad ystyried capasiti cyflenwyr, busnesau bach a chanolig a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, arloesedd, gallu cynaliadwyedd, cyfyngiadau'r gadwyn gyflenwi, costau dangosol, strwythur contractau a rhwystrau posibl i gyfranogiad.
- Gellir defnyddio ymgysylltiad cynnar â'r farchnad lle gall wella cystadleuaeth, ansawdd manylebau, arloesedd, cynaliadwyedd neu ddealltwriaeth fasnachol.

**Manylebau a Gwerthusiad**

- Dylai manylebau ganolbwyntio ar y canlyniadau a'r perfformiad gofynnol lle bo hyn yn briodol.
- Bydd meini prawf gwerthuso yn cael eu sefydlu cyn gwahodd tendrau a byddant yn gymesur, yn berthnasol ac yn fesuradwy.
- Gall y gwerthusiad ystyried pris, cost oes gyfan, ansawdd, perfformiad technegol, carbon, cylcholdeb, bioamrywiaeth, Gwaith Teg, gwerth cymdeithasol, y Gymraeg, hygyrchedd, gwydnwch ac arloesedd lle mae'r materion hyn yn berthnasol i'r caffael.

**Dyfarnu Contract a'i Roi ar Waith**

Cyn cychwyn y contract, bydd y cymeradwyaethau a'r cofnodion caffael gofynnol yn cael eu cwblhau, bydd y contract yn cael ei weithredu'n briodol a bydd gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi. Bydd rheolwr contract yn cael ei nodi, a bydd ymrwymiadau arwyddocaol cyflenwyr yn cael eu trosi'n ofynion contract mesuradwy lle bo'n briodol.

## 8. Caffael Cynaliadwy a Chyfrifol yn Gymdeithasol

Bydd ystyriaethau caffael cynaliadwy a chyfrifol yn gymdeithasol yn cael eu hintegreiddio drwy gydol y cylch oes masnachol. Bydd yr Awdurdod yn canolbwyntio ar faterion sydd o arwyddocâd i'r gofyniad yn hytrach na cheisio cymhwyso'r un gofynion cynaliadwyedd i bob caffaeliad.

### 8.1 Newid Hinsawdd a Charbon

Bydd caffael perthnasol yn ystyried osgoi galw diangen, carbon ymgorfforedig, allyriadau gweithredol, defnydd ynni a thanwydd, trafnidiaeth, deunyddiau, allyriadau cyflenwyr, carbon oes gyfan a hirhoedledd asedau.

Bydd y gofynion yn gymesur ag arwyddocâd carbon y caffael a gallu'r farchnad.

Ar gyfer categorïau arwyddocaol, bydd yr Awdurdod yn ceisio canlyniadau carbon mesuradwy ar lefel contract yn raddol yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ymrwymiadau generig cyflenwyr.

### 8.2 Economi Gylchol ac Effeithlonrwydd Adnoddau

Bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu atal a lleihau galw cyn prynu nwyddau newydd.

Bydd caffael perthnasol yn ystyried ailddefnyddio, atgyweirio, adnewyddu, ailweithgynhyrchu, gwydnwch, y gallu i uwchraddio, rhannau sbâr, cynnwys wedi'i ailgylchu, trefniadau cymryd cynhyrchion yn ôl, pecynnu y gellir ei ailddefnyddio, prydlesu ac adfer ar ddiwedd oes.

Ni fydd cynnyrch y gellir ei ailgylchu ynddo'i hun yn dangos bod dull caffael cylchol wedi'i gyflawni.

### 8.3 Bioamrywiaeth, Cydnerthedd Ecosystemau a Bioddiogelwch

Mae bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau yn flaenoriaethau penodol o ystyried pwrpas ac arwyddocâd amgylcheddol Eryri.

Bydd caffael perthnasol yn ystyried cynefinoedd, rhywogaethau, cysylltedd ecolegol, mawndir, coetir, priddoedd, cyrsiau dŵr, rhywogaethau ymledol, iechyd planhigion a chydnerthedd ecosystemau ehangach.

Gall gofynion priodol gynnwys datganiadau dull ecolegol, gweithdrefnau bioddiogelwch, tarddiad planhigion, gofynion di-fawn, atal llygredd, diogelu cynefinoedd a monitro amgylcheddol.

### 8.4 Dŵr, Llygredd a Chydnerthedd Hinsawdd

Bydd caffael perthnasol yn ystyried effeithlonrwydd dŵr, atal llygredd, defnyddio cemegau, dŵr ffo, ansawdd aer, sŵn a risg gollyngiadau.

Bydd asedau a gwasanaethau hirhoedlog hefyd yn ystyried addasu i'r hinsawdd, gan gynnwys risgiau o lifogydd, sychder, gorboethi, tanau gwyllt, stormydd, erydiad a tharfu ar seilwaith neu'r gadwyn gyflenwi.

### 8.5 Gwaith Teg a Chadwyni Cyflenwi Moesegol

Bydd yr Awdurdod yn ceisio cefnogi arferion gwaith teg, moesegol a chynhwysol drwy gaffael perthnasol.

Gall ystyriaethau Gwaith Teg gynnwys gwobr deg, llais y gweithiwr, trefniadau cyflogaeth, cydraddoldeb, iechyd a diogelwch, datblygu'r gweithlu ac isgontractio cyfrifol.

Bydd gofynion caethwasiaeth fodern a chaffael moesegol yn seiliedig ar risg ac yn canolbwyntio ar gategorïau a chadwyni cyflenwi risg uwch.

### 8.6 Cydraddoldeb a Hygyrchedd

Bydd gofynion cydraddoldeb a hygyrchedd yn cael eu hystyried lle bo'n berthnasol i'r nwyddau, y gwasanaethau neu'r gwaith sy'n cael ei gaffael. Dylid ymgorffori hygyrchedd yn y dyluniad caffael yn hytrach na'i drin fel addasiad ar ôl dyfarnu yn unig.

### 8.7 Busnesau Bach a Chanolig, Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol a Hygyrchedd y Farchnad

Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau bod cyfleoedd caffael yn hygyrch i fusnesau bach a chanolig galluog, microfusnesau, mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol a chyflenwyr arbenigol.

Gall dyluniad caffael gynnwys gofynion ariannol ac yswiriant cymesur, defnyddio lotiau, tendro ar y cyd drwy gonsortiwm, dogfennaeth glir, cyfnodau tendro rhesymol ac ymgysylltu cynnar â'r farchnad. Ni fydd lleoliad daearyddol yn unig yn pennu dyfarniad contract.

### 8.8 Gwerth Cymdeithasol a Chymunedol

Gall caffael perthnasol geisio manteision cymunedol ychwanegol megis cyflogaeth, sgiliau, prentisiaethau, hyfforddiant, gweithgaredd addysgol, gwirfoddoli ac ymgysylltu cymunedol.

Bydd gwerth cymdeithasol yn cael ei arwain gan ganlyniadau ac yn benodol i gontractau yn hytrach nag yn seiliedig ar gwestiynau tendr generig.

### 8.9 Iaith, Diwylliant a Threftadaeth Cymru

Bydd caffael yn cefnogi cyfrifoldebau ac ymrwymiadau'r Awdurdod sy'n ymwneud â'r iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru.

Gall gofynion perthnasol gynnwys darparu gwasanaethau dwyieithog, cyfathrebu yn y Gymraeg, rhyngwynebau digidol, arwyddion, gwasanaethau dehongli, cymhwysedd diwylliannol, sgiliau traddodiadol a diogelu asedau hanesyddol neu ddiwylliannol.

## 9. Caffael Cynaliadwy yn Seiliedig ar Gategori

Bydd gofynion cynaliadwyedd yn cael eu teilwra i nodweddion ac effeithiau'r categori caffael perthnasol.

| Categori | Ystyriaethau strategol |
|---|---|
| Adeiladu a seilwaith | Cost oes gyfan a charbon, deunyddiau, cylchredoldeb, bioamrywiaeth, gwastraff, Gwaith Teg, gwydnwch a gofynion gwaith cyhoeddus cymdeithasol lle bo'n berthnasol |
| Cadwraeth a rheoli tir | Bioamrywiaeth, cydnerthedd ecosystemau, bioddiogelwch, tarddiad planhigion, pridd, dŵr, allyriadau peiriannau a chanlyniadau ecolegol |
| Fflyd, peiriannau a pheirianwaith | Defnydd o asedau, dewisiadau amgen allyriadau isel, cyfanswm cost perchnogaeth, ynni, cynnal a chadw, y gallu i gael ei atgyweirio ac adfer ar ddiwedd oes |
| TGCh a digidol | Estyn oes asedau, ynni, y gallu i gael ei atgyweirio, adnewyddu, gwastraff electronig, ôl troed carbon |

| | |
|---|---|
| | gwasanaethau cwmwl, hygyrchedd, y Gymraeg, data a chadwyni cyflenwi moesegol |
| Gwasanaethau proffesiynol | Angen, canlyniadau, trosglwyddo gwybodaeth, teithio, hygyrchedd busnesau bach a chanolig, yr iaith Gymraeg, eiddo deallusol a throsglwyddo sgiliau |
| Gwasanaethau ymwelwyr a thwristiaeth | Teithio, bioamrywiaeth, gwastraff, bwyd, hygyrchedd, y Gymraeg, diwylliant, Gwaith Teg a chanlyniadau cymunedol |
| Rheoli cyfleusterau | Ynni, dŵr, cemegau, gwastraff, carbon, Gwaith Teg ac effeithlonrwydd gwasanaeth |
| Dodrefn | Osgoi, ailddefnyddio, atgyweirio, adnewyddu, pren cyfrifol, cynnwys wedi'i ailgylchu a chymryd yn ôl |
| Tecstilau a PPE | Gwydnwch, llafur moesegol, caethwasiaeth fodern, ffibrau, cemegau, atgyweirio a chymryd yn ôl |
| Bwyd ac arlwyo | Gwastraff bwyd, cyrchu cynaliadwy, pecynnu, opsiynau sy'n seiliedig yn bennaf ar blanhigion, Gwaith Teg a chydnerthedd y gadwyn gyflenwi |

Bydd canllawiau manwl ar gyfer categorïau yn cael eu datblygu lle mae gwariant, effaith ar gynaliadwyedd neu risg weithredol yn cyfiawnhau cefnogaeth ychwanegol.

## 10. Amcanion Caffael Cymdeithasol Gyfrifol 2026–2029

Bydd yr Awdurdod yn cynnal yr Amcanion Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol canlynol.

**Amcan 1 – Llywodraethu Caffael Cryf, Tryloyw a Chymesur**
Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod caffael yn gyfreithlon, yn dryloyw, yn gymesur ac wedi'i ategu gan atebolrwydd clir, gallu priodol a gwybodaeth ddibynadwy.

Bydd hyn yn cynnwys cynnal gweithdrefnau caffael priodol, piblinell flaengar, cofrestr contractau, cofnodion caffael, hyfforddiant a goruchwyliaeth uwch briodol.

**Amcan 2 – Sicrhau Gwerth Oes Gyfan a Defnyddio Adnoddau Cyhoeddus yn Effeithlon**
Bydd yr Awdurdod yn herio'r galw ac yn ceisio gwerth hirdymor drwy ystyried cost, ansawdd, perfformiad, risg ac effeithiau gydol oes.

Bydd hyn yn cynnwys ailddefnyddio ac atgyweirio, cydweithio priodol, costio oes gyfan, cynllunio gwell, rheoli contractau'n weithredol a nodi arbedion, effeithlonrwydd ac osgoi costau.

**Amcan 3 – Lleihau Carbon, Defnydd o Adnoddau ac Effeithiau Amgylcheddol Ehangach**
Bydd yr Awdurdod yn defnyddio caffael i gefnogi datgarboneiddio, cylchredoldeb, cydnerthedd hinsawdd a defnydd cyfrifol o adnoddau.

Bydd camau gweithredu blaenoriaeth yn cynnwys nodi gwariant carbon uchel, ymgorffori gofynion carbon cymesur, lleihau gwastraff a phecynnu, cynyddu ailddefnyddio ac atgyweirio a gwella gwybodaeth amgylcheddol ar lefel contract.

**Amcan 4 – Diogelu a Gwella Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau**
Bydd yr Awdurdod yn defnyddio caffael i gefnogi bioamrywiaeth, bioddiogelwch a chydnerthedd ecosystemau.

Bydd hyn yn cynnwys nodi risgiau ecolegol, atal rhywogaethau ymledol, cymhwyso gofynion priodol ar gyfer dod o hyd i gyflenwyr, amddiffyn pridd a dŵr a chynnwys rheolaethau ecolegol priodol mewn contractau arwyddocaol. O ystyried pwrpas statudol yr Awdurdod, bydd hyn yn cael ei drin fel blaenoriaeth gaffael benodol.

**Amcan 5 – Hyrwyddo Gwaith Teg, Cydraddoldeb a Chadwyni Cyflenwi Cyfrifol**
Bydd yr Awdurdod yn defnyddio caffael i gefnogi arferion gwaith teg, moesegol a chynhwysol a lleihau'r risg o gamfanteisio.

Bydd hyn yn cynnwys gofynion Gwaith Teg cymesur, diwydrwydd dyladwy moesegol yn y gadwyn gyflenwi, cydraddoldeb, hygyrchedd ac isgontractio cyfrifol.

**Amcan 6 – Cefnogi Marchnadoedd Amrywiol, Hygyrch a Gwydn**
Bydd yr Awdurdod yn ceisio gwneud cyfleoedd caffael yn hygyrch i gyflenwyr galluog a chefnogi marchnadoedd amrywiol a gwydn.

Bydd hyn yn cynnwys gweledegdd ymlaen llaw, ymgysylltu â'r farchnad, cael gwared ar rwystrau anghymesur, gofynion ariannol a thystiolaeth gymesur, cyfranogiad busnesau bach a chanolig a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol.

**Amcan 7 – Cefnogi Cymunedau, Iaith, Diwylliant a Threftadaeth Cymru yn Eryri**
Bydd caffael perthnasol yn cefnogi lles cymunedol, yr iaith Gymraeg, hunaniaeth ddiwylliannol a threftadaeth Eryri.

Bydd hyn yn cynnwys gofynion priodol o ran y Gymraeg, canlyniadau cymunedol, cyfleoedd sgiliau, hygyrchedd a diogelu asedau diwylliannol a hanesyddol.

**Cymhwyso'r Amcanion**

Ni fydd y saith amcan yn cael eu defnyddio fel rhestr wirio safonol ym mhob tendr. Yn ystod y cyfnod cynllunio caffael, bydd yr Awdurdod yn nodi pa amcanion sydd o arwyddocâd i'r gofyniad.

Yna bydd amcanion perthnasol yn cael eu hadlewyrchu'n gymesur mewn manylebau, meini prawf gwerthuso, amodau contract, dangosyddion perfformiad allweddol a threfniadau rheoli contractau.

Ar gyfer contractau rhagnodedig, bydd yr Awdurdod yn cofnodi'r camau rhesymol a gymerwyd i ddilyn amcanion perthnasol.

## 11. Rheoli Contractau a Pherfformiad Cyflenwyr

Bydd contractau'n cael eu rheoli yn ôl eu gwerth, eu cymhlethdod, eu harwyddocâd gweithredol a'u risg.

Gall contractau arferol ofyn am gadarnhad sylfaenol o ddanfoniad, rheoli anfonebau a rheoli dyddiadau dod i ben.

Fel arfer, dylai contractau arwyddocaol gynnwys rheolwr contract enwebedig, gofynion perfformiad wedi'u diffinio, adolygiad cyflenwyr cyfnodol, monitro ariannol a monitro cynaliadwyedd perthnasol.

Fel arfer, dylai contractau strategol neu risg uchel gynnwys cynllun rheoli contractau ffurfiol, trefniadau rhoi contract ar waith, dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u diffinio, rheoli risg, adolygiad cyflenwyr strwythuredig, rheoli newid, camau gwella a chynllunio ymadael ffurfiol.

Lle cyfrannodd ymrwymiadau caffael cynaliadwyedd neu gymdeithasol gyfrifol yn sylweddol at y penderfyniad dyfarnu, dylid ymgorffori'r ymrwymiadau hynny mewn rheoli perfformiad a'u monitro yn ystod y broses gyflawni.

Bydd newidiadau ac estyniadau i gontractau yn cael eu rheoli drwy lywodraethu priodol a'u hystyried mewn perthynas â sail gyfreithiol, effaith ariannol, perfformiad cyflenwyr, goblygiadau cynaliadwyedd a pha un a fyddai ailgaffael yn darparu canlyniad gwell.

Bydd talu'n brydlon yn rhan o reoli cadwyn gyflenwi gyfrifol. Bydd anfonebau dilys yn cael eu talu yn unol â gofynion statudol a chytundebol perthnasol.

## 12. Piblinell Gaffael, Data a Gallu

Bydd yr Awdurdod yn cynnal piblinell gaffael dreiglol sy'n cwmpasu o leiaf 18–24 mis lle bo'n ymarferol.

Bydd y biblinell yn darparu gweledegdd o ofynion y dyfodol, dyddiadau dod i ben contractau, gwerthoedd amcangyfrifedig, amserlenni caffael, swyddogion cyfrifol, blaenoriaethau cynaliadwyedd, anghenion ymgysylltu â'r farchnad a chyfleoedd cydweithredol posibl.

Defnyddir cynllunio ymlaen llaw i leihau brys y gellir ei osgoi, gwella parodrwydd ar gyfer y farchnad a nodi cyfleoedd ar gyfer agregu neu gydweithio.

Bydd yr Awdurdod yn gwella gwybodaeth am gaffael a chyflenwyr yn raddol, gan gynnwys gwariant yn ôl cyflenwr, categori, maes gwasanaeth, contract a llwybr caffael.

Lle bo'n ddefnyddiol ac yn gymesur, gall gwybodaeth ychwanegol gynnwys statws busnesau bach a chanolig a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, risg

cynaliadwyedd contract, gwybodaeth am garbon, data gwerth cymdeithasol, perfformiad cyflenwyr a diwedd contract.

Bydd gallu caffael yn cael ei ddatblygu yn unol â chyfrifoldebau swyddogion. Dylai staff perthnasol ddeall Rheolau Sefydlog, trothwyon, llwybrau caffael, gwrthdaro buddiannau, egwyddorion caffael cynaliadwy a chyfrifoldebau rheoli contractau.

Bydd angen gallu dyfnach ar swyddogion sy'n ymgymryd â chaffael yn rheolaidd mewn deddfwriaeth caffael, ymgysylltu â'r farchnad, manylebau, gwerthuso, gwerth oes gyfan a rheoli contractau.

Ceir cymorth arbenigol ar gyfer caffael cymhleth neu risg uwch.

## 13. Cydweithio

Bydd yr Awdurdod yn ystyried caffael cydweithredol lle gall hyn wella gwerth, gallu, gwydnwch neu ganlyniadau ehangach.

Gallai cydweithio posibl gynnwys awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, cyrff cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru a sefydliadau caffael sector cyhoeddus priodol.

Bydd trefniadau cydweithredol yn cael eu hasesu yn ôl a ydynt yn bodloni'r gofyniad gwirioneddol, yn darparu gwerth oes gyfan, yn darparu telerau cytundebol priodol, yn caniatáu gofynion cynaliadwyedd perthnasol ac yn darparu mynediad priodol i gyflenwyr.

Defnyddir cydweithio lle mae'n gwella canlyniadau yn hytrach nag fel rhagosodiad awtomatig.

## 14. Perfformiad, Adrodd a Gwelliant Parhaus

Bydd yr Awdurdod yn sefydlu fframwaith perfformiad caffael cymesur i asesu gweithrediad y Strategaeth hon a'i Hamcanion Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol.

Dylai'r fframwaith perfformiad cychwynnol ganolbwyntio ar nifer y gellir ei reoli o fesurau.

| **Ardal** | **Mesur enghreifftiol** |
|---|---|
| Gallu | Swyddogion perthnasol yn cwblhau hyfforddiant caffael |
| Cynllunio | Caffaeliadau wedi'u cynllunio sydd wedi'u cynnwys yn y biblinell gaffael ymlaen |
| Tryloywder | Cyflawnrwydd cofnodion a chofrestrau contract gofynnol |
| Atebolrwydd | Contractau arwyddocaol gyda rheolwyr contract enwebedig |

| | |
|---|---|
| Cynaliadwyedd | Caffaeliadau perthnasol yn cwblhau asesiad cynaliadwyedd |
| Cyflenwi contract | Contractau strategol gyda dangosyddion perfformiad allweddol cynaliadwyedd perthnasol |
| Taliad prydlon | Anfonebau dilys wedi'u talu o fewn y cyfnodau talu perthnasol |
| Hygyrchedd y farchnad | Cyfranogiad busnesau bach a chanolig a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol lle mae data dibynadwy ar gael |
| Gwerth oes gyfan | Caffaeliadau perthnasol sy'n defnyddio costio oes gyfan |
| Bioamrywiaeth | Contractau arwyddocaol sy'n ymgorffori gofynion bioamrywiaeth neu fioddiogelwch |
| Cylchredoldeb | Contractau arwyddocaol sy'n ymgorffori gofynion sy'n ymwneud ag ailddefnyddio, atgyweirio neu gylchredoldeb |
| Carbon | Gwybodaeth carbon a gasglwyd ar gyfer categorïau blaenoriaeth |
| Canlyniadau cymunedol | Ymrwymiadau cymdeithasol a chymunedol perthnasol wedi'u cyflawni |

Bydd targedau'n cael eu sefydlu pan fydd digon o wybodaeth sylfaenol ar gael. Bydd gwybodaeth am berfformiad yn cael ei defnyddio i gefnogi adrodd statudol, goruchwyliaeth uwch reolwyr, datblygu gallu, blaenoriaethu categorïau, gwella rheoli contractau a gwelliant parhaus.

## 15. Gweithredu a Datblygu Aeddfedrwydd

Bydd y Polisi a'r Strategaeth hon yn cael eu gweithredu fesul cam i sicrhau bod yr Awdurdod yn sefydlu'r seilwaith llywodraethu a chaffael hanfodol cyn datblygu gallu caffael mwy datblygedig yn raddol.

**Cam 1 – Sefydlu'r Sylfeini**
Y blaenoriaethau cychwynnol fydd cadarnhau atebolrwydd gweithredol ar lefel uwch dros gaffael, dynodi cyfrifoldeb cydlynu caffael, cymeradwyo a chyfleu'r Polisi a'r Strategaeth hon, cyhoeddi Amcanion Caffael Cyfrifol yn Gymdeithasol, dilysu gweithdrefnau a chyfrifoldebau caffael, gwella gweledded contractau cyfredol a sefydlu'r biblinell gaffael ymlaen llaw.

**Cam 2 – Safoni Prosesau Caffael Craidd**
Bydd yr Awdurdod yn datblygu ac yn gweithredu Pecyn Cymorth Caffael cymesur sy'n cwmpasu cychwyn caffael, penderfyniadau ynghylch y llwybr ar gyfer mynd i'r farchnad, asesu risg cynaliadwyedd, ymgysylltu â'r farchnad, datblygu manylebau, gwerthuso, gwrthdaro buddiannau, dyfarnu contractau, rheoli contractau, dangosyddion perfformiad allweddol, rheoli newid, dyfarniadau uniongyrchol a gwersi a ddysgwyd.

Cyflwynir hyfforddiant ymwybyddiaeth caffael perthnasol ochr yn ochr â'r Pecyn Cymorth.

**Cam 3 – Ymgorffori Caffael Cynaliadwy a Chymdeithasol Gyfrifol**
Bydd yr Awdurdod yn cryfhau'n raddol ganllawiau cynaliadwyedd penodol i gategorïau, costau oes gyfan, ystyriaethau carbon a hinsawdd, caffael cylchol, bioamrywiaeth a bioddiogelwch, Gwaith Teg, rheolaethau cadwyn gyflenwi moesegol, hygyrchedd busnesau bach a chanolig a mentrau gwirfoddol, cymunedol a chymdeithasol, gwerth cymunedol, gofynion yr iaith Gymraeg a hygyrchedd.

**Cam 4 – Cryfhau Rheoli Contractau a Rheoli Cyflenwyr**
Bydd yr Awdurdod yn segmentu contractau yn ôl risg a phwysigrwydd strategol, yn aseinio perchnogaeth briodol dros gontractau, yn cyflwyno cynlluniau rheoli contractau cymesur, yn cryfhau gwybodaeth am berfformiad cyflenwyr, yn ymgorffori dangosyddion perfformiad allweddol cynaliadwyedd ac yn gwella cynllunio adnewyddu, rheoli newid a chynllunio ymadael.

**Datblygiad Tymor Canolig**
Unwaith y bydd y fframwaith craidd yn gweithredu'n gyson, bydd yr Awdurdod yn datblygu rheoli categorïau, dadansoddiad manwl o wariant a chyflenwyr, dadansoddiad carbon caffael, rheoli perthynas strategol â chyflenwyr, costio oes gyfan uwch, olrhain buddion caffael a mesur canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol yn well yn raddol.

## 16. Adolygiad ac Ymrwymiad

Bydd y Polisi a'r Strategaeth hon yn cael eu hadolygu yn flynyddol a'u diwygio lle bo angen i adlewyrchu newid deddfwriaethol, polisi caffael Llywodraeth Cymru, newidiadau ym mlaenoriaethau'r Awdurdod, perfformiad caffael, canfyddiadau archwiliadau, gofynion gallu a gwersi a ddysgwyd.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad yw caffael cyfrifol yn cael ei gyflawni drwy ychwanegu cwestiwn cynaliadwyedd at dendr.

Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried yr angen, y gwerth, y risg a chanlyniadau ehangach o gamau cynharaf cynllunio caffael hyd at ddiwedd y contract.

Felly, bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau y gall penderfyniadau caffael ddangos pam roedd gwariant yn angenrheidiol, sut y cynlluniwyd y gofyniad, pam roedd y llwybr caffael a ddewiswyd yn briodol, sut y ystyriwyd gwerth oes gyfan, pa ganlyniadau ehangach oedd yn berthnasol, beth yr ymrwymodd y cyflenwyr i'w gyflawni ac a gyflawnwyd yr ymrwymiadau hynny yn ymarferol.

Drwy'r dull hwn, bydd caffael yn cefnogi cyflawni swyddogaethau'r Awdurdod yn effeithiol gan gyfrannu at ddiogelu amgylchedd Eryri, cydnerthedd ei chymunedau, yr iaith a'r diwylliant Cymraeg, stiwardiaeth gyfrifol o adnoddau cyhoeddus a lles cenedlaethau'r dyfodol.

| Statws: | Drafft ar gyfer trafodaeth a dilysu mewnol |
|---|---|
| **Perchennog y ddogfen:** | Bethan Wyn Hughes, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| **Corff cymeradwyo:** | [Mewnosod] |
| **Dyddiad effeithiol:** | [Mewnosod] |
| **Dyddiad adolygu:** | Rhagfyr 2027, gyda diwygiad ffurfiol lle bo angen |
| **Datblygwyd gan:** | Dr. Darar Apiri, WRAP |

**Atodiad 1**

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Caffaeliadau arwyddocaol | Caffaeliadau sy'n ddigon arwyddocaol, o werth uchel, o risg uchel, o bwys strategol, neu'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyllid, gwasanaethau, enw da, neu rwymedigaethau cyfreithiol yr Awdurdod. |
| Microfusnesau | Y categori lleiaf o fusnes, sydd fel arfer yn cyflogi llai na 10 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol neu gyfanswm mantolen o ddim mwy na £2 filiwn. Mae llawer o fasnachwyr unigol, busnesau teuluol a chwmnïau bach lleol yn dod o fewn y categori hwn. |
| Busnesau bach a chanolig | Busnesau Bach a Chanolig:<br>Busnesau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol o ddim mwy na thua £50 miliwn. |
| Gwerth Cymdeithasol a Chymunedol | |
| Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol | Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol<br>Sefydliadau sy'n gweithredu er budd cymdeithasol, amgylcheddol neu gymunedol yn hytrach nag yn bennaf er elw. Mae'r term hwn yn cynnwys elusennau, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, sefydliadau gwirfoddol a chwmnïau buddiant cymunedol (CICs). Yn aml, mae VCSEs yn darparu gwasanaethau cyhoeddus, prosiectau cymunedol a chanlyniadau gwerth cymdeithasol. |
| Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau (WRAP) | Rhaglen Gweithredu Gwastraff ac Adnoddau |

**Eitem Rhif 13**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau |
| **DYDDIAD** | 11 Tachwedd 2026 |
| **TEITL** | **Cynllun Cydraddoldeb Strategol** |
| **ADRODDIAD GAN** | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-2026 |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynodd Deddf Cydraddoldeb 2010 ddyletswydd gyffredinol newydd ar y sector gyhoeddus yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Yn ychwanegol at y ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol ar gyfer yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi'u hamlinellu yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

1.2 O dan y dyletswyddau penodol, mae'n rhaid i'r awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru baratoi Adroddiad Blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

1.3 Mae'n rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol nodi'n benodol:

- y camau y mae'r Awdurdod wedi'u cymryd i bennu a chasglu'r wybodaeth berthnasol;
- sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio'r wybodaeth hon wrth ddiwallu tri nod y ddyletswydd gyffredinol;
- y cynnydd tuag at gyflawni pob un o amcanion cydraddoldeb yr Awdurdod; a
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, gan gynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl.

1.4 Mae'r adroddiad blynyddol sydd ynghlwm yn nodi cynnydd yr Awdurdod yn ystod 2025-26 i ddiwallu'r dyletswyddau ychwanegol hyn yng Nghymru.

## 2. ARGYMHELLIAD

2.1 Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2025-26 i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod.

## 3. PAPURAU CEFNDIROL

3.1 Cynllun Cydraddoldeb Strategol: Adroddiad Blynyddol 2025-26.

## Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2025 – 26

## Cynnwys


1. Cyflwyniad ..... 3

2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol ..... 4

3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru ..... 6

4. Beth a Gyflawnwyd ..... 8

5. Hyfforddiant ..... 26

6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb ..... 26

7. Gwybodaeth Cyflogaeth ..... 29

# 1. Cyflwyniad

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 wedi cyflwyno dyletswydd gyffredinol ar y sector cyhoeddus. Mae'n ofynnol ar awdurdodau cyhoeddus i roi sylw dyledus i'r angen i:

1. Gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y ddeddf.
2. Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.
3. Meithrin perthynas dda ymysg pobl sy'n meddu ar un o'r nodweddion sydd wedi'u diogelu a'r rhai nad ydynt.

**Pwy a ddiogelir o dan y Ddeddf?**

Mae'r ddeddf yn cyflwyno rhestr o nodweddion sydd i'w diogelu sy'n disodli amryw agweddau cydraddoldeb. Mae'r carfanau hynny i'w diogelu trwy gyfrwng dyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol y Ddeddf.

Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ymwneud â'r nodweddion isod:

- Oedran
- Newid rhyw
- Rhyw
- Tras – gan gynnwys tarddiad ethnig / cenedlaethol, lliw a chenedl
- Anableddau
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Tueddfryd rhywiol
- Crefydd neu gred

Mae'n ymwneud â phriodasau a phartneriaethau sifil hefyd, ond dim ond ynglŷn â rhoi ystyriaeth briodol i'r angen i gael gwared ar anffafriaeth.

**Dyletswyddau Penodol**

Yn ychwanegol i'r ddyletswydd gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyletswyddau penodol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dyletswyddau penodol hyn wedi cael eu hamlinellu yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) Rheoliadau 2011.

Mae'r dyletswyddau penodol yng Nghymru yn ymdrin â:

- Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau tâl

- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adrodd blynyddol
- Cyhoeddi
- Adroddiad Gweinidog Cymru
- Adolygu
- Hygyrchedd

Fe ddaeth y ddyletswydd gyffredinol yn ogystal â'r dyletswyddau cydraddoldeb penodol i Gymru i rym ar 6 Ebrill 2011. Yn ogystal, deddfwyd y Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd o dan Adran 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar y 31ain o Fawrth 2021; gan ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried sut y gallai ein penderfyniadau strategol leihau anghydraddoldebau sy'n deillio o anfantais gymdeithasol-economaidd.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi gwybod am y cynnydd a wnaeth yr Awdurdod o ran cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn.

Mabwysiadwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ar gyfer y cyfnod 2024-28 yn ffurfiol gan y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar yr 20fed o Fawrth 2024.

## 2. Adnabod a Chasglu Gwybodaeth Berthnasol

Gwybodaeth Ystadegol

Mae'r Awdurdod yn defnyddio'r data mwyaf diweddar sydd ar gael o Gyfrifiad y DU 2021 a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Er bod cyfanswm poblogaeth Cymru gyfan wedi cynyddu 44,000 (1.4%) i 3,107,500, yn Eryri gostyngodd maint y boblogaeth o 25,702 yn 2011 i 24,418 yn 2021 – gostyngiad o bron i 5%.

Mae'r SYG hefyd wedi cyhoeddi crynodebau pwnc ar:

- Demograffeg a mudo
- Yr Iaith Gymraeg
- Grwpiau ethnig, hunaniaeth genedlaethol a chrefydd
- Cyn-filwyr lluoedd arfog y DU
- Tai
- Y farchnad lafur a theithio i'r gwaith
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd
- Addysg
- Iechyd, anabledd a gofal di-dâl

Mae yna hefyd setiau data aml-amrywedd ar gael sy'n ein galluogi i gyfuno gwahanol newidynnau ac edrych ar y berthynas rhwng y data ar gyfer aelwydydd yn Eryri. Bydd hwn yn ddata pwysig i nodi'r croestoriadedd sy'n allweddol wrth archwilio amddifadedd economaidd-gymdeithasol ac mae'n crynhoi'r anghydraddoldebau canlyniad allweddol y mae grwpiau penodol yn eu hwynebu.

Yn ogystal, comisiynodd Rwydwaith Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (ariannwyd trwy'r Byrddau Gwasanaethau Lleol) dadansoddiad pellach o ddata'r Cyfrifiad a data perthnasol arall, i ddarparu adroddiad data lleol sy'n fwy perthnasol a manwl gywir.

Gwybodaeth ac Ymgysylltu

Yn ystod 2025/26, parhaodd yr Awdurdod i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid lleol drwy amrywiaeth o ddulliau, o ymgynghoriadau ysgrifenedig traddodiadol a holiaduron ar-lein i weminarau a chyfarfodydd ar-lein, gweithdai a digwyddiadau ymgynghori a gwybodaeth bersonol.

Fel Awdurdod bach, mae gweithio mewn partneriaeth yn rhan bwysig o sut rydym yn cyflawni pethau, ac mae 2025-26 wedi dangos unwaith eto pa mor bwysig yw hyn. Mewn cyfnod o heriau ariannol parhaus, mae rhannu adnoddau ac arbenigedd gyda'n partneriaid a chyd-gynhyrchu cynlluniau a strategaethau pwysig i fynd i'r afael â heriau Eryri yn ogystal â manteisio i'r eithaf ar ei gyfleoedd, yn hanfodol.

Elfen bwysig o'r gwaith hwn yw'r ymgysylltu a'r ymgynghori sy'n digwydd gyda chymunedau lleol i alluogi rhannu gwybodaeth ac i roi cyfle i bobl roi eu barn ar nifer o heriau y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol a'i gymunedau yn eu hwynebu, ynghyd â'u barn ar gynigion ar gyfer camau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hynny.

Parhaodd y gwaith o adolygu Cynllun Eryri ac yn ystod 2025 fe baratowyd Adroddiad Cyflwr y Parc. Mae hwn yn gasgliad o'r wybodaeth ddiweddaraf am Eryri, sy'n dadansoddi ac yn mesur cyflwr presennol Rhinweddau Arbennig y Parc.  Mae hefyd yn nodi'r cyfleoedd a'r heriau sy'n wynebu'r Parc Cenedlaethol. Drwy'r broses hon, daeth pum blaenoriaeth lefel uchel i'r amlwg:

- Gweithio mewn partneriaeth i ddiogelu ein tirwedd drwy gynyddu amrywiaeth a helaethrwydd natur a gwella gwydnwch ecolegol ledled Eryri.
- Cryfhau a sicrhau bywiogrwydd parhaus yr iaith Gymraeg, diwylliant a threftadaeth yr ardal.
- Annog mynediad diogel a chyfrifol at y dirwedd a natur, er lles trigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd.
- Cydweithio ledled y Parc Cenedlaethol i gefnogi cymunedau gwydn a llewyrchus.
- Ymateb i'r argyfwng hinsawdd gydag arloesedd ac uchelgais.

Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd a digwyddiadau lle rydym wedi edrych yn fanylach ar y pum blaenoriaeth uchod.

Mae Partneriaeth Natur Eryri wrthi'n cynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur ar gyfer Eryri, a elwir yn aml yn NRAP.  Daethpwyd ag arbenigwyr ynghyd ym Mhlas Tan y Bwlch, yn cynrychioli'r prif gynefinoedd sydd i'w cael yn Eryri, i drafod y ffordd orau o symud y gwaith hwn ymlaen.

Cynhaliwyd Gŵyl Fach Eryri yn Nolgellau a Betws-y-Coed.  Roedd y rhain yn ddiwrnodau llawn gweithgareddau ac yn gyfle i gymunedau ddweud wrthym beth sydd bwysicaf iddynt. Roedd cydweithwyr o bob rhan o adrannau'r Parc Cenedlaethol wrth law i ateb cwestiynau a thrafod eu gwaith. Ochr yn ochr â

sgyrsiau, paneli trafod, cerddoriaeth fyw a gweithgareddau cyfeillgar i deuluoedd, cawsom fewnwelediad gwerthfawr i'r hyn y mae byw a gweithio ym Mharc Cenedlaethol Eryri yn ei olygu.

Cynhaliwyd ein gweithdy Asesiad Risg Newid Hinsawdd cyntaf erioed. Mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bangor, dechreuodd ein Swyddog Carbon y broses o fapio effaith newid hinsawdd ar y Rhinweddau Arbennig. Mynychodd arbenigwyr o bob rhan o'r rhanbarth i ddechrau'r dull newydd hwn o weithio. Bellach, rydym yn bwriadu symud ymlaen i gynllun addasu wrth inni wynebu effeithiau uniongyrchol a chanlyniadau hirdymor yr argyfwng hinsawdd.

Cynhaliwyd weithdy ar Berthyn, Cynhwysiant a Mynediad mewn partneriaeth a Bartneriaeth Awyr Agored Cymru ym mis Ionawr 2026. Roedd y gweithdy yn archwilio sut oedd modd cryfhau perthyn, mynediad a chynhwysiant yn Eryri drwy ddysgu ar y cyd. Roedd y diwrnod yn cyfuno cyfraniadau gan siaradwyr gwadd, gweithdai a sesiynau rhyngweithiol, trafodaethau grŵp llai, a chyfleoedd i rwydweithio ac i fyfyrio gyda'i gilydd. Cafodd y gweithdy hefyd ei ddefnyddio i ddechrau adnabod a diffino'n well y grwpiau targed er mwyn creu polisiau newydd yn y fersiwn 2026 o Gynllun Eryri.

Er mwyn adlewyrchu'r gwahanol heriau a chyfleoedd sy'n wynebu Eryri, comisiynwyd fideo pwerus sy'n cofnodi safbwyntiau nifer o bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r fideo hwn hefyd wedi cael ei ddefnyddio'n helaeth ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan dynnu sylw at safbwyntiau gwahanol sectorau ledled y rhanbarth a chynyddu ymwybyddiaeth o'r broses. Rydym hefyd wedi sicrhau bod pobl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y broses o lunio'r Cynllun Rheoli drwy ein gwefan: Cynllun Eryri - Awdurdod y Parc. Gall unrhyw un gyflwyno syniadau drwy'r ffurflen ar y dudalen hon.

Mae staff ac Aelodau'r Awdurdod wedi bod yn ganolog i ddatblygu Cynllun Eryri. Maent wedi cymryd rhan mewn nifer fawr o weithdai a sesiynau ysgrifennu, gan gyfrannu syniadau i lunio rhaglen waith realistig ond uchelgeisiol ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Yn ogystal â bod yn rhan o Fforwm Eryri, cynhaliwyd gweithdai penodol hefyd gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymdeithas Eryri, Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadw a'r Sector Awyr Agored. Drwy gydol y broses o lunio'r Cynllun, mae'r Bartneriaeth Fforwm Eryri wedi bod yn sbardun allweddol drwy ei chyfarfodydd rheolaidd, gan gynnwys cyfrannu data i'r broses Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (gweler isod). Rhoddwyd cyfle i bob partner amlinellu eu blaenoriaethau a'u pryderon ar gyfer y dyfodol yn unigol.

## 3. Defnyddio'r Wybodaeth i gwrdd â'r Dyletswyddau Cyffredinol a'r rhai Penodol i Gymru

Ers y cychwyn cyntaf pan ddaeth Deddf Cydraddoldeb 2010 i rym, ymunodd Eryri â chwe Awdurdod Lleol gogledd Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Heddlu Gogledd Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru o dan faner gyfunol Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru (RhCSCGC). Galluogodd i'r

partneriaid y sector cyhoeddus i ddatblygu a hwyluso ymarferion ymgynghori ac ymgysylltu arloesol ar y cyd ar draws y rhanbarth a arweiniodd at ddatblygu Amcanion Cydraddoldeb.

Er bod pob partner wedi ymrwymo i'r 7 amcan lefel uchaf, mae Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru wedi cytuno y dylai pawb gael yr hyblygrwydd i ddewis cyfrannu tuag at y meysydd gweithredu sy'n faes blaenoriaeth iddynt hwy yn unig ac sy'n seiliedig ar y gwasanaeth a ddarperir ganddynt.

Y 7 Amcan Cydraddoldeb ar gyfer Gogledd Cymru a fabwysiadwyd yw:

1. Bydd canlyniadau o ran cyrhaeddiad **addysgol** a llesiant mewn ysgolion yn gwella.
2. Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr cyfle cyfartal** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.
3. Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.
4. Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.
5. Byddwn yn gwella **diogelwch personol a mynediad at gyfiawnder**.
6. Cynyddu mynediad i **gyfranogiad** er mwyn gwella amrywiaeth y **penderfyniadau a wneir.**
7. Mynd i'r afael ag **anfantais economaidd-gymdeithasol** trwy gynnig gwasanaethau cynhwysol i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Yn ychwanegol, mae'r Awdurdod hwn gydag Amcan Cydraddoldeb ychwanegol:

8. Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Yn sgil swyddogaeth a dyletswyddau penodol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, ychydig iawn, os unrhyw ddylanwad sydd gennym ar rai o'r amcanion a'r meysydd gweithredu hyn. Fodd bynnag, mae'n bosib gwneud cyfraniadau cadarnhaol trwy gyfrwng meysydd gwaith unigol, a fydd yn cyfrannu tuag at gyflawni canlyniadau ar draws Gogledd Cymru.

## 4. Beth a Gyflawnwyd

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i sicrhau ein bod yn **gyflogwr cyfle cyfartal** ac yn lleihau unrhyw fylchau mewn cyflogau.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Asesu, gwerthuso, monitro a chymryd y camau sydd ar gael i ymateb i'r data ar y bwlch tâl rhyw yn flynyddol. | Bydd y data a gasglwyd yn llywio unrhyw newidiadau i'r Polisi Recriwtio yn y dyfodol. | Rhyw | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2025/26:**

Sefydlodd data ar gyfer 31.03.2012 y llinell sylfaen a oedd yn seiliedig ar gyfraddau canolrif yr awr, megis:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£13.61** | **£12.77** | **£12.77** | **Dim** | **£0.84** |
| **Rhan Amser** | **£8.00** | **£8.00** | **£8.00** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£12.77** | **£8.72** | **£9.91** | **£1.19** | **£4.05** |

Mae data ar gyfer 31.03.2025 wedi'i osod islaw:

| 2025 | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£18.26** | **£18.26** | **£18.26** | **Dim** | **Dim** |
| **Rhan Amser** | **£13.05** | **£13.47** | **£13.47** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£18.26** | **£16.10** | **£16.37** | **0.27p** | **£2.16** |

Mae data ar gyfer 31.03.2026 wedi'i osod islaw:

| | Dynion | Merched | Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Holl Staff | Bwlch Tâl Merched / Dynion |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llawn Amser** | **£18.85** | **£20.29** | **£19.32** | **Dim** | **Dim** |
| **Rhan Amser** | **£13.47** | **£13.90** | **£13.90** | **Dim** | **Dim** |
| **Holl Staff** | **£18.35** | **£16.90** | **£17.18** | **£0.28** | **£1.17** |

Mae'r ffigurau uchod wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio'r ffigwr CANOLRIF (MEDIAN).

Mae Canllawiau ACAS ar Reoli Adrodd ar Dâl Rhyw yn nodi y gellir gwneud cyfrifiadau gan ddefnyddio dau fath o gyfartaledd:

- Mae cyfartaledd cymedrig yn cynnwys adio'r holl rifau a rhannu'r canlyniad â faint o rifau oedd ar y rhestr.

- Mae cyfartaledd canolrif yn cynnwys rhestru'r holl rifau mewn trefn rifiadol. Os oes odrif o ganlyniadau, y cyfartaledd canolrifol yw'r rhif canol. Os oes eilrif o ganlyniadau, y canolrif fydd cymedr y ddau rif canolog.

Mae defnyddio'r ddau fath gwahanol hyn o gyfartaledd yn ddefnyddiol i roi trosolwg mwy cytbwys o fwlch cyflog cyffredinol cyflogwr:

- Mae cyfartaleddau cymedrig yn ddefnyddiol oherwydd eu bod yn gosod yr un gwerth ar bob rhif y maent yn ei ddefnyddio, gan roi arwydd cyffredinol da o'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ond gall cyfraddau tâl neu fonysau mawr neu fach iawn dra arglwyddiaethu dros bethau ac ystumio'r ateb. Er enghraifft, gall cyfartaleddau cymedrig fod yn ddefnyddiol mewn sefydliad lle mae mwyafrif helaeth y tâl bonws yn cael ei dderbyn gan nifer fach o aelodau bwrdd.

- Mae cyfartaleddau canolrif yn ddefnyddiol i nodi beth yw'r sefyllfa 'nodweddiadol' h.y. yng nghanol y sefydliad ac nid ydynt yn cael eu hystumio gan gyfraddau tâl mawr neu fach iawn o fonysau. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu na fydd pob mater bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei godi. Er enghraifft, gallai cyfartaledd canolrif ddangos gwell arwydd o fwlch cyflog 'canol y ffordd' mewn clwb chwaraeon gyda chyfartaledd cymedrig wedi'i ystumio gan chwaraewyr â chyflog uchel iawn ac aelodau bwrdd, ond gallai hefyd fethu â chodi mor effeithiol lle. Mae'r materion bwlch cyflog yn fwyaf amlwg ymhlith y gweithwyr ar y cyflog isaf neu'r cyflog uchaf.

Isod mae'r data a gyfrifir ar gyfartaleddau CYMEDRIG (MEAN)

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.03.25, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £18.43 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £16.97. Mae hyn yn rhoi bwlch o 8.60%.

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31.03.26, y gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob dyn yw £18.54 a'r gyfradd gyflog gymedrig fesul awr i bob merch yw £18.42. Mae hyn yn rhoi bwlch o 0.61% o blaid dynion (£0.11/hour).

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithredu rhaglen o hyfforddiant cydraddoldeb. | Asesu'r anghenion hyfforddi a threfnu hyfforddiant fel sy'n briodol. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |

**Adroddiad Diweddaru 2025/26:**

Yn ogystal â'r cyrsiau dysgu sydd ar gael yn barhaus drwy blatfform ELMS (y System Rheoli Dysgu Electronig), cyflwynwyd sesiwn hyfforddiant ar Niwroamrywiaeth yn y Gweithle i Benaethiaid Adrannau. Canolbwyntiodd y sesiwn ar gynyddu dealltwriaeth o gyflyrau niwrowahanol cyffredin, annog dulliau rheoli cynhwysol, a rhoi adnoddau ymarferol i uwch reolwyr i'w galluogi i gefnogi cydweithwyr niwrowahanol yn well. Mae'r fenter hon yn gam cadarnhaol tuag at gryfhau ymwybyddiaeth, hyrwyddo cyfle cyfartal, a meithrin diwylliant gweithle mwy cynhwysol ledled yr Awdurdod.

**Amcan:** Byddwn yn cymryd camau i wella **safonau byw** pobl sydd dan anfantais oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau bod pob polisi, cynllun a phrosiect newydd neu ddiwygiedig yn cael eu sgrinio am yr angen i gynnal Asesiadau Effaith Cydraddoldeb llawn, ac i'r rhai sydd angen, sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a nodwyd. | Bydd asesiadau effeithiol yn sicrhau fod yr holl bolisïau a chynlluniau yn deg. Bydd asesiadau yn sicrhau fod pob prosiect newydd yn rhoi ystyriaeth i faterion hygyrchedd o'r cychwyn cyntaf. | Pawb | Penaethiaid Gwasanaeth, Rheolwyr Prosiectau a Swyddogion sy'n arwain. |

**Adroddiad Diweddaru 2025/26:**

Mae'r holl Strategaethau, Cynlluniau a Pholisïau newydd neu ddiwygiedig wedi cael Sgriniad Asesiad Effaith Cydraddoldeb yn ystod 2025/26. Mae asesiadau llawn wedi'u cynnal ar bob Strategaeth, Cynllun a Pholisi sydd â'r potensial i gael effaith negyddol ac anghymesur ar bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys effeithiau cronnus economaidd-gymdeithasol o ran Penderfyniadau Strategol. Os yn addas, mae mesurau lliniaru priodol wedi'u nodi a'u rhoi ar waith.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod pob digwyddiad a gweithgaredd a drefnir gan yr Awdurdod ar gyfer y cyhoedd yn | Bydd hyn yn sicrhau cyn belled â phosib na fydd unrhyw rwystrau rhag cymryd rhan. | Pawb | Trefnwyr digwyddiadau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynhwysol a bod asesiad hygyrchedd wedi cael ei wneud. | | | |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Mae ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau allanol wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod misoedd yr haf (e.e. teithiau cerdded, yoga coetir, digwyddiadau a gweithgareddau addysgol plant a phobl ifanc ac ati). Mae pob trefnydd digwyddiad yn gyfrifol am sicrhau bod digwyddiadau'n cael eu hasesu'n llawn ar gyfer hygyrchedd ar yr un pryd ag y cynhelir yr asesiad risg cynhwysfawr, er mwyn sicrhau bod pob cyfranogwr a oedd am gymryd rhan yn gallu gwneud hynny'n ddiogel.

Roedd digwyddiadau cyfarfodydd cyhoeddus wyneb yn wyneb ac ar-lein yn cynnwys cyfleusterau cyfieithu i alluogi pobl ddi-gymraeg i gymryd rhan yn llawn a deall cyfraniad pawb, a chlustffonau addas ar gyfer y rhai sydd angen dolen glyw. Gall yr Awdurdod hefyd drefnu palan deipydd os oes angen.

Mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd a hyrwyddo, gwahoddiadau ac ati yn gwbl ddwyieithog bob amser.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy trwy bolisïau effeithiol yng NghDLl Eryri a'r Canllaw Cynllunio Atodol ar Dai Fforddiadwy. | Mae argaeledd tai fforddiadwy yn bwysig i gefnogi'r gymuned leol. | Pawb | Cyfarwyddwr Cynllunio & Rheolwr Cynllunio |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Heb os, mae'r tîm Polisi Cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau tai, yr Hwylusydd Tai Gwledig a'r Awdurdodau Tai yng Nghynghorau Gwynedd a Chonwy.

Fodd bynnag, er gwaethaf hyn, mae'r targed a osodwyd yn y CDLl o ddarparu 25 o unedau tai fforddiadwy newydd y flwyddyn wedi'i fethu. Dim ond 4 uned tai fforddiadwy oedd ymhlith y 25 eiddo preswyl newydd a gafodd ganiatâd cynllunio rhwng Ebrill 2025 a Mawrth 2026. Mae nifer y tai fforddiadwy yn is na'r disgwyl dros gyfnod y cynllun ac felly mae angen sylw penodol ar hyn wrth adolygu'r cynllun. Argymhellir y dylai polisïau CDLl yn y dyfodol ganolbwyntio ar gyflawni tai marchnad leol hygyrch a thai fforddiadwy.

Mae darpariaeth tai fforddiadwy yn ddibynnol iawn ar Gymdeithasau Tai. Nid oes llawer o ddyraniadau preifat yn cael eu cyflwyno ar gyfer datblygu, ac felly nid ydynt yn cyfrannu llawer at dai fforddiadwy. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol yn tynnu sylw at y ffaith fod y nifer cyfyngedig o ddatblygiadau tai gan y sector preifat yn y Parc Cenedlaethol yn arwain at gyfraniad cyfyngedig iawn at ddarparu tai fforddiadwy.

Mae cwblhadau tai yn gyffredinol wedi bod yn gyson is na'r Gofyniad Tai Blynyddol a Ragwelir, gyda diffyg cronnol sylweddol ers dechrau cyfnod y cynllun. Mae'r ddogfen hefyd yn cysylltu'r targed â Chynllun Eryri, sy'n cynnwys y canlyniad cymunedol/economaidd: "Mae atebion arloesol yn ymwneud â thai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu yn yr ardal yn cael eu gweithredu."

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau mewnbwn gan gynrychiolwyr o grwpiau sydd â nodweddion a ddiogelir yn gynnar yn y broses, wrth ddylunio adeiladau newydd neu adnewyddu adeiladau presennol. | Sicrhau fod adeiladau'r Awdurdod yn hygyrch i bawb. | Pobl Anabl | Pennaeth Eiddo a Phenaethiaid Gwasanaeth perthnasol |
| **Adroddiad Diweddaru 2025/26:**<br><br>Nid godwyd unrhyw adeiladau newydd ac ni wnaed unrhyw waith adnewyddu sylweddol a oedd yn cynnwys newidiadau i fynediad pobl a'r defnydd o adeilad ar adeiladau'r Awdurdod yn ystod 2025/26. | | | |

**Amcan:** Byddwn yn gwella canlyniadau **iechyd, llesiant a gofal cymdeithasol**.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Sicrhau fod y grŵp Iechyd a Lles Staff sydd wedi ei sefydlu yn ddiweddar, yn cyflawni gweithrediadau / newidiadau cadarnhaol i gefnogi staff. | Bydd gweithrediadau cadarnhaol yn cefnogi iechyd a llesiant staff. | Pawb | Pennaeth Adnoddau Dynol |
| **Adroddiad Diweddaru 2025/26:**<br><br>Mae Fforwm Ymgysylltu a Llesiant Staff yn parhau i hyrwyddo mentrau sy'n cefnogi llesiant staff.<br><br>Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch wedi ei ail-sefydlu gyda ffocws cryfach ar fonitro a gwelliant parhaus. Mae'r Swyddog Iechyd a Diogelwch yn cyflwyno ystadegau'n rheolaidd fel mater o drefn ynghylch digwyddiadau, damweiniau a damweiniau fu | | | |

bron a digwydd ac mae'r grŵp yn mynd ati i adolygu tueddiadau, trafod y gwersi a ddysgwyd a goruchwylio'r gwaith o roi'r cynlluniau gweithredu sy'n deillio o hynny ar waith. Mae'r dull hwn wedi cryfhau ein goruchwyliaeth sefydliadol ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant iechyd a diogelwch rhagweithiol ledled yr Awdurdod.

Mae ap Pwls 'Olwyn Deimladau' wedi ei ddatblygu a'i weithredu ar draws yr Awdurdod. Mae'r adnodd yn galluogi staff i gofnodi sut maent yn teimlo ar adeg benodol drwy ddefnyddio methodoleg olwyn teimladau syml, gan annog hunan-fyfyrio rheolaidd. Wrth gymryd saib r yn ystod y diwrnod gwaith i ystyried eu llesiant emosiynol, anogir staff i ddatblygu gwell ymwybyddiaeth o'r ffactorau a all fod yn effeithio arnynt. Mae'r dull ragweithiol yma yn mynd i gynorthwyo'r Awdurdod i ddeall llesiant y gweithlu yn well, yn nodi patrymau dros amser, gwerthuso effeithlonrwydd cynlluniau llesiant a thargedu cymorth lle mae ei angen fwyaf.

Mae ystod o fentrau llesiant wedi'u cyflwyno drwy gydol y flwyddyn i gefnogi iechyd, llesiant ac ymgysylltiad gweithwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithgareddau megis clybiau darllen, sesiynau Pilates a chlybiau cerdded a rhedeg, gan ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd i staff gefnogi eu llesiant corfforol a meddyliol.

I ategu'r mentrau hyn, mae adnoddau llesiant ychwanegol wedi'u darparu drwy'r mewnrwyd, gan alluogi staff i gael mynediad at gymorth ar adeg sy'n gyfleus iddynt. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys sesiwn "Sut i Wella Eich Cwsg", cwrs myfyrdod dan arweiniad, a fideo loga yn y Swyddfa sy'n dangos ymarferion syml y gellir eu cyflawni yn y gweithle. Mae'r dull hyblyg hwn yn helpu i hyrwyddo arferion iach, yn annog staff i gymryd seibiannau rheolaidd er budd eu llesiant, ac yn cefnogi ymrwymiad yr Awdurdod i feithrin amgylchedd gwaith cadarnhaol ac iach.

Er mwyn cryfhau ymhellach ymrwymiad yr Awdurdod i gefnogi llesiant gweithwyr, cynigiwyd asesiad iechyd a llesiant am ddim i bob aelod o staff, a ddarparwyd gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol Cyngor Gwynedd. Bu Nyrsys Iechyd Galwedigaethol yn ymweld â'r gweithle dros gyfnod o dri diwrnod, gan gynnal gwiriadau ar ddangosyddion iechyd allweddol megis pwysedd gwaed, colesterol, pwysau a Mynegai Màs y Corff (BMI).

Cafodd staff hefyd gyfle i drafod eu llesiant meddyliol mewn amgylchedd cyfrinachol ac, lle bo'n briodol, fe'u cyfeiriwyd at wasanaethau cymorth ychwanegol. Cefnogodd y fenter hon ymwybyddiaeth o iechyd a llesiant personol, hwyluso'r broses o adnabod pryderon iechyd posibl yn gynnar, ac atgyfnerthu dull rhagweithiol yr Awdurdod o hyrwyddo gweithlu iach a gwydn.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; i weithio | Mi fydd cynllun rhagnodi cymdeithasol yn cael effaith | Pawb, ond pobl anabl yn benodol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gydag amryw o bartneriaid a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i dreialu o leiaf 1 cynllun rhagnodi cymdeithasol. | gadarnhaol uniongyrchol ar y cyfranogwyr. | | |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Yn ystod 2025, cyflwynwyd y Teithiau Cerdded Tywys Ymwybyddiaeth Ofalgar ar ddydd Sadwrn cyntaf pob mis, bob yn ail rhwng Gogledd a De Eryri ar draws ardaloedd tawelach y Parc Cenedlaethol, megis Cwm Pennant, Ceunant Cynfal a Choed Dolfriog. Dewiswyd y lleoliadau hyn yn fwriadol i ddarparu lleoliadau heddychlon. Mae adborth hefyd yn dangos bod cyfranogwyr yn gwerthfawrogi cael eu tywys trwy rannau tawelach o'r Parc Cenedlaethol, a oedd yn cefnogi ymdeimlad o hwylustod, ac yn annog myfyrio.

Cynhaliwyd sesiynau loga awyr agored eto yn 2025-2026 ac mae wedi parhau i ddenu nifer dda, gan gynnig ffordd wahanol i gyfranogwyr brofi'r Parc Cenedlaethol wrth gefnogi lles corfforol a meddyliol. Mae adborth yn adlewyrchu gwerth cyfuno symudiad ysgafn ag amgylchedd naturiol, gan gyfrannu at deimladau o ymlacio ac adfywio.

Mae sesiynau Ysgol Goedwig wedi profi'n boblogaidd unwaith eto, yn enwedig gyda theuluoedd a phlant yn ystod cyfnodau gwyliau'r ysgol. Mae'r sesiynau hyn yn cefnogi cysylltiad cynnar â natur trwy chwarae, archwilio a dysgu, gan helpu i fagu hyder, chwilfrydedd ac ymwybyddiaeth amgylcheddol o oedran ifanc. Eleni ariannwyd y sesiynau gan y Bartneriaeth Awyr Agored, a mynychodd 60 o blant.

Ar draws yr holl weithgareddau lles a gyflwynwyd yn ystod 2025, cymerodd cyfanswm o 166 o gyfranogwyr ran.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2025.

| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a adnabyddir o fewn Cynllun Eryri; hyrwyddo a galluogi amryw o weithgareddau gan gynnwys cyfleoedd gwirfoddoli, a fydd yn gwella llesiant pobl. | Bydd cynyddu'r cyfleoedd ar gael a'u hyrwyddo'n eang, yn rhoi fwy o gyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Mae nifer sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn parhau i gael eu datblygu/cefnogi gan y Swyddog Gwirfoddoli a Lles trwy weithredu'r Strategaeth Gwirfoddoli a Lles.

Mae pobl yn dod i wirfoddoli gyda ni am lawer o resymau sy'n amrywio o gynyddu cysylltiadau cymdeithasol, datblygu sgiliau personol a gwaith gwerthfawr ac i roi yn ôl a gofalu am eu cymuned. Mae'r Awdurdod hefyd yn elwa'n fawr trwy gael gwirfoddolwyr yn helpu a chefnogi gwaith ein staff cyflogedig.

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol Yr Wyddfa a De Eryri wedi gwneud gwahaniaeth hynod gadarnhaol unwaith eto. Maent yn darparu gwybodaeth a chyngor i ymwelwyr, hyrwyddo ymddygiad cyfrifol, a helpu i gynnal presenoldeb gweladwy a chroesawgar ar lwybrau poblogaidd ar Yr Wyddfa, Cader Idris ac Ogwen

Mae Caru Eryri yn canolbwyntio ar amrywiol weithgareddau cadwraeth, gan gynnwys casglu sbwriel, cynnal a chadw llwybrau troed, a glanhau traethau, i sicrhau cadwraeth a chynaliadwyedd y parc. Yn 2025-2026, parhaodd y cynllun i esblygu gyda sifftiau penwythnos rheolaidd, targedu'r llwybrau mwyaf poblogaidd yn Eryri, mwy o bwyslais ar ddatblygiad gwirfoddolwyr gyda gwirfoddolwyr profiadol yn arwain sifftiau. Casglodd tîm Caru Eryri gyfanswm o 413.54kg o sbwriel ar eu patrolau. Mae'r rhaglen hefyd yn parhau i ymgysylltu yn rheolaidd gyda grwpiau cymunedol megis Pobl i Bobl grŵp cymorth ym Mangor ar gyfer ffoaduriaid yn bennaf o Syria, Afganistan, a'r Wcráin, sy'n cynnig cyfleoedd gwirfoddoli rheolaidd. Mae'r fenter hon yn darparu ffordd i ffoaduriaid i ddatblygu ymdeimlad o berthyn a chysylltiad â lle.

Nod ymgysylltu pobl ifanc yng ngwaith cadwraeth yr Awdurdod yw ysbrydoli, addysgu a meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb yn y genhedlaeth iau, gan sicrhau eu bod yn chwarae rhan weithredol wrth warchod yr amgylchedd naturiol wrth ddatblygu sgiliau gwerthfawr.

Fe ail-lansiwyd cynllun Ceidwaid Ifanc yn ystod Haf 2025, ac ers hynny mae'r cynllun wedi tyfu o nerth i nerth. Mae 45 o bobl ifanc wedi cofrestru a dros 50 awr o waith gwirfoddol wedi ei gwblhau ar brosiectau cadwraethol ac awyr agored ar draws Eryri.

Dros y flwyddyn nesaf, bydd y cynllun yn cynnig gweithgareddau cadwraethol a sesiynau awyr agored wedi'u cynllunio ar gyfer pobl ifanc sy'n byw yn Eryri a'r ardaloedd cyfagos. Bydd y gweithgareddau'n cynnwys cynnal a chadw llwybrau, archwilio'r dirwedd fynyddig, adnabod rhywogaethau prin, a dysgu am reoli a gwarchod cynefinoedd naturiol.

Mae'r rhaglen wedi'i gyd-gynhyrchu gydag Arweinyddion Ifanc ac mae'n cynnig manteision addysgol a phersonol sylweddol. Gellir defnyddio'r oriau gwirfoddoli fel rhan o Fagloriaeth Cymru, Gwobr Dug Caeredin, CV, neu gymwysterau tebyg. Ar ôl cwblhau 10 awr o wirfoddoli, gellir defnyddio'r oriau hyn fel credydau tuag at gyrsiau penodol ym maes awyr agored neu gadwraeth.

Mae gwybodaeth fanylach ar gael yn Adroddiad Blynyddol Gwirfoddolwyr a Llesiant 2025.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau yn eglur, gyda APCE yn canolbwyntio ei adnoddau ar lwybrau aml-ddefnyddwyr a llwybrau'r ucheldir. | Bydd rhwydwaith o lwybrau sydd wedi eu cynnal a'u cadw'n dda ar draws y Parc Cenedlaethol, gyda'u haddasrwydd yn hawdd i'w hadnabod, yn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion y Parc Cenedlaethol i wella eu hiechyd a'u llesiant. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

**Gwaith Cynnal a Chadw ar Lwybr Mawddach:** Mae Llwybr Mawddach yn un o'r llwybrau aml-ddefnydd prysuraf yn Eryri, gan groesawi ymwelwyr o bob oed a gallu drwy gydol y flwyddyn. Yn ystod haf 2025, cwblhaodd Tîm Llwybrau Troed Parc Cenedlaethol Eryri 7 cilomedr o waith cynnal a chadw ataliol a gwelliannau ar hyd y llwybr. Buom yn cydweithio â Byw'n Iach i osod arwyddion ar gyfer llwybr rhedeg 5 cilomedr, sy'n boblogaidd ymhlith rhedwyr.

Roedd y gwaith yn cynnwys clirio deunydd oedd wedi cronni ar ymylon y llwybr er mwyn gwella draeniad yr arwyneb, ailbroffilio rhannau o'r llwybr ac ail-wynebu mannau lle'r oedd angen gwneud hynny. Mae'r gwelliannau hyn yn cynorthwyo i arbed difrod a dirywiad a achosir gan ddŵr, wrth gynnal llwybr diogel, hygyrch a phleserus i ystod eang o ddefnyddwyr gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn, beicwyr a phobl â symudedd cyfyngedig.

**Coed Abergwynant - Gwelliannau Hygyrchedd i Lwybrau Coetir:** Yn ystod Haf 2025, nododd Warden Mawddach gyfle i wella hygyrchedd ar hyd y 'Llwybr Glas' yng Nghoed Abergwynant, gan alluogi pobl ag ystod ehangach o alluoedd i fwynhau'r goedwig. Gyda chymorth ariannol gan raglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy, cwblhawyd y gwelliannau gan Dîm Llwybrau Troed Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yng ngwanwyn 2026.

Roedd y prosiect yn cynnwys gwella aliniad y llwybr o amgylch rhan serth a oedd gynt yn rhwystr i rai defnyddwyr, lledu ac ail-wynebu rhannau o'r llwybr, a gwella'r draeniad. Yn gyfan gwbl, uwchraddiwyd 2.3 km o lwybrau coetir, gyda chysylltiadau gwell â Llwybr Mawddach, gan greu cyfleoedd hamdden ychwanegol i drigolion lleol ac ymwelwyr. Roedd y gwelliannau pellach yn cynnwys gosod meinciau picnic

hygyrch a wnaed yn lleol, ynghyd â cherfiadau pren artistig yn darlunio'r bywyd gwyllt a geir yn y goedwig.

Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud cyfraniad pwysig at ymrwymiad yr Awdurdod i ddarparu mynediad lleiaf cyfyngol, gan alluogi mwy o bobl i brofi a mwynhau amgylchedd naturiol Eryri.

**Mynydd Moel - Gwaith Adfer Llwybrau'r Ucheldir:** Cwblhawyd 180 metr ychwanegol o risiau cerrig ar Fynydd Moel i fynd i'r afael ag erydiad parhaus ar hyd y llwybr poblogaidd hwn i Gadair Idris. Cyflawnwyd y gwaith gan Snowdon Wallers, gyda chyllid yn cael ei ddarparu mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru. Bydd y gwelliannau yn cynorthwyo i sefydlogi'r llwybr, rheoli effeithiau defnydd hamdden a lleihau difrod i Warchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris. Drwy greu arwyneb cerdded mwy gwydn a lleihau lledaeniad erydiad, mae'r prosiect yn cefnogi cynaliadwyedd hir-dymor y llwybr mynediad pwysig hwn.

**Llwybr Llanberis - Gwaith Cynnal a Chadw Ataliol Brys:** Yn dilyn archwiliad ym mis Tachwedd 2025, nodwyd problemau erydu a draenio sylweddol ar hyd Llwybr Llanberis, un o'r llwybrau prysuraf sy'n arwain at gopa'r Wyddfa. Ym mis Rhagfyr 2025, comisiynodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gontractwr lleol i ymgymryd â gwaith cynnal a chadw ataliol brys, gan gynnwys ailagor ffosydd draenio, clirio draeniau wedi'u blocio ac ymdrin ag ardaloedd o erydu difrifol.

Roedd y gwaith yn hanfodol er mwyn atal dirywiad pellach yn ystod misoedd y gaeaf, diogelu seilwaith presennol y llwybr a lleihau'r difrod i'r cynefinoedd cyfagos. Bu'r ymyrraeth hefyd yn gymorth i fynd i'r afael ag ehangu sylweddol y llwybr, a oedd wedi cyrraedd hyd at 20 metr o led mewn rhai mannau wrth i gerddwyr geisio osgoi rhannau a oedd wedi'u herydu'n ddifrifol.

Mae'r gwaith atgyweirio amserol hwn wedi helpu i ddiogelu'r llwybr poblogaidd hwn yn yr ucheldir, lleihau'r risg o ddifrod amgylcheddol pellach a gwarchod buddsoddiad blaenorol tra bo gwelliannau hirdymor yn cael eu datblygu.

**Gwaith cynnal a chadw – Bwlch Maesgwm, Llwybr Cwellyn, Lôn Gwyrfai and Llwybr Rhyd Ddu:** Drwy gydol 2025–2026, ymgymerwyd â gwaith cynnal a chadw ar nifer o lwybrau ucheldir ac aml-ddefnydd poblogaidd yn ardal Rhyd Ddu, gan gynnwys Bwlch Maesgwm, Llwybr Cwellyn, Lôn Gwyrfai a Llwybr Rhyd Ddu.

Cyfrannodd y gwaith hwn yn uniongyrchol at amcanion Cynllun Eryri drwy gynnal seilwaith mynediad hamdden pwysig a helpu i sicrhau bod y llwybrau'n parhau mewn cyflwr da er budd trigolion ac ymwelwyr. Canolbwyntiodd y rhaglen gynnal a chadw ar warchod cyflwr y llwybrau hyn, gwella profiad defnyddwyr ac atal mân ddiffygion rhag datblygu'n broblemau mwy sylweddol. Mae'r dull rhagweithiol hwn yn helpu i ddiogelu'r buddsoddiad presennol mewn seilwaith llwybrau, lleihau'r angen am waith atgyweirio mwy helaeth yn y dyfodol, a chefnogi argaeledd parhaus cyfleoedd hamdden ledled y Parc Cenedlaethol.

**Datblygu Dulliau Newydd o Arolygu Llwybrau'r Ucheldir:** Yn ystod 2025–2026, datblygodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gan weithio mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru, ddull newydd o arolygu ac asesu cyflwr llwybrau'r ucheldir, gan ddefnyddio arferion da sefydledig o ardaloedd ucheldirol eraill yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon.

Mae'r fethodoleg yn cyflwyno system gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cofnodi erydiad, perfformiad draenio, cyflwr llwybrau a gofynion cynnal a chadw, gan helpu i nodi lle mae angen ymyrraeth fwyaf brys. Bydd y dull hefyd yn galluogi'r Awdurdod a'i bartneriaid i amcangyfrif costau atgyweirio, blaenoriaethu adnoddau yn fwy effeithiol a monitro newidiadau yng nghyflwr llwybrau dros amser.

Disgwylir i'r rhaglen arolygu ddechrau yn ystod 2026–2027, gan ganolbwyntio'n gyntaf ar archwiliad cynhwysfawr o lwybrau'r Wyddfa cyn ehangu'n raddol i lwybrau ucheldirol blaenoriaeth eraill ledled Eryri. Mae hyn yn gam pwysig tuag at ddull mwy rhagweithiol, cynaliadwy sy'n seiliedig ar dystiolaeth o reoli rhwydwaith llwybrau ucheldirol y Parc Cenedlaethol, gan sicrhau bod adnoddau cyfyngedig yn cael eu targedu at yr ardaloedd sydd â'r angen mwyaf.

**Datblygu Partneriaeth Mynediad Ucheldirol Eryri:** Yn ystod 2025–2026, ymgymerwyd â gwaith cychwynnol i archwilio'r posibilrwydd o sefydlu Partneriaeth Mynediad Ucheldirol Eryri newydd, gyda'r nod o wella rheolaeth a chynaliadwyedd hirdymor rhwydwaith llwybrau ucheldirol y Parc Cenedlaethol.
Mae gweledigaeth gychwynnol a fframwaith strategol wedi'u drafftio, gan archwilio cyfleoedd ar gyfer cydweithio agosach rhwng cyrff cyhoeddus, sefydliadau cadwraeth, tirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â mynediad i'r ucheldir. Nod y bartneriaeth arfaethedig yw sefydlu dull mwy cyd-gysylltiedig o arolygu, cynnal ac atgyweirio llwybrau ucheldirol, wedi'i ategu gan flaenoriaethau a rennir, safonau cyson a chyllid cynaliadwy tymor hir.

Un o'r prif uchelgeisiau yw symud oddi wrth ddull adweithiol o atgyweirio at raglen gynlluniedig o gynnal a chadw ataliol, gan hefyd gefnogi cyflogaeth leol, datblygu sgiliau a chadwraeth amgylcheddol. Mae'r gwaith cychwynnol hwn yn darparu sail ar gyfer trafodaethau pellach gyda phartneriaid posibl a datblygu dull cydgysylltiedig sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddiogelu llwybrau ucheldirol Eryri er budd cenedlaethau'r dyfodol.

**Giatiau Haearn Traddodiadol Llyn Cynwch:** Buom yn cydweithio â gofaint lleol i ddylunio gatiau haearn traddodiadol sydd yn cau eu hunain. Gosodwyd y gatiau gan gontractwr lleol ar Lwybr Cynwch.

**Difrod Stormydd:** Mae'r Wardeiniaid wedi ymgymryd â gwaith helaeth o glirio coed yn dilyn y difrod a achoswyd gan stormydd y gaeaf diwethaf. Maent wedi clirio coed o nifer o safleoedd, gan gynnwys Coed Hafod, Coed Bryn Brethynau a Lôn Gwyrfai, gan sicrhau bod y llwybrau hyn yn gallu aros ar agor. O bryd i'w gilydd, bydd y gwasanaeth Wardeiniaid yn cynorthwyo perchnogion tir i glirio coed sydd wedi

cwympo ar draws Hawliau Tramwy Cyhoeddus, yn enwedig pan fo'r llwybrau dan sylw yn rhai poblogaidd ac yn cael eu defnyddio'n helaeth. Mae'r cymorth hwn bob amser yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan y gymuned leol.

**Llwybrau Trefriw:** Penododd Warden yr ardal gontractwr i osod amrywiaeth o farcwyr llwybr ar hyd nifer o lwybrau troed yng nghymuned Trefriw. Cyflawnwyd y gwaith hwn mewn cydweithrediad â phrosiect Llwybrau Trefriw, sy'n hyrwyddo amrywiaeth o lwybrau sy'n addas ar gyfer gwahanol alluoedd yn y gymuned. Roedd y gwaith yn cynnwys cydweithio'n agos ag aelodau'r gymuned wrth gynnal arolygon a phenderfynu ar leoliadau addas ar gyfer gosod y marcwyr llwybr.

**Llwybrau Ceffylau Cwm Pennant:** Ar ran y gwasanaeth Wardeiniaid, mae contractwyr wedi amnewid gatiau diffygiol a rhai wedi torri ar nifer o lwybrau ceffylau ym mherfeddion Cwm Pennant tuag at Fwlch y Ddwy Elor. O ganlyniad, mae cyfres o gatiau metel hunan-gau bellach yn eu lle, sydd nid yn unig yn gwella mynediad a diogelwch, ond sydd hefyd yn cynorthwyo tirfeddianwyr gyda rheolaeth ar dda byw.

**Tynnu Carneddau Cerrig:** Mae Wardeiniaid yr ardal wedi bod yn gweithio'n agos gyda gwirfoddolwyr i gael gwared ar garneddau cerrig answyddogol o Lwybr Cwellyn i fyny'r Wyddfa. Defnyddiwyd y cerrig a dynnwyd o'r carneddau i atgyweirio rhannau o'r llwybr er mwyn lleihau erydiad presennol ac atal pobl rhag cyfrannu at erydiad pellach. Defnyddiwyd cerrig o'r carneddau hefyd i godi wal gerrig fechan, a'r gobaith yw y bydd hyn yn atal cerddwyr rhag creu llwybrau byrion newydd oddi ar y llwybr swyddogol, a fyddai fel arall yn arwain at fwy o erydiad yn y pen draw.

**Yr Wyddfa - Cynnal a Chadw Llwybrau:** Mae Wardeiniaid yr ardal wedi bod yn arwain rhaglen cynnal a chadw ac atgyweirio llwybrau gyda chymorth y Wardeiniaid Gwirfoddol. Mae hyn yn cynnwys trefnu diwrnodau gwaith ar y llwybrau, lle mae'r gwirfoddolwyr yn cyflawni gwaith cynnal a chadw pwysig megis ailagor ffosydd draenio ochr sydd wedi blocio, glanhau cwlferi a mynd i'r afael â phroblemau erydiad penodol, gan gynnwys digwyddiad erydiad diweddar ym Mwlch y Moch ar Lwybr y Pyg.

**Arwyddbyst a Marcwyr Llwybr:** Mae'r Wardeiniaid yn brysur yn rheolaidd yn gosod marcwyr llwybr ac arwyddbyst, ac nid oedd eleni yn eithriad. Gosodwyd pyst a disgiau marcwyr llwybr ar nifer o Hawliau Tramwy Cyhoeddus, a chomisiynwyd a gosodwyd arwyddbyst pren newydd ar lwybrau poblogaidd, gan gynnwys Pen ar Lôn yn Rhyd Ddu ac ar hyd Llwybr Llanberis tua Maesgwm.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu'n sylweddol at leihau problemau mynediad, nid yn unig o safbwynt cerddwyr sy'n gwerthfawrogi'r eglurder ychwanegol, ond hefyd o safbwynt tirfeddianwyr sy'n cysylltu'n rheolaidd â'r gwasanaeth Wardeiniaid i ofyn am gymorth i sicrhau bod ymwelwyr yn dilyn y llwybrau cywir a swyddogol.

**Gatiau, Camfeydd a Dodrefn Mynediad Eraill:** Mae llawer o waith mynediad y gwasanaeth Wardeiniaid yn parhau i ganolbwyntio ar gynnal a chadw dodrefn mynediad ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus a thir Mynediad Agored. Cynhaliwyd nifer o brosiectau i atgyweirio neu amnewid dodrefn mynediad gyda chyfarpar newydd a

gwell, yn aml mewn lleoliadau anghysbell ac anodd eu cyrraedd megis copaon mynyddoedd. Yr her fwyaf gyda'r math hwn o waith yn aml yw'r trefniadau logistaidd sy'n gysylltiedig â chludo'r cyfarpar newydd i'w leoliad terfynol.

Ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus, cyflawnir y gwaith hwn yn bennaf gan y gwasanaeth Wardeiniaid ar ran y tirfeddiannwr. Ar ôl cwblhau'r gwaith, rydym wedi bod yn dosbarthu llythyrau cadarnhau i dirfeddianwyr yn egluro eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â dodrefn mynediad, gyda'r nod o feithrin gwell dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o'r gwaith a gyflawnwn ar eu rhan.

Mae'r gwaith parhaus hwn gan y Wardeiniaid a'r Tîm Llwybrau Mynediad bob amser yn gweithio i ethos 'mynediad lleiaf cyfyngol', e.e. ymdrechu i ddisodli camfeydd ysgol â gatiau sy'n cau eu hunain lle bynnag y bo modd, fel ffordd o wella mynediad i gynifer o bobl â phosibl.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith o gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gwella cyfleoedd mynediad ar gyfer pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio o gymdeithas, gan nodi'r rhwystrau rhag cymryd rhan yn gyntaf. | Unwaith y nodir y rhwystrau, gellir datblygu Cynllun i oroesi'r rhwystrau a chynyddu'r lefelau cyfranogi. | Pobl anabl a grwpiau sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol. | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Yn ogystal â'r diweddariadau blaenorol a ddarparwyd o dan ffrydiau gwaith eraill yn yr adroddiad hwn, mae'r gwasanaeth llogi tramper hefyd yn parhau i ffynnu.

Mae'r gwasanaeth llogi Tramper yn parhau i fod yn elfen bwysig o ymrwymiad yr Awdurdod i fynediad cynhwysol. Yn ystod 2025, cofnododd y gwasanaeth 63 o geisiadau llogi, gan adlewyrchu'r galw parhaus a gwerth y gwasanaeth i ddefnyddwyr.

Mae adborth llogi Tramper 2025 yn paentio darlun clir o wasanaeth hynod werthfawr, emosiynol ystyrlon, ac fe'i gwerthfawrogir yn eang. Mae'r rhaglen yn parhau i ddarparu mynediad sy'n gwella profiad Eryri i bobl ag anghenion symudedd, gyda chefnogaeth staff rhagorol sy'n mynd y tu hwnt i'r hyn y disgwylir yn gyson.

Mae gwaith mynediad y Parc Cenedlaethol yn parhau gyda chynnal a chadw, gwelliannau a datblygu teithiau a hyrwyddir.

Yn ogystal, mae gwaith partneriaeth rhwng y Tirweddau Gwarchodedig yng Nghymru, dan arweiniad a chydlyniad yr Arweinydd Strategol Cynhwysiant, Amrywiaeth a Rhagoriaeth Llywodraethu, yn parhau i wireddu'r weledigaeth a'r nodau a rennir ar gyfer cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Mae gwaith hefyd yn parhau gyda Grŵp Gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Parciau Cenedlaethol y DU i adeiladu gweledigaeth gynhwysol a grëwyd ar y cyd o'r hyn y mae perthyn yn ei olygu, gyda gwaith parhaus gyda thîm Partneriaeth Tirweddau Gwarchodedig o amgylch mentrau ar y cyd yn y DU i yrru camau gweithredu'r weledigaeth trwy ymgyrchoedd ymwybyddiaeth, sioeau teithiol recriwtio, a ffyrdd o gasglu data ymwelwyr i adlewyrchu cynnydd.

| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
|---|---|---|---|
| Fel rhan o'r gwaith i gyflawni'r canlyniadau a nodir yng Nghynllun Eryri; gweithio hefo cymunedau i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. | Mae cymunedau ar ffin y Parc Cenedlaethol yn enwedig y rhai sy'n anodd eu cyrraedd, yn cael eu nodi a'u cynnwys er mwyn cyflawni amcanion y Parc Cenedlaethol. | Pawb | Swyddogion arweiniol a nodir yn y Cynllun. |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/2026</u>:**

Mae cynllun Llysgenhadon Eryri yn parhau i ddatblygu a thyfu mewn poblogrwydd. Mae'r swyddogion/gwasanaethau perthnasol yn cynhyrchu cynnwys ar gyfer modiwlau newydd. Mae'r cynllun yn mynd o nerth i nerth ac mae dros 3,500 o bobl bellach wedi cymhwyso fel Llysgenhadon Eryri ar y wahanol lefelau.

Cwrs ailgymhwyso bellach wedi sefydlu fel modiwl blynyddol ar gyfer y cynllun. Mae'n cynnwys diweddariad gan wahanol adrannau o'r Parc o'u gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae 240 o Lysgenhadon wedi ailgymhwyso.

Mae'r cwrs yn cael ei adolygu a'i diweddaru yn flynyddol. Mae modiwl ychwanegol wedi cael ei gynnwys yn y flwyddyn ddiwethaf sef modiwl ar Warchod ein Coedwigoedd Glaw Celtaidd, sydd yn canolbwyntio ar adnabod a chofnodi rhywogaethau planhigion anfrodorol ymledol a geir ar dir Eryri yn effeithiol. Mae modiwl newydd ar y gweill sydd yn ymwneud â Dringo Mynydd a bydd yn cael ei lansio yn 2026-2027.

Mae'r cynllun yn rhan o gynllun ehangach sef Cynllun Llysgenhadon Cymru ac mae 12 sefydliad ar draws Cymru yn rhan o'r Cynllun.

| **Prosiect / Menter / Gweithred** | **Sut mae hyn yn cyfrannu?** | **Nodweddion a Ddiogelir** | **Swyddog Arweiniol** |
|---|---|---|---|
| Parhau i hyrwyddo a chynnig gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn rhagweithiol. | Codi ymwybyddiaeth ymysg y cyhoedd bod pob gwasanaeth ar gael iddynt trwy gyfrwng y Gymraeg. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer a'r holl staff. |

**Adroddiad Diweddaru 2025/26:**

Mae 95% o staff yr Awdurdod yn ddwyieithog, gan sicrhau bod gwasanaethau ar gael yn dewis iaith y cyhoedd.

Mae cael canran mor uchel o staff sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg yn galluogi'r Awdurdod i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Wedi dweud hynny, y risg fwyaf i'r Awdurdod o hyd yw'r gallu i recriwtio staff â chymwysterau addas sy'n gallu cyfathrebu yn Gymraeg i'r lefel ofynnol ar gyfer swyddi gwag.

Mae'r Awdurdod yn parhau i sicrhau bod pob cyfarfod rhithiol, pwyllgor, digwyddiad a gweminar yn gallu cael cyfleusterau cyfieithu llawn yn yr un modd â chyfarfodydd personol blaenorol.

Mae'r Ysgwrn yn parhau i gynnig cyfleoedd i gymdeithasu drwy'r Gymraeg, drwy wirfoddoli, mynychu digwyddiadau a chymryd rhan mewn gweithgareddau.

Mae'r iaith Gymraeg a hyrwyddo'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brosiectau a rhaglenni ymgysylltu Partneriaeth Tirwedd y Carneddau a chynllun Harlech ac Ardudwy. Cwblhawyd gwaith pellach gan yr artist Anna Pritchard i ddehongli'r enwau, fel rhan o brosiect carthenni enwau dirweddol Eryri. Mae enwau'r Carneddau yn rhan o brosiect adnodd addysg enwau tirweddol Eryri yn ogystal.

Mae'r Adroddiad Monitro blynyddol a gyflwynir i'r Aelodau a Llywodraeth Cymru bob Hydref, wedi dod i'r casgliad bod y polisi datblygu 18: yr Iaith Gymraeg a gwead Cymdeithasol a Diwylliannol Cymunedau yn cael ei weithredu'n effeithiol mewn dwy ran o dair ardal, mae cynlluniau mewn lle i roi hyfforddiant bellach i staff yn yr ardal benodol honno.

Mae gwirfoddolwyr sy'n dysgu Cymraeg yn cael eu partneru gyda rhai sy'n rhugl ac mae holl wybodaeth a deunydd ar gyfer gwirfoddolwyr ar gael yn y ddwy iaith.

Mae'r holl weithgareddau hyn yn sicrhau bod y Gymraeg yn amlwg yng ngwaith bob dydd yr Awdurdod. Rydym bob amser wedi gweithio ar y sail bod gwasanaethau Cymraeg bob amser ar gael heb orfod gofyn amdanynt.

**Amcan:** Byddwn yn gwella **diogelwch personol a hygyrchedd at gyfiawnder**.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Parhau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb, yn enwedig yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth | Mi fydd un neges gyson, wedi ei arwain gan Heddlu Gogledd Cymru a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, ar draws gogledd Cymru yn cael mwy o effaith o lawer. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Trosedd Casineb gyda'n partneriaid yng Ngogledd Cymru | | | |

**Adroddiad Diweddaru 2025/26:**

Cynhaliwyd yr Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb rhwng yr 11eg a 18fed o Hydref 2025.

**Amcan:** Mynd i'r afael ag **anfantais economaidd-gymdeithasol** trwy gynnig gwasanaethau cynhwysol i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn unol â'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

Maes Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Gweithio gyda sefydliadau eraill o'r sector gyhoeddus er mwyn rhannu ymarfer da. | Bydd hyn yn galluogi rhannu syniadau ac ymarfer da er mwyn sicrhau ein bod ni'n gweithredu'r ddyletswydd yn gywir. | Pawb | Tîm Rheoli & Phenaethiaid Gwasanaeth |

**Adroddiad Diweddaru 2025/26:**

Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yn parhau i chwarae rhan weithredol yn Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, lle rhennir arfer gorau a lle mae cefnogaeth a chyngor bob amser ar gael gan sefydliadau sector cyhoeddus eraill. Wrth i amser ac adnoddau ganiatáu, gwneir gwaith a phrosiectau ar y cyd hefyd fel y gall pob sefydliad yn y sector cyhoeddus wneud y defnydd gorau o'u hadnoddau cyfyngedig.

**Amcan:** Byddwn yn gwneud gwaith pellach i sicrhau bod **cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio** i waith yr Awdurdod.

Meysydd Gweithredu:

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth a | Bydd hyn yn sicrhau bod staff ac Aelodau yn cael | Pawb | Arweinydd Strategol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gwella dealltwriaeth staff ac Aelodau ar amrywiol faterion Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (CAC). | eu cefnogi i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth. | | Rhagoriaeth mewn Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Yn ystod 2025/26, chwaraeodd Anna Jones, Arweinydd Strategol Rhagoriaeth Cynhwysiant, Amrywiaeth a Llywodraethu i Tirweddau Cymru, rôl strategol arwyddocaol wrth gynyddu ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a hyder ar draws Tirweddau Dynodedig Cymru, gan gynnwys cefnogaeth helaeth i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, gan helpu i symud sgyrsiau y tu hwnt i ddulliau CAC traddodiadol tuag at ffocws ehangach ar berthyn, hygyrchedd, cyfranogiad, cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder amgylcheddol.

Roedd rhai o'r cyflawniadau allweddol yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

Gweithiodd yn agos gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddylunio a chyflawni ei raglen Perthyn, Mynediad a Chynhwysiant, gan gynnwys cefnogi datblygiad y gweithdy a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2026, nodi a gwahodd arbenigwyr ac ymarferwyr cenedlaethol blaenllaw, a chyflwyno sesiwn trosolwg strategol ar ddatblygiadau cynhwysiant ledled Cymru. Darparwyd cefnogaeth ddilynol hefyd ar hygyrchedd, strategaeth llwybrau troed a blaenoriaethau sefydliadol ehangach.

Cynhaliodd ymglymiad parhaus â thimau staff ehangach Eryri, gan ddarparu cyngor strategol, rhannu arfer gorau, a chefnogi'r gwaith o integreiddio ystyriaethau cynhwysiant i gynllunio sefydliadol, gan gynnwys adolygiad Cynllun Eryri, datblygu strategaeth ymgysylltu a gwaith partneriaeth ehangach.

Datblygu a rhannu adnoddau ymarferol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o faterion CAC ar draws staff ac aelodau, gan gynnwys cylchlythyrau CAC, calendr perthyn, ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth.

Creu cyfleoedd i staff ac aelodau ymgysylltu â materion sy'n dod i'r amlwg drwy hyfforddiant, gweminarau a rhwydweithiau dysgu, gan gynnwys hyrwyddo hyfforddiant arweinyddiaeth Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, rheoli hyfforddiant gwahaniaethu, gweminarau Natur am Byth, cyfleoedd dysgu hygyrchedd a digwyddiadau CAC cenedlaethol.

Cryfhaodd y ddealltwriaeth o wrth-hilioldeb, ymwybyddiaeth ddiwylliannol ac arfer cynhwysol trwy ymgysylltu parhaus â thîm gweithredu Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliol Cymru, Cyngor Hil Cymru, Focal Elements, Mosaic, Hinsawdd Cymru a phartneriaid arbenigol eraill, gan sicrhau bod dysgu a chyfleoedd yn cael eu rhannu â staff tirwedd a thimau arweinyddiaeth.

Helpodd i lunio dealltwriaeth fwy strategol o gynhwysiant drwy gyflwyno cysyniadau fel cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol, egwyddorion trosi cyfiawn, dad-

wladychu diwylliant a threftadaeth, a rhwystrau i gyfranogiad mewn natur, gan ddylanwadu ar drafodaethau ar draws Tirweddau Dynodedig ac o fewn Eryri.

Cefnogwyd ymwybyddiaeth staff o hygyrchedd a chynhwysiant anabledd drwy raglen Gweld Cymru'n Wahanol dan arweiniad RNIB mewn partneriaeth â Thirweddau Cymru, gan gysylltu staff Eryri ag arfer arloesol o amgylch colli golwg, disgrifiadau sain, archwiliadau mynediad, hyfforddiant tywyswyr-cerddwyr a datblygu llwybrau hygyrch. Daeth Eryri hefyd yn rhan agos o waith tuag at achrediad Cyflogwr Gweladwy Gwell RNIB.

Darparwyd cefnogaeth uniongyrchol ar faterion polisi a gweithredol sy'n effeithio ar ddealltwriaeth a hyder staff, gan gynnwys cyngor ar safonau hygyrchedd, asesiadau integredig, polisïau cydraddoldeb, recriwtio, gwirfoddoli, Asesiadau Effaith Iechyd, datblygiadau canllawiau cydraddoldeb y Goruchaf Lys a dyletswyddau sector cyhoeddus sy'n dod i'r amlwg.

Hyrwyddodd fwy o ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o faterion llywodraethu, cynrychiolaeth a chynhwysiant drwy waith datblygu llywodraethu, cefnogaeth i fentrau hyfforddi aelodau, cymryd rhan mewn trafodaethau ar benodiadau cyhoeddus a chyflawni gwaith i gryfhau amrywiaeth a chynhwysiant o fewn trefniadau llywodraethu yn y dyfodol.

**Effaith Strategol**

Yn gasgliadol, helpodd y gwaith hwn i feithrin dealltwriaeth sefydliadol nad yw cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth yn weithgareddau annibynnol ond yn ystyriaethau craidd wrth wneud penderfyniadau, llywodraethu, adfer natur, mynediad, iechyd a lles, gwirfoddoli, ymgysylltu a pherthnasoedd cymunedol. Trwy arweinyddiaeth, hyfforddiant, adeiladu partneriaethau a chyngor strategol, helpodd Anna i Eryri a'r teulu o Dirweddau Dynodedig ehangach i gymryd ymagwedd fwy hyderus, gwybodus a chyd-gysylltiedig tuag at gynhwysiant a pherthyn.

| Prosiect / Menter / Gweithred | Sut mae hyn yn cyfrannu? | Nodweddion a Ddiogelir | Swyddog Arweiniol |
|---|---|---|---|
| Darparu cefnogaeth a (lle bo hynny'n berthnasol) hyfforddiant i staff ar sicrhau bod eu Hasesiadau Effaith Cydraddoldeb yn gadarn. | Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau.<br>Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn datblygu eu sgiliau. | Pawb | Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer |

**<u>Adroddiad Diweddaru 2025/26</u>:**

Mae'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer fel arfer yn gweithio gydag aelodau staff unigol perthnasol ar ddatblygu Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar gyfer y Cynllun, y Polisi, neu'r Strategaeth sy'n cael ei adolygu neu ei ddatblygu. Mae Asesiad hefyd yn cael ei wneud ar unrhyw Benderfyniad Strategol. Mae hyn yn sicrhau cyn belled ag y bo modd, bod yr asesiadau mor gadarn ag y gallant fod, a lle bo'n berthnasol hefyd yn cynnwys asesiad cadarn o effaith economaidd-gymdeithasol ar Benderfyniadau

Strategol. Mae'r Asesiadau yn ddogfennau byw ac felly fe'u diwedderir fel bo'r angen yn godi.

## 5. Hyfforddiant

Mae modiwlau dwyieithog ar-lein ar gael ar ELMS ar y pynciau canlynol i staff:

- Urddas a Pharch yn y Gwaith
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y Gwaith
- Asesiadau Effaith Cydraddoldeb
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Cynhwysiant Niwroamrywiaeth
- Cyflwyniad i Iechyd a Diogelwch
- Cyflwyniad i Gymorth Cyntaf
- Bwlio ac Aflonyddu
- Ymwybyddiaeth o Straen

## 6 Asesiadau Effaith Cydraddoldeb

Mae gan yr Awdurdod systemau ar waith i sgrinio ac asesu effaith unrhyw strategaethau, cynlluniau, gweithdrefnau, arferion newydd neu ddiwygiedig neu unrhyw benderfyniadau mawr y mae'n eu gwneud. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd 9 asesiad sgrinio, ac roedd 4 angen asesiad effaith cydraddoldeb llawn.

Islaw mae crynodeb byr o'r asesiadau effaith cydraddoldeb llawn a gynhaliwyd.

<u>Cynllun yr Wyddfa</u>
Adolygiad o Gynllun Yr Wyddfa, gan Bartneriaeth Yr Wyddfa. Mae'n gynllun rheoli sy'n dangos sut y bydd yr holl gyrff sy'n rhan o'r bartneriaeth yn cyflawni eu hymrwymiadau a'u dyletswyddau i'r mynydd. Er nad yw'n orfodol, credir bod Cynllun Yr Wyddfa yn hynod bwysig gan bob partner oherwydd pwysigrwydd y mynydd. Rydym yn gweithio gyda'n gilydd i feithrin a gwella'r nodweddion sy'n gwneud Yr Wyddfa yn arbennig.

Gallai'r prosiect gael effaith uniongyrchol ar bob eiddo preswyl a busnes o fewn ardaloedd Yr Wyddfa gan gynnwys Llanberis, Nant Peris, Nant Gwynant, Beddgelert, Rhyd Ddu a Waunfawr nawr ac yn y dyfodol. Mi fydd y prosiect yn cael effaith ar ymwelwyr i'r Wyddfa nawr ac yn y dyfodol yn ogystal. Oherwydd hyn, cynhaliwyd asesiad effaith llawn.

Gan mai adolygiad a diweddariad yw hwn o'r Cynllun, mae EQIA gwreiddiol eisoes yn ei le. Cafodd nodau'r Cynllun gwreiddiol eu cyflawni yn bennaf, gyda rhai gweithredoedd mawr a hirdymor yn parhau. Mae hwn yn Gynllun tymor hir (25 mlynedd), sy'n cynnwys prosiectau tymor canolig a llwybrau gwaith gyda phrosiectau mwy sy'n ymestyn dros y tymor hwy. Mae diweddariad y Cynllun yn cynnwys enghreifftiau o weithredoedd llwyddiannus a chanlyniadau prosiectau a gyflawnwyd yn ystod cyfnod y Cynllun gwreiddiol.

Prif nod y Cynllun yw hybu cysylltiadau da rhwng trigolion lleol ac ymwelwyr sydd yn berthynas gymhleth ac amlweddog. Mae'r Cynllun yn annog cymryd cyfrifoldeb personol a bod yn barchus, nid yn unig tuag at ei gilydd ond hefyd tuag at amgylchedd bregus Eryri, a fydd, os llwyddiannus, yn gweithio tuag at ddealltwriaeth well a chydlyniant cymunedol gwell. Gall cyfleoedd datblygu economaidd o fewn y Cynllun helpu i hybu cyfleoedd cyfartal, yn ogystal ag gwella cyfleusterau a seilwaith er mwyn gwella mynediad i bawb.

Parcio a Bathodyn Glas

Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried cynnig i gyflwyno taliadau parcio i ddeiliaid Bathodyn Glas fel rhan o adolygiad ehangach o ffioedd parcio'r Awdurdod. Datblygwyd y cynnig mewn ymateb i gostau gweithredu cynyddol a phwysau ariannol, gyda'r nod o gynhyrchu incwm ychwanegol i gefnogi gwaith cynnal a chadw a rheoli meysydd parcio'r Awdurdod yn barhaus. Mae'r asesiad yn cydnabod mai pobl anabl yw'r rhan fwyaf o ddeiliaid Bathodyn Glas ac y gallai dileu'r consesiwn parcio am ddim cael effaith andwyol ar y grŵp hwn.

Mae'r asesiad yn nodi mai anabledd yw'r brif nodwedd warchodedig yr effeithir arni gan y cynnig, gyda'r posibilrwydd o effeithiau eilaidd ar bobl hŷn, gofalwyr ac unigolion sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae'n cydnabod y gall pobl anabl wynebu costau ychwanegol a rhwystrau pellach wrth gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau. Gallai rhai unigolion ddewis ymweld â safleoedd yr Awdurdod yn llai aml pe bai taliadau parcio ychwanegol yn cael eu cyflwyno. Er mwyn lliniaru'r effeithiau hyn, mae'r cynnig yn cynnwys trefniant a fyddai'n caniatáu i ddeiliaid Bathodyn Glas barcio am ddwywaith yr hyd a ganiateir i ddefnyddwyr eraill am yr un ffi barcio.

Wrth ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a rhwymedigaethau Hawliau Dynol, mae'r asesiad yn dod i'r casgliad y gallai'r cynnig gael effaith andwyol gyfyngedig ar rai pobl anabl. Mae'r asesiad hefyd yn nodi bod modd lliniaru'r effaith honno a'i bod yn gymesur â'r nod cyfreithlon o sicrhau incwm ychwanegol i gynnal seilwaith ymwelwyr a gwasanaethau parcio. Mae'r asesiad hefyd yn cadarnhau y bydd yr holl wybodaeth ac arwyddion sy'n gysylltiedig â'r cynllun ar gael yn ddwyieithog ac na nodwyd unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg.

Yn gyffredinol, daw'r asesiad i'r casgliad y gellir bwrw ymlaen â'r cynnig gan fod yr effeithiau andwyol a nodwyd wedi cael eu hystyried, bod mesurau lliniaru rhesymol wedi'u cynnwys, a bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i fonitro ac adolygu'r trefniadau yn barhaus. Bydd yr Awdurdod yn monitro cwynion, adborth a phatrymau defnydd o'r meysydd parcio ar ôl gweithredu'r cynnig, ac yn adolygu'r trefniadau os bydd tystiolaeth yn dod i'r amlwg o anfantais anghymesur i ddeiliaid Bathodyn Glas neu grwpiau eraill yr effeithir arnynt.

Toiledau Cyhoeddus

Mae'r Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb yn ystyried cynnig i adolygu'r ddarpariaeth toiledau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y cyfleusterau'n parhau i fod yn hygyrch, yn ddiogel ac yn gynhwysol i ystod eang o ddefnyddwyr. Nod y cynnig yw darparu

cydbwysedd rhwng anghenion gwahanol grwpiau defnyddwyr drwy gadw darpariaeth ar wahân i ddynion a menywod, tra hefyd yn darparu toiled hygyrch cynhwysol sy'n cynnig preifatrwydd ychwanegol i'r rhai sydd ei angen.

Mae'r asesiad yn nodi y gallai'r cynnig gael effeithiau gwahanol ar nifer o grwpiau a nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys pobl anabl, menywod a merched, pobl sy'n rhannu'r nodwedd warchodedig o ailbennu rhywedd, gofalwyr ac unigolion sydd angen cyfleusterau hygyrch neu breifat. Mae'r asesiad yn cydnabod na fydd anghenion pob grŵp o reidrwydd yn cyd-fynd ac wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael wrth geisio sicrhau cydbwysedd rhwng yr hawliau a'r anghenion amrywiol hynny.

Wrth ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol a rhwymedigaethau Hawliau Dynol, daeth yr asesiad i'r casgliad nad yw'r cynnig yn dileu unrhyw ddarpariaethau hygyrch nac yn lleihau mynediad i gyfleusterau. Mae'r cynnig yn cynnwys mesurau lliniaru megis cynnal darpariaeth hygyrch, sicrhau preifatrwydd priodol a monitro defnydd a chwynion yn barhaus. Nodwyd hefyd na ddisgwylir unrhyw effaith andwyol ar y Gymraeg, a bydd yr holl wybodaeth ac arwyddion perthnasol ar gael yn ddwyieithog.

Yn gyffredinol, daw'r asesiad i'r casgliad y gellir bwrw ymlaen â'r cynnig gan fod yr effeithiau posibl wedi cael eu hystyried yn fanwl a bod mesurau lliniaru priodol wedi'u hymgorffori yn y cynllun. Bydd yr Awdurdod yn monitro adborth defnyddwyr, cwynion a phatrymau defnydd ar ôl gweithredu'r trefniadau newydd ac yn adolygu'r ddarpariaeth os daw tystiolaeth i'r amlwg o effeithiau anghymesur ar unrhyw grŵp gwarchodedig.

Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ARhCA)

Yn dilyn pwysau a chwynion wrth drigolion lleol a'r Cynghorau Cymuned lleol parthed swn a chamddefnydd o'r safle a phwysau wrth Lywodraeth Cymru ein bod ni fel Awdurdod yn cynyddu ein ffynhonellau incwm fe wnaethpwyd y penderfyniad i wneud cynllun peilot ARhCA ym Meysydd Parcio Llyn Tegid a Llangywer.

Bu i'r asesiad effaith adnabod yr holl unigolion a grwpiau a fyddai'n cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol gan y cynllun peilot. Nodwyd byddai'n bosib i'r cynllun peilot yn cael effaith negyddol ar bobl anabl a phobl hyn. Nodwyd yn yr asesiad sut byddem fel Awdurdod yn cwrdd gyda'r heriau hyn.

Nodwyd na fyddai yna effaith ar y Gymraeg oherwydd fod yr Awdurdod yn rhoi yr un statws i'r Gymraeg a'r Saesneg. Cydnabyddwyd hefyd bod nifer o bobl lleol yn gwneud defnydd rheolaidd o'r meysydd parcio ac felly byddai modd i bobl lleol barcio yno am awr yn rhad ac am ddim cyn 8 y bore neu wedi 5:30 y prynahwn. Bydd opsiwn amgen yn cael ei nod hefyd sef trwydded barcio flynyddol am £120 sy'n cyfateb i £2.30 y mis.

Gwnaed y penderfyniad bod digon o wybodaeth ar gael i fynd yn ei flaen gyda'r peilot, gan fod y prif effeithiau posibl wedi eu hadnabod ac mae mesurau lliniaru yn eu lle, gan gynnwys dulliau talu amgen, gwybodaeth ddwyieithog, cefnogaeth i staff, cyfnodau arhosiad byr am ddim, a'r opsiwn trwydded flynyddol. Bydd y peilot yn cael

ei fonitro trwy adborth, cwynion, apelau a data talu, a bydd yr EqIA yn cael ei hadolygu os bydd unrhyw effeithiau anghyson neu annisgwyl yn cael eu nodi.

## 7. Gwybodaeth Cyflogaeth

Mae'r ddyletswydd yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol am gyflogaeth:

Rhaid i gorff rhestredig yng Nghymru gasglu a chyhoeddi bob blwyddyn nifer y:

- Bobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodweddion a ddiogelir
- Gwrywod a benywod a gyflogir, yn ôl:
    - Swydd
    - Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
    - Tâl
    - Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
    - Patrymau gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a fu'n llwyddiannus â'u cais a sawl un a fethodd
- Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais
- Gweithwyr a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn o / hi
- Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu
- Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob un o'r grwpiau unigol a ddiogelir. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data am swyddi, graddfa, tâl, math o gontract a phatrwm gwaith - dim ond ei ddadansoddi mewn perthynas â benywod a gwrywod yn unig sydd ei angen bryd hynny.

## Pobl a gyflogir gan yr Awdurdod ar 31 Mawrth bob blwyddyn yn ôl nodwedd a ddiogelir

Cyfanswm y gweithwyr ar 31 Mawrth 2026 = 134

## Proffil oedran

| | |
|---|---|
| 24 a iau | 3 |
| 25 – 34 | 23 |
| 35 – 44 | 50 |
| 45 – 54 | 22 |

55 – 64 31
65 a throsodd 5

## Dosbarthiad Benywod / Gwrywod

Benywod 61
Gwrywod 73

Mae 4% o'r staff wedi datgan eu bod yn anabl a / neu gyda nam.

Roedd 2 aelod o staff ar absenoldeb mamolaeth.

O fewn yr Awdurdod, mae'r staff sydd wedi datgan eu tarddiad ethnig yn disgyn o fewn y categori Gwyn Cymreig, ac nid oes unrhyw un ohonynt o'r prif grwpiau ethnig eraill (Cymysg, Asiaidd, Du neu Tsieineaidd).

O achos y nifer isel o weithwyr, ni chyhoeddir yr wybodaeth yn fanylach er mwyn diogelu hunaniaeth yr unigolion.

Y gwrywod a'r benywod a gyflogir, yn ôl:

- Swydd
- Graddfa (lle bo systemau graddio mewn lle)
- Tâl
- Math o gontract (gan gynnwys contractau parhaol a thymor penodol)
- Patrwm gwaith (gan gynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)

Mae'r tabl nesaf yn dangos dosbarthiad gwrywod a benywod a gyflogir yn ôl graddfa, patrwm gwaith a'r math o gontract ar 31.03.2026 (mae gan yr Awdurdod nifer o deitlau swydd wahanol o fewn y graddfeydd):

| | | **Patrwm Gwaith** | | | | | | **Math o Gontract** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **Amser llawn** | | **Rhan amser** | | **Hyblyg** | | **Parhaol** | | **Dros Dro** | | **Tymor Penodol** | |
| **Graddfa** | **Tâl/ Awr** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** |
| Isafswm Cyflog Cenedlaethol | £12.21 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 1 | £12.85 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| 2 | £13.05 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 3 | £13.26 | 0 | 0 | 6 | 4 | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 5 | 2 |

| | | Patrwm Gwaith | | | | | | Math o Gontract | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Amser llawn | | Rhan amser | | Hyblyg | | Parhaol | | Dros Dro | | Tymor Penodol | |
| **Graddfa** | **Tâl/ Awr** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** | **B** | **G** |
| 4 | £13.47 | 3 | 3 | 10 | 6 | 0 | 0 | 10 | 6 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| 5 | £14.35 | 2 | 5 | 2 | 3 | 0 | 0 | 3 | 1 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 6 | £15.82 | 2 | 5 | 3 | 0 | 0 | 0 | 4 | 4 | 0 | 0 | 1 | 1 |
| 7 | £17.47 | 7 | 13 | 1 | 0 | 0 | 0 | 6 | 12 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| 8 | £18.85 | 2 | 14 | 5 | 2 | 0 | 0 | 6 | 12 | 0 | 0 | 1 | 4 |
| 9 | £21.24 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 5 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 10 | £22.20 | 2 | 4 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 3 | 0 | 0 | 0 | 1 |
| 11 | £23.37 | 4 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 12 | £24.46 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 13 | £25.54 | 1 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 14 | £26.62 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| 15 | £27.71 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prif Swyddog – Cyfarwyddwr | £36.72 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Prif Swyddog – Prif Weithredwr | £52.12 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |

## Pobl sydd wedi ymgeisio am swyddi gyda'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn ddiwethaf

O'r ymgeiswyr sydd wedi llenwi ffurflenni monitro:

## Tarddiad Ethnig

336 Gwyn
2 Cymysg – Gwyn a Du Affricanaidd
1 Cymysg – Gwyn a Du Caribïaidd
3 Cymysg - Gwyn ac Asiaidd
6 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd - Pacistanaidd
4 Asiaidd, Asiaidd Prydeinig, Asiaidd Cymreig, Asiaidd Saesneg, Asiaidd Albanaidd – Indiaidd
1 Du, Du Prydeinig, Du Saesneg, Du Albanaidd, Du Cymreig - Affricanaidd
1 Tseiniaidd, Tseiniaidd Prydeinig, Tseiniaidd Cymreig, Tseiniaidd Saesneg, Tseiniaidd Albanaidd neu unrhyw grwp ethnic arall - Tseiniaidd
1 Unrhyw gefndir cymysg arall
2 Gwell gennyf beidio â dweud

## Rhyw

182 Gwryw
170 Benyw
1 Gwell gennyf beidio â dweud
4 Arall

## Anabledd

40 ymgeisydd gyda nam yr hoffent roi gwybod amdano

Nifer y swyddi a ddaeth yn wag yn ystod y flwyddyn: 27

Nifer y bobl cafodd eu gwahodd i gyfweliad: 130

## Gweithwyr sydd wedi ymgeisio i newid swydd o fewn yr Awdurdod, gan nodi sawl un a oedd yn llwyddiannus â'u cais a sawl un a oedd wedi methu

| | Ceisiadau | Penodiadau |
|---|---|---|
| Gwryw | 4 | 4 |
| Benyw | 9 | 6 |
| Cyfanswm | 13 | 10 |

## Gweithwyr sydd wedi ymgeisio am hyfforddiant a sawl un a oedd wedi llwyddo â'u cais

Gwnaed 89 o geisiadau gan fenywod a oedd yn llwyddiannus wrth fynychu eu hyfforddiant.
Gwnaed 114 o geisiadau gan ddynion a oedd hefyd yn llwyddiannus wrth fynychu eu hyfforddiant (gwnaeth rhai staff gais a mynychu ar fwy nag un achlysur).

## Gweithwyr a fu'n ymwneud â gweithdrefnau cwyno, un ai fel achwynydd neu fel un y gwnaed y gŵyn yn ei erbyn ef / hi

| | |
|---|---|
| Benyw | 2 |
| Gwryw | 2 |
| Cyfanswm | 4 |

## Gweithwyr a fu'n destun gweithdrefnau disgyblu

Fe fu 3 aelod o staff a fu yn destun gweithdrefnau disgyblu yn ystod y cyfnod hwn.

Gweithwyr sydd wedi gadael eu swyddi â'r Awdurdod

| | |
|---|---|
| Benyw | 16 |
| Gwryw | 8 |
| Cyfanswm | 24 |